

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/07/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#)
[Questions to the Minister for Natural Resources and Food](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio](#)
[Questions to the Minister for Housing and Regeneration](#)

[Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau a Chadeirydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
[Motions to Elect Members to Committees and the Chair of the Health and Social Care Committee](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Dim Mwy o Dudalen Tri](#)
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): No More Page Three](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor](#)
[The Constitutional and Legislative Affairs Committee's Report on the Inquiry into the Council Tax Reduction Schemes](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44 ar y Bil Cartrefi Symudol \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order No. 26.44 Debate on the Mobile Homes \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.45 ynghylch y Bil Cartrefi Symudol \(Cymru\)](#)
[Motion under Standing Order No. 26.45 in relation to the Mobile Homes \(Wales\) Bill](#)

[Dadl Fer: Buddsoddi yn ein Dyfodol](#)
[Short Debate: Investing in our Future](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

TB mewn Gwartheg

Questions to the Minister for Natural Resources and Food

Bovine TB

13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau sy'n cael eu cymryd i reoli lledaeniad TB mewn gwartheg yng Nghymru? OAQ(4)0034(NRF)

1. Will the Minister make a statement on measures being taken to control the spread of bovine TB in Wales? OAQ(4)0034(NRF)

13:31 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

The Welsh Government has a comprehensive suite of measures in place to eradicate bovine TB in Wales. These measures, which include a rigorous cattle surveillance programme, and a badger vaccination project, are set out in 'A Strategic Framework for Bovine TB Eradication in Wales', which was launched in March 2012.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfres gynhwysfawr o fesurau ar waith i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru. Mae'r mesurau hyn, sy'n cynnwys rhaglen drylwyr i gadw golwg ar wartheg, a phrosiect brechu moch daear, wedi'u hamlinellu yn y 'Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB Gwartheg yng Nghymru', a gafodd ei lansio ym mis Mawrth 2012.

- 13:31 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for the reply, Minister. In spite of the badger vaccination programme, the number of herds that are under movement restrictions due to TB incidents has risen by 15% in the last year. Badger vaccination has cost nearly £1 million in its first year, but nearly 8,500 cattle have still had to be slaughtered due to infection. Does the Minister agree that it is now time to assess the impact of his badger vaccination policy, and to consider other ways of tackling the spread of bovine TB in Wales?
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb, Weinidog. Er gwaethaf y rhaglen brechu moch daear, mae nifer y buchesi sydd o dan gyfyngiadau symud o ganlyniad i achosion o TB wedi codi 15% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhaglen brechu moch daear wedi costio bron £1 filiwn yn ystod ei blwyddyn gyntaf, ond bu'n dal rhaid lladd bron 8,500 o wartheg o ganlyniad i'r haint. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bryd erbyn hyn asesu effaith ei bolisi brechu moch daear, ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â lledaeniad TB mewn gwartheg yng Nghymru?
- 13:32 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The badger vaccination project is a part of a wider suite of policies that have been adopted by this Government to control and then eradicate bovine TB. All these measures are constantly being reassessed and evaluated. I met yesterday with the chairs of the regional TB eradication boards, and we have considered how we might continue to bear down on the disease. We are continuing to explore all the options that are available to us within our current policy framework.
- Mae'r prosiect brechu moch daear yn rhan o gyfres ehangach o bolisiau a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth hon i reoli ac yna ddileu TB mewn gwartheg. Caiff yr holl fesurau hyn eu hailasesu a'u gwerthuso drwy'r amser. Cefais gyfarfod ddoe gyda chadeiryddion y byrddau dileu TB rhanbarthol, ac rydym wedi ystyried sut y gallem barhau i fynd i'r afael â'r clefyd. Rydym yn parhau i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael inni o fewn ein fframwaith polisi cyfredol.
- 13:32 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it is clear to any sensible person that there are no silver bullets when it comes to eradicating TB—although there may be stray ones in Gloucestershire and Somerset at the moment. Can you confirm that, according to scientific modelling, it will take a few years of vaccination to deliver significant benefits? Given that the lifespan of a badger is roughly five years, do you expect that we will see a new, clean, healthy badger population in north Pembrokeshire in a few years' time?
- Weinidog, mae'n amlwg i unrhyw berson synhwyrol nad oes unrhyw fwledi arian ar gael i ddileu TB—er y gall fod rhai ar grwydr yn Swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf ar hyn o bryd. A allwch gadarnhau, ar sail modelu gwyddonol, y bydd yn cymryd rhai blynnyddoedd i'r gwaith brechu arwain at fuddiannau sylweddol? O ystyried mai tua phum mlynedd yw hyd oes mochyn daear, a ydych yn disgwyl y byddwn yn gweld poblogaeth newydd, lân ac iach o foch daear yng ngogledd Sir Benfro ymhen rhai blynnyddoedd?
- 13:33 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member is absolutely correct—there are no cost-free or easy options in the eradication of bovine TB. There are no easy answers either, where you can adopt one single policy that will deliver the eradication of the disease. We are committed to the vaccination project, to which my friend referred, and our objective is to ensure that this terrible disease is eradicated from the Welsh countryside—from the cattle population, and from the wildlife population.
- Mae'r Aelod yn llygad ei le—nid oes unrhyw opsiynau rhad na rhwydd i ddileu TB mewn gwartheg. Nid oes unrhyw atebion hawdd chwaith, lle gallwch fabwysiadu un polisi a fydd yn llwyddo i ddileu'r clefyd. Rydym wedi ymrwymo i'r prosiect brechu, y cyfeiriodd fy nghyfaill ato, a'n hamcan yw sicrhau bod y clefyd enbyd hwn yn cael ei ddileu o gefn gwlad Cymru—o'r boblogaeth gwartheg, ac o'r boblogaeth bywyd gwyllt.
- 13:33 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn amlwg, byddwn ni yng Nghymru yn dysgu gwersi o'r gwaith sy'n cael ei wneud nawr yn yr ardal weithredu ddwys. Fodd bynnag, mae dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu mewn rhannau eraill o Brydain, fel yr ydym wedi clywed. A allwch sôn ychydig ynglŷn â sut y byddwch yn rhannu'r gwersi y byddwn ni'n eu dysgu yng Nghymru, a sut hefyd y byddwch chi'n dysgu o'r 'approach' gwahanol sy'n digwydd yn Lloegr?
- Clearly, we in Wales will learn lessons from the work currently being done in the intensive action area. However, there is an alternative method being adopted in other parts of Britain, as we have already heard. Can you tell us a little about how you will roll out the lessons learnt from Wales, and how you will learn from the different approach that is being taken in England?

- 13:34 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r Aelod yn hollol gywir—mae dulliau gwahanol mewn gwledydd gwahanol, ac mewn rhanbarthau gwahanol oddi fewn i wledydd. Mi fyddwn ni yn dysgu gwersi, gyda llaw, ac yr ydym yn trafod y pwnc hwn, yn ogystal â phynciau eraill, fel Gweinidogion amaeth ym mhob rhan o Brydain. Felly, byddwn ni'n dysgu o'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, a byddan nhw'n dysgu o'r hyn sy'n digwydd yn y fan hon. Un peth arall buaswn i'n dweud wrth ateb eich cwestiwn yw ein bod ni wedi penodi arbenigwyr newydd yng Nghymru i edrych ar sut y mae'r afiechyd hwn yn datblygu mewn mannau gwahanol yn y wlad, oherwydd, ymhen rhai blynyddoedd, efallai y bydd dull gwahanol yn cael ei weithredu mewn mannau gwahanol yng Nghymru.
- The Member is quite correct—there are different methods in different countries, and in different regions within countries. We will be learning lessons, by the way, and we do discuss this subject, among others, as Ministers for agriculture from all parts of Britain. So, we will learn from what is happening in England and they will learn from what happens here. Another point that I would make in response to your question is that we have appointed new experts in Wales to look at how this disease develops in various places in the country, because, in a number of years' time, it is possible that different methods will be implemented in different parts of Wales.
- 13:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.
- 13:34 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you know, the Welsh Government's Chief Veterinary Officer visited Ethiopia earlier this year to learn more from the vaccination programme that had been undertaken in that country with regard to bovine TB. What specific discussions have you had with Dr Glossop since that visit, and what, if any, lessons have been learnt to improve success rates here in Wales?
- Weinidog, fel y gwyddoch, ymwelodd Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru ag Ethiopia yn gynharach eleni i ddysgu mwy o'r rhaglen frechu a roddwyd ar waith yn y wlad honno mewn perthynas â TB mewn gwartheg. Pa drafodaethau penodol yr ydych wedi'u cael gyda Dr Glossop ers yr ymweliad hwnnw, a pha wersi a ddysgwyd, os o gwbl, er mwyn gwella cyfraddau llwyddiant yma yng Nghymru?
- 13:35 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, I meet the chief veterinary officer on a weekly basis to have discussions of those sorts and others. We had a conversation yesterday, to which I referred in an earlier answer, with the chairs of the bovine TB eradication boards in Wales and we are considering how we can take the programme forward.
- Yn amlwg, rwy'n cyfarfod â'r prif swyddog milfeddygol yn wythnosol i drafod y mater hwn a materion eraill. Cawsom sgwrs ddoe, y cyfeiriais ati mewn ateb cynharach, gyda chadeiryddion y byrddau dileu TB mewn gwartheg yng Nghymru ac rydym yn ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen â'r rhaglen.
- 13:35 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for that answer, Minister. Another issue that I have raised in committee and elsewhere is the scope for more intensive work with local authorities across Wales to collect badgers that fall victim to road traffic accidents and are otherwise deposited on the roads, which could contribute to the further spread of bovine TB. Will you outline any discussions that you have had with the local authorities, or indeed any liaison that you have had with the relevant Minister within the Cabinet?
- Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mater arall yr wyf wedi'i godi yn y pwyllgor ac mewn mannau eraill yw'r cyfle i weithio mewn ffordd fwy dwys gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i gasglu moch daear a gaiff eu lladd mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd ac sydd, fel arall, yn cael eu gadael ar y ffyrdd, a allai beri i TB mewn gwartheg ledaenu ymhellach. A wnewch amlinellu unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r awdurdodau lleol, neu yn wir unrhyw gyswllt yr ydych wedi'i gael â'r Gweinidog perthnasol o fewn y Cabinet?

13:36

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Badger-found-dead surveys have been done and have provided some useful information as to the extent of infection in the wildlife populations. Clearly, we are looking to continue, as I said in answer to an earlier question, to extend, develop and deepen our understanding of how the disease develops in different parts of the country. Our belief is that it will develop in different ways in different places. For that reason, we continue to talk to local authorities and others, for example, private veterinary services, about how we can address bovine TB differently in different places, according to the genesis of the disease in that place.

Mae arolygon o foch daear marw wedi'u cynnal ac mae'r rhain wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol am hyd a lled yr haint mewn poblogaethau bywyd gwyllt. Yn amlwg, rydym yn awyddus i barhau i ymestyn, datblygu a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r clefyd yn datblygu mewn gwahanol rannau o'r wlad, fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn cynharach. Ein cred yw y bydd yn datblygu mewn ffyrdd gwahanol mewn lleoedd gwahanol. Am y rheswm hwnnw, rydym yn parhau i siarad ag awdurdodau lleol ac eraill, er enghraifft, gwasanaethau milfeddygol preifat, ynghylch sut y gallwn fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yn wahanol mewn lleoedd gwahanol, yn unol â tharddiad y clefyd yn y lle hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that, across the border in England, some research is taking place into contraceptive injections for badgers. It strikes me that this might be a useful additional tool in terms of our approach to eradicating the disease. Is this something that you will commit to looking into further?

Deallaf fod rhywfaint o waith ymchwil yn cael ei wneud, dros y ffin yn Lloegr, i bigiadau atal cenhedlu ar gyfer moch daear. Mae'n ymddangos imi y gallai hwn fod yn adnodd ychwanegol defnyddiol inni ei ddefnyddio i ddileu'r clefyd. A yw hyn yn rhywbeth y byddwch yn ymrwymo i'w ystyried ymhellach?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is. Clearly, the Department for Environment, Food and Rural Affairs has referred to this in some of its statements and announcements on potential future use. The technology is not currently available to us. This is a matter that was first discussed, I believe, with the original Welsh Assembly—as it was then—TB action group, back in 2006. It is a matter that we do keep under consideration.

Ydy. Yn amlwg, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyfeirio at y mater hwn mewn rhai o'i datganiadau a'i chyhoeddiadau ar ddefnydd posibl yn y dyfodol. Nid yw'r dechnoleg ar gael inni ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater a drafodwyd gyntaf, fe gredaf, gyda grŵp gweithredu gwreiddiol y Cynulliad Cenedlaethol ar TB—fel yr oedd ar y pryd—yn ôl yn 2006. Mae'n fater yr ydym yn ei ystyried o hyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Poblogaeth Hebogiaid yng Nghymru

The Falcon Population in Wales

13:37

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i gynorthwyo'r boblogaeth hebogiaid yng Nghymru?
OAQ(4)0035(NRF)

2. What is the Welsh Government doing to help support the falcon population in Wales? OAQ(4)0035(NRF)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Falcons are key species within our listed Welsh birds of prey. At the biodiversity summit to be held at the Royal Welsh Show, we will be considering our priorities for habitat and species conservation in Wales, particularly in response to the issues raised in the recent 'State of Nature' report.

Mae hebogiaid yn rhywogaethau allweddol ymhlith ein hadar ysglyfaethus rhestredig yng Nghymru. Yn yr uwchgynhadledd bioamrywiaeth a gynhelir yn Sioe Frenhinol Cymru, byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru, yn enwedig mewn ymateb i'r materion a godwyd yn adroddiad 'State of Nature' yn ddiweddar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will almost certainly be aware that the rare hobby falcon has been recently spotted hunting in my constituency, which is fantastic news for this magnificent bird of prey, as it is rarely seen this far south. You will also be aware, Minister, that in 2011 there were six incidents with regard to birds of prey reported in Rhondda Cynon Taf and Torfaen; these incidents related mainly to poisoning, shooting and nest robberies. What action will the Welsh Government be taking in respect of the actual protection of birds of prey and the development of other similar endangered species?

Weinidog, mae'n siŵr eich bod yn gwybod i hebog yr ehedydd prin gael ei weld yn hela yn fy etholaeth yn ddiweddar, sy'n newyddion gwych ar gyfer yr aderyn ysglyfaethus ysbennydd hwn, gan na chaiff ei weld yn aml cyn belled â hyn i'r de. Byddwch hefyd yn gwybod, Weinidog, i chwe achos yn ymwneud ag adar ysglyfaethus gael eu cofodi yn Rhondda Cynon Taf a Thorfaen yn 2011; roedd yr achosion hyn yn cynnwys gwenwyno, saethu a lladrata nythod yn bennaf. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu adar ysglyfaethus a datblygiad rhywogaethau eraill tebyg sydd mewn perygl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will say two things. First of all, where any Member is aware of any wildlife crime, those matters should be reported to the police and to the relevant authorities. Where there is any example of a pattern of wildlife crime developing, then clearly we need to ensure that the police have sufficient resources to address that, and sufficient intelligence available to them to address those matters as well. On wider issues, it is fantastic to see the return of some of these species. All of us who travel regularly through mid Wales are inspired by the sight of red kites flying high above our valleys. It is important—and I hope there will be consensus on all sides of the Assembly this afternoon—to ensure that we continue to protect, enhance and allow these species of bird of prey and other species to return in safety.

Dywedaf ddau beth. Yn gyntaf oll, os oes unrhyw Aelod yn ymwybodol o unrhyw droseddau bywyd gwyllt, dylid hysbysu'r heddlu a'r awdurdodau perthnasol o'r materion hynny ar unwaith. Os oes unrhyw enghraifft o batrwm o droseddau bywyd gwyllt yn datblygu, yna yn amlwg mae angen inni sicrhau bod gan yr heddlu ddigon o adnoddau i fynd i'r afael â hynny, a bod digon o wybodaeth ar gael iddynt fynd i'r afael â'r materion hynny hefyd. O ran materion ehangach, mae'n wych gweld bod rhai o'r rhywogaethau hyn yn dychwelyd. Caiff pob un ohonom sy'n teithio'n rheolaidd drwy'r canolbarth ein hysbrydoli o weld barcudiaid coch yn hedfan yn uchel uwchben ein cymoedd. Mae'n bwysig sicrhau—a gobeithio y bydd consensws ar bob ochr i'r Cynulliad y prynhawn yma—ein bod yn parhau i ddiogelu'r rhywogaethau hyn o adar ysglyfaethus a rhywogaethau eraill, yn eu gwella ac yn gadael iddynt dychwelyd yn ddiogel.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In recent years, falcons have been illegally targeted due to the threat that they pose to the racing pigeon population. That has been part of the issue. I think that I am right in saying that there are two specific sites in Wales where the decline is being reversed and the falcon population is being encouraged to breed. Can you tell us what you are doing to support those sites? Will you liaise with the Minister for Education and Skills to ensure that, at a young age, children and people in Wales are given more information about these beautiful birds and the importance of protecting them in future years?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae hebogiaid wedi'u targedu'n anghyfreithlon am eu bod yn fygythiad i'r boblogaeth colomennod rasio. Bu hynny'n rhan o'r broblem. Credaf ei bod yn gywir dweud bod dau safle penodol yng Nghymru lle caiff y dirywiad ei wrthdroi a lle caiff y boblogaeth hebogiaid ei hannog i fagu. A allwch ddweud wrthym beth rydych yn ei wneud i gefnogi'r safleoedd hynny? A wnewch chi gydweithio â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod plant a phobl yng Nghymru, o oedran ifanc, yn cael mwy o wybodaeth am yr adar prydfarth hyn a phwysigrwydd eu diogelu yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly will do that; the Minister for education is, of course, in his place and will have heard your question. I think that he shares our commitment, and my commitment, to ensuring that those matters are covered.

In terms of the direct question that you asked, with regard to habitats, of course this is one of the key issues that we are beginning to address, or to address again, in terms of the protection of important and listed sites. There are a number of different falcon populations in Wales, some obviously are in decline and some, of course, are seeing an increase in number, as has been referred to by the Member for Pontypridd. We are ensuring that all falcon populations and other species of birds of prey receive the protection that they need and deserve.

Gwnaf hynny'n bendant; mae'r Gweinidog addysg, wrth gwrs, yn ei le a bydd wedi clywed eich cwestiwn. Credaf ei fod yn rhannu ein hymrwymiad ni, a'm hymrwymiad innau, i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hynny.

O ran y cwestiwn uniongyrchol a ofynnwyd gennych, mewn perthynas â chynefinoedd, wrth gwrs dyma un o'r materion allweddol yr ydym yn dechrau mynd i'r afael ag ef, neu fynd i'r afael ag ef eto, o ran diogelu safleoedd pwysig a rhestredig. Mae nifer o boblogaethau gwahanol o hebog yng Nghymru, mae rhai yn amlwg yn prinhau ac mae rhai, wrth gwrs, yn cynyddu, fel y dywedodd yr Aelod dros Bontypridd. Rydym yn sicrhau bod yr holl boblogaethau o hebog a rhywogaethau eraill o adar ysglyfaethus yn cael y diogelwch sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

One of the issues that we will address at the Royal Welsh Show, in terms of our response to the 'State of Nature' report, is how we can ensure that these sorts of birds of prey, which are at the top of a very complex food chain, do receive the protection that they need.

Un o'r materion y byddwn yn mynd i'r afael ag ef yn Sioe Frenhinol Cymru, o ran ein hymateb i adroddiad 'State of Nature', yw sut y gallwn sicrhau bod y mathau hyn o adar ysglyfaethus, sydd ar frig cadwyn fwyd gymhleth iawn, yn cael y diogelwch sydd ei angen arnynt.

13:41 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, after encouraging news last year, the latest results from the Welsh Government's wild bird indicator reinforces a long-term pattern of decline with birds of farmed habitats being 19% below 1994 numbers. What steps can the Welsh Government take to reverse this trend?

Weinidog, ar ôl newyddion calonogol y llynedd, mae canlyniadau diweddaraf dangosydd adar gwylt Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r patrwm hirdymor o ddirywiad gydag adar cynefinoedd a amaethir 19% yn is na niferoedd 1994. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i wrthdroi'r duedd hon?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the point that you have made is absolutely right in terms of where we are with understanding the declines of particular bird species. I met the RSPCA last week and we did have a conversation about this matter, about the approach that we take today, and the potential approaches that we will take in the future. The 'State of Nature' report that I responded to last month, I hope, will be a catalyst for action across the whole of the Welsh community. It is no longer good enough to say that it is somebody else's problem, that we can address these things through projects that we have had in the past. It is clear that the current approach that we are taking to the protection and to the enhancement of some bird species is not working. We have to start from a basis that we must do something different in the future from what has been done in the past.

Credaf fod y pwynt yr ydych wedi'i wneud yn hollol gywir o ran ein dealltwriaeth o ddirywiad rhywogaethau adar penodol. Cyfarfûm â'r RSPCA yr wythnos diwethaf a thrafodwyd y mater hwn, ein dull gweithredu ar hyn o bryd, a'r dulliau posibl y byddwn yn eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd adroddiad 'State of Nature' yr ymatebais iddo fis diwethaf, gobeithio, yn sbardun i gamau gweithredu ym mhob rhan o'r gymuned yng Nghymru. Nid yw'n ddigon da bellach i ddweud mai problem rhywun arall ydyw, ac y gallwn fynd i'r afael â'r pethau hyn drwy brosiectau a fu gennym yn y gorffennol. Mae'n amlwg nad yw'r dull presennol yr ydym yn ei ddefnyddio i ddiogelu a gwella rhai rhywogaethau o adar yn gweithio. Rhaid inni ddechrau o sail bod yn rhaid inni wneud rhywbeth gwahanol yn y dyfodol i'r hyn sydd wedi cael ei wneud yn y gorffennol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dyddodion Nwy Siâl

Shale Gas Deposits

13:42 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi'r dyddodion nwy siâl posibl yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0038(NRF)

3. How has the Welsh Government worked with the UK Government in identifying potential shale gas deposits in South Wales West? OAQ(4)0038(NRF)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2012, a British Geological Survey report provided a UK level overview of prospective areas for shale gas exploration, including the Member's regional constituency of South Wales West. The potential for commercial development of the resource remains uncertain. We continue to work alongside the United Kingdom Government and develop our policy position as more evidence becomes available.

Yn 2012, rhoddodd adroddiad gan Arolwg Daaregol Prydain drosolwg ar lefel y DU o ddarpar ardaloedd i chwilio am nwy siâl, gan gynnwys etholaeth ranbarthol yr Aelod, sef Gorrlewin De Cymru. Mae'r potensial i ddatblygu'r adnodd yn fasnachol yn parhau'n ansicr. Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a datblygu ein safbwynt polisi wrth i fwy o dystiolaeth ddod i law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. As you are probably aware, my region sits on a pocket of shale gas and I would be very surprised if energy companies do not already have their eye on it. South Wales West has long been a source of energy, whether it has been through coal or a proliferation of onshore and possibly offshore windfarms now. So, will you work with the UK Government to help to give South Wales West a break from intensive high-carbon fuel exploitation? Will you work with the Minister for Local Government and Government Business to produce new fracking guidelines that are fit for purpose here in Wales, on which local authorities in Wales will feel that they can rely?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch mae'n debyg, saif fy rhanbarth ar boced o nwy siâl a byddwn yn synnu'n fawr os nad yw cwmnïau ynni eisoes yn ei lygadu. Mae Gorllewin De Cymru wedi bod yn ffynhonnell o ynni ers tro, boed hynny drwy lo neu drwy'r doreth o ffermydd gwynt ar y tir ac, o bosibl, ffermydd gwynt ar y môr erbyn hyn. Felly, a wnewch chi weithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i roi seibiant i Orllewin De Cymru rhag gweithgarwch dwys i ymelwa ar danwydd carbon uchel? A wnewch chi weithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i baratoi canllawiau ffracio newydd sy'n addas at y diben yma yng Nghymru, y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn teimlo y gallant ddbynnu arnynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will certainly do that and I understand the point that the Member raises. I will say that, at the moment, the approach that we take—a precautionary approach, which we discussed at the last question session—is one that I feel has broad support on all sides of this Chamber. I have not received any representations for a change to that approach, or a change to the policy approach advice that we currently provide. Clearly, we have conversations with the United Kingdom Government on this and other matters. We have taken a precautionary approach to ensure that the economic and environmental and geological issues are well covered and, on that basis, we will take an approach where necessary when any application for the exploitation of shale gas reserves comes to us. We have not yet received any application for the exploitation of shale gas anywhere in Wales.

Byddaf yn sicr yn gwneud hynny a deallaf y pwynt y mae'r Aelod yn ei godi. Dywedaf, ar hyn o bryd, fy mod yn teimlo bod cefnogaeth eang i'n hymagwedd—sef ymagwedd ragofalus, y gwnaethom ei thrafod yn ystod y sesiwn cwestiynau ddiwethaf—ar bob ochr i'r Siambr hon. Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau o blaid newid yr ymagwedd honno, neu newid y cyngor polisi a ddarperir gennym ar hyn o bryd. Yn amlwg, rydym yn cael trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y mater hwn a materion eraill. Rydym wedi cymryd ymagwedd ragofalus er mwyn sicrhau bod y materion economaidd ac amgylcheddol a daearegol yn cael eu hystyried yn briodol ac, ar sail hynny, byddwn yn arddel yr ymagwedd honno lle y bo angen pan gyflwynir unrhyw gais i ymelwa ar gronfeydd nwy siâl. Nid ydym wedi cael unrhyw gais ar gyfer gwaith ymelwa ar nwy siâl unrhyw le yng Nghymru hyd yn hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, given that you are satisfied that the precautionary approach to the exploitation of unconventional gas is an appropriate response, as you have indicated, why do you not support a four-year moratorium in Wales that would enable us to ensure that, if any mistakes are made when the UK Government presses ahead with fracking in England, we could learn from the process here in Wales? The Welsh Government can prevent pollution in Wales by introducing such a moratorium.

Weinidog, o gofio eich bod yn fodlon bod yr ymagwedd ragofalus at ymelwa ar nwy anghonfensiynol yn ymateb priodol, fel y nodwyd gennych, pam nad ydych yn cefnogi moratoriwm pedair blynedd yng Nghymru a fyddai'n ein galluogi i sicrhau, os caiff unrhyw gamgymeriadau eu gwneud pan fydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â ffracio yn Lloegr, y gallwn ddsygu o'r broses yma yng Nghymru? Gall Llywodraeth Cymru atal llygredd yng Nghymru drwy gyflwyno moratoriwm o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of where we are today, of course, fracking takes place elsewhere in the world, not simply in England. We do already have a great deal of the understanding that you refer to in your question. You will have seen the Department of Energy and Climate Change report, published by the UK Government last December, and I think that provided a great deal of reassurance for people in different places about the fracking process. Clearly, the Office of Unconventional Gas and Oil, based in DECC, will continue to assemble information and an evidence base on the potential use of shale gas from its exploitation in other places. We will continue to monitor the situation. I do not support a moratorium, because we do not have any potential applications in front of us at the moment.

O ran y sefyllfa sydd ohoni, wrth gwrs, mae ffracio yn digwydd mewn mannau eraill yn y byd, nid dim ond yn Lloegr. Mae gennym eisoes gryn dipyn o'r ddealltwriaeth y cyfeirwch ati yn eich cwestiwn. Byddwch wedi gweld adroddiad yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU fis Rhagfyr diwethaf, a chredaf iddo roi llawer o sicrwydd i bobl mewn gwahanol leoedd am y broses ffracio. Yn amlwg, bydd y Swyddfa Nwy ac Olew Anghonfensiynol, sydd wedi'i lleoli yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, yn parhau i gasglu gwybodaeth a sail dystiolaeth ar y defnydd y gellir ei wneud o nwy siâl sy'n cael ei ddatblygu mewn mannau eraill. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Nid wyf yn cefnogi moratoriwm, am nad oes gennym unrhyw geisiadau posibl o'n blaenau ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:45 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, although there is huge potential in terms of mining shale gas in south Wales, and in South Wales West in particular, there is also a lot of concern about the impact of such operations on the local environment and the local water supply. What work will the Welsh Government be doing, once you start receiving applications, to mitigate those concerns and educate people as to the reality of taking that shale gas out? How can you address those concerns, in terms of people's fears about the impact on their environment?
- Weinidog, er bod potensial aruthrol i fwyngloddio nwy siâl yn y de, ac yng Ngorllewin De Cymru yn benodol, mae hefyd lawer o bryder am effaith gweithrediadau o'r fath ar yr amgylchedd lleol a'r cyflenwad dŵr lleol. Pa waith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud, unwaith y byddwch yn dechrau derbyn ceisiadau, i leddfu'r pryderon hynny ac addysgu pobl am realiti gwaith i dynnu'r nwy siâl hwnnw? Sut y gallwch fynd i'r afael â'r pryderon hynny, o ran ofnau pobl am yr effaith ar eu hamgylchedd?
- 13:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I understand the point that has been made, and I think that there is a great deal of well-founded fear and concern about these matters among the general public. As I said in answer to Suzy Davies, we have a precautionary approach to dealing with applications, and we would adopt a very robust regulatory approach to any potential exploration or exploitation of such reserves. However, I have to say that we are not at that point at the moment. We are not there at the moment, and, clearly, I would make a full statement to this place prior to us allowing the exploitation of such reserves and I would inform Members of the sort of regulatory environment that we would expect to have in place.
- Deallaf y pwynt sydd wedi cael ei wneud, a chredaf fod cryn dipyn o ofn a phryder haeddiannol am y materion hyn ymhlith y cyhoedd. Fel y dywedais wrth ateb Suzy Davies, mae gennym ymagwedd ragofalus tuag at ddelio â cheisiadau, a byddem yn mabwysiadu ymagwedd reoleiddiol gadarn iawn o ran unrhyw weithgarwch posibl i chwilio am gronfeydd o'r fath ac ymelwa arnynt. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud nad ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw ar hyn o bryd. Nid ydym yno ar hyn o bryd, ac, yn amlwg, byddwn yn gwneud datganiad llawn i'r lle hwn cyn inni ganiatáu camau i ymelwa ar gronfeydd o'r fath a byddwn yn hysbysu Aelodau o'r math o amgylchedd rheoleiddiol y byddem yn disgwyl ei sefydlu.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 4, OAQ(4)0044(NRF), has been transferred for written answer.
- Mae Cwestiwn 4, OAQ (4) 0044 (NRF), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig.
- Polisi Ynni** **Energy Policy**
- 13:47 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar ar bolisi ynni gyda Llywodraeth y DU? OAQ(4)0048(NRF)*
- 5. Will the Minister make a statement on recent discussions with the UK Government on energy policy? OAQ(4)0048(NRF)*
- 13:47 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government regularly engages with the United Kingdom Government on a number of issues, including energy policy.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar nifer o faterion, gan gynnwys polisi ynni.
- 13:47 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I heard your previous answer to Suzy Davies, Bethan Jenkins and Peter Black. On 18 June, my colleague, Hywel Williams MP, asked the UK Government Minister what representations he had received from your Government regarding plans for hydraulic fracturing in Wales. The response was 'none'. Is he correct?
- Diolch, Weinidog. Clywais eich ateb blaenorol i Suzy Davies, Bethan Jenkins a Peter Black. Ar 18 Mehefin, gofynnodd fy nghyd-Aelod, Hywel Williams AS, i Weinidog Llywodraeth y DU pa sylwadau yr oedd wedi'u cael gan eich Llywodraeth ynghylch cynlluniau hollti hydrolig yng Nghymru. Yr ymateb oedd 'dim'. A yw hynny'n gywir?

13:47	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Hywel Williams asked the right question, but to the wrong Minister. You say that he asked the UK Government, but he actually spoke to Michael Fallon about that matter. The conversations that we have been having have been with DECC and DEFRA. The Office of Unconventional Gas and Oil is located in DECC, not in the Department for Business, Innovation and Skills, so the answer that Michael Fallon gave was completely correct, but it did not answer the question that you have just asked.</p>	<p>Gofynnodd Hywel Williams y cwestiwn cywir, ond i'r Gweinidog anghywir. Rydych yn dweud iddo ofyn i Lywodraeth y DU, ond mewn gwirionedd siarad â Michael Fallon a wnaeth am y mater. Mae'r sgysiau yr ydym wedi bod yn eu cael wedi bod gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a DEFRA. Mae'r Swyddfa Nwy ac Olew Anghonfensiynol wedi'i lleoli yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, nid yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, felly mae'r ateb a roddodd Michael Fallon yn hollol gywir, ond nid oedd yn ateb y cwestiwn yr ydych newydd ei ofyn.</p>
13:48	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, given that Wales is in the unique position of being the only devolved nation to have a signed memorandum of understanding with the Crown Estate, can you confirm what progress you and the First Minister are making in streamlining the process of marine planning for renewable energy projects in Welsh waters, and also what progress you are making on marine mapping?</p>	<p>Weinidog, o gofio bod Cymru mewn sefyllfa unigryw gan mai hi yw'r unig wlad ddatganoledig sydd wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Ystad y Goron, a allwch gadarnhau pa gynnydd yr ydych chi a'r Prif Weinidog yn ei wneud i symleiddio'r broses cynllunio morol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru, a hefyd pa gynnydd yr ydych yn ei wneud ar fapio morol?</p>
13:48	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>You will be aware that I have just brought together, in my new department, the fisheries and marine planning divisions to ensure that we have a much stronger marine policy resource in place. I met the Minister responsible for terrestrial planning earlier today, and we will continue to meet, along with the First Minister. I will be meeting the Crown Estate next week to discuss all of the matters that you have raised.</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol fy mod newydd ddwyn ynghyd, yn fy adran newydd, yr isadrannau pysgodfeydd a chynllunio morol er mwyn sicrhau bod gennym adnodd polisi morol llawer cryfach. Cyfarfûm â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio daearol yn gynharach heddiw, a byddwn yn parhau i gyfarfod, ynghyd â'r Prif Weinidog. Byddaf yn cyfarfod ag Ystad y Goron yr wythnos nesaf i drafod pob un o'r materion a godwyd gennych.</p>
	Ffermio Organig	Organic Farming
13:49	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynorthwyo ffermio organig yng Nghymru? OAQ(4)0039(NRF)</p>	<p>6. What is the Minister doing to support organic farming in Wales? OAQ(4)0039(NRF)</p>
13:49	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Wales was the first Government in the United Kingdom to extend current rural development plan support for the organic sector to provide continuity into the next programme. The Organic Research Centre in Aberystwyth will assist the Welsh Government in developing a new organic scheme, and this will be subject to consultation later this year.</p>	<p>Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymestyn cymorth y cynllun datblygu gwledig presennol i'r sector organig er mwyn cynnig parhad at y rhaglen nesaf. Bydd y Ganolfan Ymchwil Organig yn Aberystwyth yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun organig newydd, a bydd hwn yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.</p>

13:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I am aware of the important work that has been going on in Aberystwyth. I recently visited an organic farm in my constituency, run by Mr and Mrs Hillman just outside Abergavenny—you may know how much they do to promote organic farming. They have been successfully farming organically for around eight or nine years. However, they stressed the difficulties that they had in the conversion process. There is good practice in certain farms. What are you doing to extend that practice? Also, what are you doing to support the export market, because that is particularly important to the organic sector, even more so than to other sectors of the farming industry in Wales?

Diolch, Weinidog. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith pwysig sydd wedi bod yn digwydd yn Aberystwyth. Yn ddiweddar, ymwelais â fferm organig yn fy etholaeth, a gaiff ei rhedeg gan Mr a Mrs Hillman nid nepell o'r Fenni—efallai y byddwch yn gwybod faint y maent yn ei wneud i hyrwyddo ffermio organig. Maent wedi bod yn ffermio'n organig yn llyddiannus ers tuag wyth neu naw mlynedd. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio'r anawsterau a wynebwyd ganddynt wrth droi'n organig. Mae arfer da mewn rhai ffermydd. Beth rydych yn ei wneud i ymestyn yr arfer hwnnw? Hefyd, beth rydych yn ei wneud i gefnogi'r farchnad allforio, oherwydd mae honno'n arbennig o bwysig i'r sector organig, hyd yn oed yn fwy felly nag i sectorau eraill y diwydiant ffermio yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have increased the support that we provide to food exporters in all sectors and I think that we reported previously on the success of that programme. In terms of the specific question you asked about organic farming, I think that knowledge transfer, in the way that you have described it, is an absolutely central and essential part of any future organic support programme. I would be more than happy to listen in more detail to the experiences of your constituent and I would be happy to meet your constituent to take those matters forward. However, we have procured some specialist policy support as well, to ensure that we are able to design an organic support programme for the next RDP that provides exactly the sort of support that you have outlined.

Rydym wedi cynyddu'r cymorth yr ydym yn ei roi i allforwyr bwyd ym mhob sector a chredaf ein bod wedi adrodd yn flaenorol ar lwyddiant y rhaglen honno. O ran y cwestiwn penodol a ofynnwyd gennych am ffermio organig, credaf fod trosglwyddo gwybodaeth, yn y ffordd a ddisgrifwyd gennych, yn rhan hollol ganolog a hanfodol o unrhyw raglen cymorth organig yn y dyfodol. Byddwn yn fwy na pharod i wrando'n fanylach ar brofiadau eich etholwr a byddwn yn barod i gyfarfod â'ch etholwr i fynd i'r afael â'r materion hynny. Fodd bynnag, rydym wedi caffael rhywfaint o gymorth polisi arbenigol yn ogystal, er mwyn sicrhau y gallwn ddylunio rhaglen cymorth organig ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf sy'n darparu'r union fath o gymorth a amlinellwyd gennych.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yn ogystal â hyrwyddo'r sector organig, a ydych chi'n credu ei bod yn bwysig i ni geisio hyrwyddo amaethyddiaeth Cymru fel amaethyddiaeth sydd yn cynhyrchu i'r safon uchaf posibl ac sydd yn ddiwydiant traddodiadol yng Nghymru? Mae llawer o bobl sydd yn amaethu ar y tiroedd uchel yn agos iawn at fod yn gynhyrchwyr organig, heb gofrestru fel amaethwyr organig, ac mae'n rhaid i ni geisio gwerthu hynny fel rhywbeth sydd yn cynnig gwerth ychwanegol o Gymru.

Minister, in addition to promoting the organic sector, do you believe that it is important that we endeavour to promote Welsh agriculture as agriculture that produces to optimum standards and that is a traditional industry in Wales? Many people farming on the uplands are very close to being organic producers, without being registered as organic farmers, and we should try to sell that as something that offers added value from Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cytuno'n llwyr â sylwadau'r Aelod. Mae e'n gwybod o'i etholaeth ei hun am y gwaith y mae'r 'Cambrian mountains initiative' wedi ei wneud i wneud hynny'n union. Roeddwn yn bresennol fis diwethaf gyda Thywysog Cymru yn hyrwyddo cig oen o Gymru yn yr union ffordd y mae'r Aelod wedi ei awgrymu. Hefyd, yn ystod yr argyfwng cig ceffyl ym mis Chwefror, roeddwn yn gallu hyrwyddo cig oen a chig eidion o Gymru am y rhesymau y mae'r Aelod wedi eu hamlinellu ac, oherwydd bod gennym statws PGI, mae gennym y gallu nid yn unig i hyrwyddo ond i brofi hefyd fod y safonau yma yn cyrraedd y safonau uchaf posibl.

I agree entirely with the Member's comments. He knows from his own constituency about the work that the Cambrian mountains initiative has done to do just that. I was in attendance last month with the Prince of Wales promoting Welsh lamb in exactly the way the Member has suggested. Also, during the horsemeat crisis in February, we were able to promote Welsh lamb and beef for the reasons that the Member outlined, and, because we have PGI status, we are able not just to promote but also to prove that the standards here are the highest possible standards.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the opposition spokesperson, Russell George.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Russell George.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:52 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. One of the issues for me is that there does not seem to be a drive for sustainable growth in the organic farming sector. We often see a spike after particular incidents. The horsemeat scandal, for example, saw a significant spike in organic meat sales. However, I am aware that many organic farmers are considering reverting back to conventional farming. The Scottish Government has developed quite a comprehensive action plan to develop the sector there. What discussions have you had with your counterparts in Scotland? Would you be prepared to produce an action plan alongside the new rural development plan that would really help to drive the sector forward in Wales?
- Diolch ichi, Lywydd. Un o'r problemau i mi yw nad yw'n ymddangos fel pe bai ymdrech i sicrhau twf cynaliadwy yn y sector ffermio organig. Rydym yn aml yn gweld cynnydd sydyn dros dro ar ôl digwyddiadau penodol. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd sydyn dros dro yng ngwerthiant cig organig yn dilyn y sgandal cig ceffyl. Fodd bynnag, gwn fod llawer o ffermwyr organig yn ystyried dychwelyd i ffermio confensiynol. Mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu cynllun gweithredu eithaf cynhwysfawr i ddatblygu'r sector yno. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cymheiriaid yn yr Alban? A fydddech yn barod i lunio cynllun gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun datblygu gwledig newydd a fyddai'n wirioneddol helpu i ddatblygu'r sector yng Nghymru?
- 13:53 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I should welcome the Conservatives' spokesperson to his role. I did not realise that there had been a reshuffle on the Conservative benches, but I certainly look forward to working alongside Russell George in the future on these matters.
- Dylwn groesawu llefarydd y Ceidwadwyr yn ei rôl. Nid oeddwn yn sylweddoli bod ad-drefnu wedi bod ym meinciau'r Ceidwadwyr, ond yn sicr edrychaf ymlaen at weithio ochr yn ochr â Russell George yn y dyfodol ar y materion hyn.
- 13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can you move on to the answer, please, because we are running out of time?
- A allwch chi symud ymlaen at yr ateb, os gwelwch yn dda, gan fod amser yn mynd yn brin?
- 13:53 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In terms of where we are in providing new support under the RDP, I announced yesterday—and the Member was in the Chamber for that announcement—that we are looking at the whole range of support that we will be making available to Welsh farmers, including in the organic sector.
- O ran ein sefyllfa mewn perthynas â darparu cymorth newydd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, cyhoeddais ddoe—ac roedd yr Aelod yn y Siambr ar gyfer y cyhoeddiad hwnnw—ein bod yn ystyried yr ystod gyfan o gymorth y byddwn yn ei roi i ffermwyr Cymru, gan gynnwys ffermwyr yn y sector organig.
- 13:53 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your answer, Minister. In your statement on the common agricultural policy yesterday, there was no mention of the impact the agreement will have on the organic sector in Wales. As I understand it, there is a new measure for organic farming in pillar 2, but there are concerns that there is not enough clarity from the Commission about what member states will be expected to deliver through the new separate measure. I wonder what your thoughts are on that.
- Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn eich datganiad ar y polisi amaethyddol cyffredin ddoe, nid oedd sôn am yr effaith y bydd y cytundeb yn ei chael ar y sector organig yng Nghymru. Yn ôl a ddeallaf, mae mesur newydd ar gyfer ffermio organig yng ngholofn 2, ond mae pryderon nad yw'r Comisiwn wedi bod yn ddigon clir ynghylch yr hyn y disgwylir i aelod-wladwriaethau ei gyflawni drwy gyfrwng y mesur newydd ar wahân. Tybed beth yw eich barn ar hynny?
- 13:54 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said in a previous answer, I have commissioned specialist advice from the Organic Research Centre, the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences, and ADAS to provide exactly that sort of information and knowledge to us. When I have that advice, I will be more than happy to publish it for the Conservatives and others to see. However, I will make the commitment that there will be an organic scheme in the new RDP. The scheme that we will implement will be subject to consultation and we will publish the information on that consultation as soon as possible.
- Fel y dywedais mewn ateb blaenorol, rwyf wedi comisiynu cyngor arbenigol gan y Ganolfan Ymchwil Organig, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, ac ADAS i ddarparu'r union fath hwnnw o wybodaeth inni. Pan gaf y cyngor hwnnw, byddaf yn fwy na pharod i'w gyhoeddi fel y gall y Ceidwadwyr ac eraill ei weld. Fodd bynnag, byddaf yn ymrwymo y bydd cynllun organig yn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Bydd y cynllun y byddwn yn ei weithredu yn destun ymgynghoriad a byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ar yr ymgynghoriad hwnnw cyn gynted ag y bo modd.

Tlodi Tanwydd

Fuel Poverty

- 13:54 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisiau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(4)0041(NRF) 7. Will the Minister outline his policies to combat fuel poverty in Wales? OAQ(4)0041(NRF)
- 13:54 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Our key policy is to invest in improving energy efficiency in the homes of people on low incomes through our Nest and Arbed schemes. This investment helps to reduce household bills and also creates new jobs and training opportunities, helping to tackle poverty through improving incomes too. Ein polisi allweddol yw buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi pobl ar incwm isel drwy ein cynlluniau Nyth ac Arbed. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu i leihau biliau aelwydydd a hefyd yn creu swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi, gan helpu i drechu tlodi drwy wella incwm hefyd.
- 13:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that response. How do you, or how will you, engage with the new Minister for Communities and Tackling Poverty on the fuel poverty agenda and initiatives such as the Consumer Futures report on collective switching, examining opportunities that this might provide to people on lower incomes and the Green Deal and energy company obligations for those most in need and in hard-to-treat properties, following the 20 June Big Green Book event in the Assembly? Diolch am yr ymateb hwnnw. Sut rydych, neu sut y byddwch, yn ymgysylltu â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi newydd ar yr agenda tlodi tanwydd a mentrau megis adroddiad Dyfodol Defnyddwyr ar newid cyfunol, gan ystyried y cyfleoedd a allai godi yn sgil hyn i bobl ar incwm is a rhwymedigaethau'r Fargen Werdd a chwmnïau ynni i'r rhai sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw mewn eiddo anodd ei drin, yn dilyn digwyddiad Big Green Book yn y Cynulliad ar 20 Mehefin?
- 13:55 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 The Minister referred to in the question is in his place and will have heard the question. There is a cross-governmental commitment to tackling poverty. All of us, as Ministers, are equally committed to using the resources we have available within our individual portfolios to tackle poverty, and that includes fuel poverty. Mae'r Gweinidog y cyfeiriwyd ato yn y cwestiwn yn ei le, a bydd wedi clywed y cwestiwn. Mae ymrwymiad trawslywodraethol i drechu tlodi. Mae pob un ohonom, fel Gweinidogion, yn rhannu'r un ymrwymiad i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael o fewn ein portffolios unigol i drechu tlodi, ac mae hynny'n cynnwys tlodi tanwydd.
- 13:56 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Weinidog, tra fy mod yn croesawu yn gyffredinol yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn y maes hwn, mae anhawster a phroblem arbennig gyda'r bobl hynny nad ydynt yn derbyn trydan a nwy drwy'r grid ond sy'n dibynnu ar gludo olew a nwy i'w tai. Rwyf wedi bod yn edrych ar gynllun diddorol iawn sy'n cael ei redeg ar y cyd rhwng Cyngor Sir Gâr a Menter Cwm Gwendraeth, sy'n sefydlu clybiau tanwydd yn yr ardal. Drwy ddod at ei gilydd, mae trigolion yn gallu arbed 10% ar gost eu holerw a'u nwy, sy'n swm sylweddol yn y cyd-destun hwn. Sut y gall y Llywodraeth gefnogi clybiau o'r fath? Nid ydynt wedi cael cefnogaeth uniongyrchol gan y Llywodraeth, ond a oes modd ichi edrych ar hwn fel patrwm i'w ddatblygu yng nghefn gwlad er mwyn helpu'r bobl hynny nad ydynt yn derbyn nwy a thrydan drwy'r grid? Minister, while I generally welcome what the Government is doing in this regard, there is a particular difficulty and problem faced by those people who do not receive electricity and gas through the grid but who depend on oil and gas being brought to their homes. I have been looking at a very interesting scheme that is run jointly by Carmarthenshire County Council and Menter Cwm Gwendraeth, which establishes fuel clubs in the area. By coming together, residents can save 10% on the cost of their oil and gas, which is a significant amount in this context. How can the Government support such clubs? They have not received direct support from the Government, but could you look at this as a pattern that could be developed in rural areas that will help those people who do not receive gas and electricity through the grid?
- 13:56 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Wrth gwrs. Nid oeddwn wedi clywed am y cynllun yr ydych wedi ei ddisgrifio'r prynhawn yma, ond rwy'n hapus iawn, os ysgrifennwch ataf, i sicrhau bod y wybodaeth hon yn mynd i mewn i'r system a'n bod yn cydnabod ac yn cydweithio â rhaglenni o'r fath. Mae'r cynllun Nest i fod i weithio yng nghefn gwlad yn yr union fath o dai yr ydych wedi disgrifio'r prynhawn yma. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i gydweithio â awdurdodau lleol, yn Sir Gâr neu unrhyw le arall, i gefnogi cynllun o'r fath, fydd yn cael y fath o effaith rydym i gyd am ei weld. Of course. I had not heard of the scheme that you have described this afternoon, but I am very happy, if you write to me, to ensure that this information goes into the system and that we acknowledge and collaborate with such schemes. The Nest scheme is supposed to work in rural areas in exactly the kind of houses that you have described this afternoon. However, I am very happy to collaborate with local authorities, in Carmarthenshire or anywhere else, to support such a scheme, which will have the kind of impact we all want to see.

Phytophthora Ramorum

13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod y ffordd y mae'n rheoli Phytophthora ramorum? OAQ(4)0050(NRF)

13:57 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Bu imi gyfarfod â Chyfoeth Naturiol Cymru fis diwethaf ac eto'r bore yma i drafod y clefyd. Mae fy natganiad ysgrifenedig mis diwethaf yn ymdrin â'r camau y mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n eu cymryd i reoli'r clefyd.

13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch am yr ymateb hwnnw. Yn ystod cynhadledd ddiweddar yn Efrog, dywedodd un arbenigwr mai'r perygl mwyaf yn dod o blannu coed sydd wedi eu mewnfario. Mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried Gorchymyn meithrinfeydd i ddweud o ble mae'r coed yn dod er mwyn i brynwyr fod yn ymwybodol o'r risg. A fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i ystyried cefnogi polisi o'r fath a'i wneud yn amod ar unrhyw grant, a hefyd i'w gynnwys o fewn polisi prynu Cyfoeth Naturiol Cymru?

13:58 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Cawsom sgwrs y bore yma am hynny'n union, ac mae'n rhywbeth sydd wedi bod o dan ystyriaeth yng Nghymru ers rhai wythnosau, os nad misoedd. Rydym yn ystyried yr union fath o gynlyn yr ydych wedi ei ddisgrifio. Mae'r clefyd hwn yn un hynod o bwysig a bydd yn cael effaith mawr iawn ar goedwigoedd yng Nghymru, ar draws y gwlad.

13:58 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, the blight of Phytophthora ramorum has had a devastating impact on the Afan valley, and I have raised this continually with your predecessor. Will you come to the Afan valley to see how that impact has been addressed by Forestry Commission Wales, now Natural Resources Wales, and also to look at the way in which it can be tackled, because this will spread across other regions and we need to make sure that we tackle it in an appropriate manner so that the communities and the environment and the economic impact are addressed?

13:59 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I will certainly visit the Afan valley to see for myself the issues that you have raised. I met the Confederation of Forest Industries UK Ltd last week to discuss these matters as well, and it very much welcomes the steps that the Welsh Government is taking in addressing these issues. The action group that I established to look at this is meeting tomorrow, and I will be asking the action group to report to me within months or weeks on the action that it intends to take. I agree very much with you about the very real threat that this diseases presents to forests across the whole of Wales.

Phytophthora Ramorum

8. What meetings has the Minister held with Natural Resources Wales to discuss the way it manages Phytophthora ramorum? OAQ(4)0050(NRF)

I met Natural Resources Wales last month and again this morning to discuss the disease. My written statement last month covered actions currently being undertaken by the Welsh Government and Natural Resources Wales to manage the disease.

Thank you for that response. During a recent conference in York, one expert said that the major risk comes from planting trees that have been imported. The Scottish Government is considering a nurseries Order to state where the trees come from so that buyers can be aware of the risk. Would the Welsh Government be willing to consider supporting such a policy and making it a condition of any grant, and also to include it within the purchasing policy of Natural Resources Wales?

We had conversation about exactly that this morning, and it is something that has been under consideration in Wales for some weeks, if not months. We are considering exactly the kind of scheme that you have described. This disease is extremely important and will have a major impact on forests in Wales, throughout the country.

Weinidog, mae malltod Phytophthora ramorum wedi cael effaith ddinistriol ar gwm Afan, ac rwyf wedi codi'r mater hwn drwy'r amser â'ch rhagflaenydd. A wnewch chi ddod i gwm Afan i weld sut y gwnaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru, sef Cyfoeth Naturiol Cymru bellach, ymdrin â'r effaith hon, a hefyd i edrych ar y ffordd y gellir mynd i'r afael â'r mater, oherwydd bydd hwn yn ymledu i ranbarthau eraill ac mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn mynd i'r afael ag ef mewn modd priodol fel bod y cymunedau a'r amgylchedd a'r effaith economaidd yn cael sylw?

Byddaf yn sicr yn ymweld â chw m Afan i weld y materion a godwyd gennych dros of fy hun. Cyfarfûm â Confederation of Forest Industries UK Ltd yr wythnos diwethaf i drafod y materion hyn hefyd, ac mae'n croesawu'n fawr y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r grŵp gweithredu a sefydlais i ystyried y mater hwn yn cyfarfod yfory, a byddaf yn gofyn i'r grŵp gweithredu adrodd imi ymhen misoedd neu wythnosau ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd. Cytunaf yn llwyr â chi am y bygythiad gwirioneddol y mae'r clefyd hwn yn ei beri i goedwigoedd ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:00

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, members of the forestry industry with whom I have spoken have told me, from their discussions with forestry officers, that about 1,300 ha of infected larch were identified on Welsh Government-owned Forestry Commission land last year, but not felled. However, in writing to me you have indicated that that figure was just 556.5 ha. Can I ask you to check with Natural Resources Wales that it has supplied you with the correct figures? Given that the £2 million recently announced to tackle *Phytophthora ramorum* was not new money, what confidence do you have that Natural Resources Wales has the necessary ability to deal with the extent of the disease on the public estate, which, on the aerial survey this year, has ballooned to 2,300 ha infected larch?

Weinidog, rwyf wedi siarad ag aelodau o'r diwydiant coedwigaeth a ddywedodd wrthyf, o'u trafodaethau gyda swyddogion coedwigaeth, fod tua 1,300 hectar o larwydd heintiedig wedi'u nodi ar dir y Comisiwn Coedwigaeth sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru y llynedd, ond na chawsant eu torri. Fodd bynnag, rydych wedi fy hysbysu'n ysgrifenedig mai dim ond 556.5 hectar oedd y ffigur hwn. A allaf ofyn ichi gadarnhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi rhoi'r ffigurau cywir ichi? O ystyried nad arian newydd oedd y £2 filiwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar i fynd i'r afael â *Phytophthora ramorum*, pa mor hyderus ydych fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru y gallu angenrheidiol i ddelio â maint y clefyd ar yr ystad gyhoeddus, sydd, yn ôl yr arolwg o'r awyr eleni, wedi cynyddu i 2,300 hectar o larwydd heintiedig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have complete confidence that Natural Resources Wales has the resources available to it to deal with this and other matters. The chair and chief executive, whom I met this morning, informed me that they do have the resources available to them. We have discussed how we will approach this issue with the urgency that you and other Members have outlined this afternoon. You talk about the number of hectares that are being affected to date. The reality is that this disease is going to affect the whole of Wales. This is not something that is going to be limited to one particular region or a particular sort of ownership. This is something that is going to affect forestry operations and forests across the whole country, and that is the approach that we are going to take in dealing with it.

Rwy'n gwbl ffyddiog bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau i ymdrin â'r mater hwn a rhai eraill. Dywedodd y cadeirydd a'r prif weithredwr, y cyfarfûm â hwy y bore yma, fod ganddynt yr adnoddau. Rydym wedi trafod sut y byddwn yn ymdrin â'r mater hwn yn ddiymdroi fel yr ydych chi ac Aelodau eraill wedi sôn amdano y prynhawn yma. Gwnaethoch sôn am nifer yr hectarau yr effeithwyd arnynt hyd yma. Y realiti yw y bydd y clefyd hwn yn effeithio ar Gymru gyfan. Nid yw hyn yn rhywbeth a gaiff ei gyfyngu i un rhanbarth penodol neu fath penodol o berchnogaeth. Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn effeithio ar weithrediadau coedwigaeth a choedwigoedd ledled y wlad, a dyna sut y byddwn yn gweithredu i fynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Seilwaith Dŵr

Water Infrastructure

14:01

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi yn y seilwaith dŵr yng Nghymru? OAQ(4)0043(NRF)

9. Will the Minister make a statement on investment in Welsh water infrastructure? OAQ(4)0043(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The water industry in Wales invests heavily in its infrastructure to ensure that services, such as collection, treatment and distribution are fit for purpose. In the current investment period, 2010-15, our water industry is delivering capital investment of just under £2 billion.

Mae'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn buddsoddi'n drwm yn ei seilwaith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau, fel casglu, trin a dosbarthu, yn addas at y diben. Yn ystod y cyfnod buddsoddi cyfredol, 2010-15, mae ein diwydiant dŵr yn darparu buddsoddiad cyfalaf o ychydig llai na £2 biliwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. Minister, Welsh Water has just announced another substantial increase in its programme. Bills are lower in real terms than they were in 2001 and it is helping more low-income families than any other water company. Minister, will you commit to continuing to resist the UK Government's attempt to undermine all of this in the name of competition?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae Dŵr Cymru newydd gyhoeddi cynnydd sylweddol arall yn ei raglen. Mae biliau'n is mewn termau real nag yr oeddent yn 2001, ac mae'n helpu mwy o deuluoedd incwm isel nag unrhyw gwmni dŵr arall. Weinidog, a wnewch ymrwymo i barhau i wrthsefyll ymgais Llywodraeth y DU i danseilio hyn i gyd yn enw cystadleuaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02	Alun Davies Bywgraffiad Biography I certainly will give you that commitment. The Member for Islwyn is absolutely right in his analysis and his view. I have, in the last month, negotiated an approach with the United Kingdom Government, which ensures that all those water companies that are wholly or partly within Wales will not suffer the same regime that will be inflicted upon those in England.	Byddaf yn sicr yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw ichi. Mae'r Aelod dros Islwyn yn hollol gywir yn ei ddadansoddiad a'i farn. Yn ystod y mis diwethaf, rwyf wedi trafod dull gweithredu gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n sicrhau na fydd unrhyw un o'r cwmnïau dŵr hynny sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru yn wynebu'r un drefn ag a gaiff ei gorfodi ar y rhai yn Lloegr.	Senedd.tv Fideo Video
14:02	Russell George Bywgraffiad Biography What is the delay in bringing forward the Government's final decision on the future of internal drainage boards and drainage districts to the National Assembly?	Beth yw'r oedi cyn cyflwyno penderfyniad terfynol y Llywodraeth ar ddyfodol byrddau draenio mewnol ac ardaloedd draenio i'r Cynulliad Cenedlaethol?	Senedd.tv Fideo Video
14:03	Alun Davies Bywgraffiad Biography I am considering the future of those bodies at present. I am aware that the Public Accounts Committee has also been considering these matters. I will bring forward a statement to the National Assembly as soon as possible.	Rwy'n ystyried dyfodol y cyrff hyn ar hyn o bryd. Gwn fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd wedi bod yn ystyried y materion hyn. Byddaf yn cyflwyno datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo modd.	Senedd.tv Fideo Video
14:03	Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography Weinidog, pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o allu Cymru i gwrdd â'i anghenion dŵr dros y degawdau nesaf?	Minister, what assessment has the Welsh Government made of Wales's ability to meet its water requirements over the next decades?	Senedd.tv Fideo Video
14:03	Alun Davies Bywgraffiad Biography Mae'r asesiadau sydd gennym yn dangos bod digon o gapasiti yn y system i ddiwallu ein hanghenion ar hyn o bryd. Rwy'n dueddol o feddwl bod ffordd inni ddatblygu'r modd yr ydym yn ecsbloetio'r adnoddau sydd gennym, a byddwn yn trafod hynny gyda'r cwmnïau dŵr ac eraill yn ystod y misoedd nesaf.	The assessments that we have at present show that we have sufficient capacity in the system to satisfy our current needs. I tend to believe that there is a way for us to develop the way in which we exploit the resources that we have, and we will be discussing that with the water companies and others over the ensuing months.	Senedd.tv Fideo Video
14:03	Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography Clywn yn gyson, wrth gwrs, gan y Llywodraeth am yr angen i symud i ddull ecosystem. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r potensial sylweddol sydd yn y dull hwnnw o safbwynt darpariaeth dŵr yng Nghymru. Er hynny, pryd y gwelwn ni symudiad sylweddol o'r rhethreg, efallai, i weithredu ar raddfa arwyddocaol?	We hear regularly from the Government, of course, about the need to move to an ecosystems approach. We are all aware of the significant potential that that approach has in terms of water provision in Wales. However, when will we see a significant shift from the rhetoric, perhaps, to action on a significant scale?	Senedd.tv Fideo Video
14:04	Alun Davies Bywgraffiad Biography Credaf ein bod yn gweld hynny ar hyn o bryd. Rwyf wedi cyfarfod â Dŵr Cymru deirgwaith yn ystod y pedwar mis diwethaf i edrych ar y ffordd mae'n gweithredu'r dull ecosystem yr ydych wedi'i grybwyll. Rydym hefyd, ar ochr y Llywodraeth, yn edrych ar sut y gallwn gydweithio â thirfeddianwyr, ffermwyr ac eraill gan ddefnyddio'r math hwn o ddull. Yn y gorffennol, rydym wedi edrych ar bwy sydd biau'r tir ac wedyn rydym wedi cydweithio â hwy. Credaf nawr fod yn rhaid i ni edrych ar y tir ei hun. Bydd hynny'n rhan hanfodol o'm hadolygiad o Glastir, er enghraifft.	I believe that we are already seeing that. I have met with Welsh Water three times over the past four months to see how it is implementing the ecosystems approach that you are talking about. We, too, on the Government side, are looking at how we can work with landowners, farmers and others and use this kind of approach. In the past, we have looked at who owns the land and then we have worked with them. I now believe that we have to look at the land itself. That will be an essential part of my review of Glastir, for example.	Senedd.tv Fideo Video

14:04	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Minister, as well as being infrastructure, Wales's reservoirs are also important environmentally to our communities and can provide useful community resources. Llanishen reservoir in my region is lying empty at the moment, and this might threaten its ability to act as an environmental corridor in northern Cardiff. What can the Welsh Government do to help protect facilities such as this?	Weinidog, yn ogystal â bod yn seilwaith, mae cronfeydd dŵr Cymru hefyd yn bwysig i'n cymunedau o safbwynt amgylcheddol ac yn gallu bod yn adnoddau cymunedol defnyddiol. Mae cronfa ddŵr Llanisien yn fy rhanbarth yn wag ar hyn o bryd, a gallai hyn beryglu ei gallu i weithredu fel coridor amgylcheddol yng ngogledd Caerdydd. Beth gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i amddiffyn cyfleusterau fel hyn?	Senedd.tv Fideo Video
14:05	Alun Davies Bywgraffiad Biography	That is a matter for the Minister for planning.	Mae hwnnw'n fater i'r Gweinidog cynllunio.	Senedd.tv Fideo Video
	Tâp Coch		Red Tape	
14:05	Paul Davies Bywgraffiad Biography	<i>10. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr o ran lleihau tâp coch?</i> OAQ(4)0037(NRF)	<i>10. What is the Welsh Government doing to support farmers in reducing red tape?</i> OAQ(4)0037(NRF)	Senedd.tv Fideo Video
14:05	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Bydd yr Aelod yn gwybod bod y fenter lwyddiannus, 'Hwyluso'r Drefn', yn cwtogi gwaith papur i ffermwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â mwy na biwrocratiaeth. Mae'n ymwneud â pherthynas newydd rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant amaeth, er mwyn sicrhau busnesau amaethyddol yng Nghymru sy'n cael eu rheoli'n broffesiynol ac yn broffidiol.	The Member will know the very successful initiative, 'Working Smarter', has reduced the paperwork for farmers in Wales. However, this is about more than red tape. It is about a new relationship between the Government and the farming industry, designed to deliver professionally managed and profitable farm businesses in Wales.	Senedd.tv Fideo Video
14:05	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Weinidog, mae'r gwaharddiad chwe diwrnod ar gyfer symudiadau yn cael effaith enfawr ar ffermwyr yn ystod cyfnodau o fasnachu. Un awgrym mae llawer yn teimlo a allai helpu pethau yw cael, yn lle'r cyfyngiad hwn, cyfleuster ynysu ar ffermydd fel bod stoc sydd newydd ei brynu yn cael ei osod yn y maes hwn i ffwrdd oddi wrth anifeiliaid eraill, a fyddai felly'n caniatáu i anifeiliaid eraill ar y fferm gael eu symud yn ystod y chwe diwrnod. A fyddai'r Gweinidog yn fodlon dweud wrthym ba ystyriaeth a roddwyd i'r awgrym hwn?	Minister, the six-day movement restriction has a huge impact on farmers during periods of trading. One suggestion that many feel could assist matters is, rather than having this restriction, to have an isolation facility on farms so that new stock could be placed there away from the other stock on that farm, which would allow that stock to be moved during those six days. Could the Minister tell us what consideration has been given to that suggestion?	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Rhoddwyd ystyriaeth lawn i hynny. Fel mae'r Aelod yn ymwybodol, mae grŵp ar y cyd rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth sy'n ystyried modelau ar gyfer y dyfodol ynghylch diogelu iechyd anifeiliaid tra'u bod yn cael eu symud rhwng ffermydd gwahanol. I roi enghraifft i chi o'r hyn sy'n fy mecso ar hyn o bryd, os edrychwch ar y sefyllfa ddiçiaù yn sir Fôn, byddech yn deall ac yn gwybod bod yr afiechyd hwnnw yn dod i sir Fôn trwy brynu anifeiliaid i mewn yn fwy na thrwy unrhyw ffynhonnell arall. Felly, mae'n rhaid inni sicrhau bod gennym systemau mewn lle sydd yn gweithio ac sy'n diogelu nid dim ond iechyd anifeiliaid, ond hefyd ddyfodol economaidd y diwydiant. Rwy'n gobeithio y bydd adroddiad ar hyn yn yr hydref.	Full consideration was given to that. As the Member is aware, there is a joint group between the industry and the Government that is considering future models in terms of safeguarding the health of animals while they are moved between various farms. To give you an example of what is concerning me at present, if you look at the TB situation in Anglesey, you will understand and know that that disease comes to Anglesey through the buying in of animals more than through any other source. So, we must ensure that we have systems in place that work and that safeguard not only the health of animals, but also the economic future of the industry. I hope that there will be a report on this in the autumn.	Senedd.tv Fideo Video
14:07	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Pwy sy'n bennaf gyfrifol am greu rheoliadau diangen? Ai'r Undeb Ewropeaidd ynteu Lywodraeth Cymru?	Who is chiefly responsible for making needless regulations? Is it the European Union or the Welsh Government?	Senedd.tv Fideo Video

14:07	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Nid wyf yn credu bod rheoliadau diangen yn eu lle.</p>	<p>I do not believe that there are needless regulations in place.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Datblygu Bwyd Cynaliadwy		Sustainable Food Production	
14:07	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. Sut y gall y Fframwaith Cyllid Ewropeaidd hyrwyddo proses well o ddatblygu bwyd yn gynaliadwy yng Nghymru? OAQ(4)0046(NRF)</i></p>	<p><i>11. How can the European Funding Framework promote the better development of sustainable food production in Wales? OAQ(4)0046(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Pillar 1 of the common agricultural policy and the rural development plan make specific provision for the better development of sustainable food production. Opportunities for 2014-20 include supporting food chain organisation, promoting the competitiveness of agriculture and farm viability, encouraging knowledge transfer and innovation, and more efficient use of natural resources.</p>	<p>Mae Colofn 1 o'r polisi amaethyddol cyffredin a'r cynllun datblygu gwledig yn gwneud darpariaeth benodol i ddatblygu cynhyrchiant bwyd cynaliadwy yn well. Mae'r cyfleoedd ar gyfer 2014-20 yn cynnwys helpu i drefnu cadwyni bwyd, hybu cystadleurwydd amaethyddiaeth a hyfywedd ffermydd, annog trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi, a defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p>Ideas Wales recently published an article demonstrating how other European countries have used European regulations to promote local, sustainable fruit and vegetable markets. They have been promoting these food security measures in Italy since 2009, which are entirely within the European rules, and which are backed up food education in schools so that children know where food comes from, and the consequences of buying things that involve lots of food miles. What can we do to change the environment so that we can get local food, particularly at this time of year, rather than for things to be imported from other countries?</p>	<p>Yn ddiweddar, cyhoeddodd Syniadau Cymru erthygl sy'n dangos sut mae gwledydd Ewropeaidd eraill wedi defnyddio rheoliadau Ewropeaidd i hyrwyddo marchnadoedd ffrwythau a llysiau cynaliadwy, lleol. Maent wedi bod yn hyrwyddo'r mesurau diogelwch bwyd hyn yn yr Eidal ers 2009, sy'n cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r rheolau Ewropeaidd, ac sy'n cael eu cefnogi gan addysg bwyd mewn ysgolion fel bod plant yn gwybod o ble ddaw bwyd, a chanlyniadau prynu pethau sy'n golygu llawer o filltiroedd bwyd. Beth gallwn ei wneud i newid yr amgylchedd fel y gallwn gael bwyd lleol, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yn hytrach na bod pethau'n cael eu mewnforio o wledydd eraill?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I am aware of the example that the Member quotes from Italy, and the work that they have done to develop exactly those systems. I will publish a new plan for food, which builds on our existing strategy, in the autumn. That plan for food will include the economic tools that we need to put in place to sustain and support the food production industry. It will also look at the place of food in society and how we develop a food culture in Wales that appreciates the value of food, and recognise the importance of good local Welsh-produced food in our everyday diets. We will launch that strategy in the autumn.</p>	<p>Rwy'n ymwybodol o'r enghraifft o'r Eidal y mae'r Aelod yn cyfeirio ati, a'r gwaith y maent wedi'i wneud i ddatblygu'r union systemau hynny. Byddaf yn cyhoeddi cynllun newydd ar gyfer bwyd, sy'n adeiladu ar ein strategaeth bresennol, yn yr hydref. Bydd y cynllun bwyd hwnnw'n cynnwys yr adnoddau economaidd hynny y mae angen inni eu rhoi ar waith i gynnal a chefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd. Bydd hefyd yn edrych ar le bwyd yn y gymdeithas a sut mae datblygu diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n gwerthfawrogi gwerth bwyd ac yn cydnabod pwysigrwydd bwyd da a gynhyrchir yn lleol yng Nghymru yn ein deiet bob dydd. Byddwn yn lansio'r strategaeth honno yn yr hydref.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, the push towards the better development of sustainable food production is much welcomed, but can you outline how this fits in with the policy to push for the development of biofuel?</p>	<p>Weinidog, caiff yr ymgyrch i ddatblygu cynhyrchiant bwyd cynaliadwy yn well ei chroesawu'n fawr, ond a allwch amlinellu sut y mae hynny'n cyd-fynd â'r polisi o blaid datblygu biodanwydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:09	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I do not make value judgments on the crops grown by different landowners and farmers on their ground. It is a matter for the business judgment of individual farms and individual landowners.</p>	<p>Nid wyf yn rhoi barn ar werth y cynydau a dyfir gan wahanol dirfeddianwyr a ffermwyr ar eu tir. Mater i farn fusnes ffermydd unigol a thirfeddianwyr unigol ydyw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>A gaf i gynnig ateb i gwestiwn blaenorol Alun Ffred Jones ac awgrymu mai'r broblem fwyaf o ran biwrocraiaeth yw'r aelod-wladwriaeth, ac nid, o reidrwydd, yr Undeb Ewropeaidd na Chymru ychwaith?</p>	<p>May I propose an answer to Alun Ffred Jones's earlier question and suggest that the biggest problem as regards bureaucracy is the nation state, and not necessarily the European Union or Wales either?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Fodd bynnag, o ran cynhyrchu bwyd, a ydych yn credu bod potensial yng Nghymru inni ddatblygu ein gallu i gynhyrchu bwyd y môr trwy sicrhau bod system brosesu a gwerthu yn datblygu ar y tir?</p>	<p>However, as regards food production, do you believe that there is potential in Wales for us to develop our ability to produce seafood by ensuring that a production and selling system is developed on the land?</p>	
14:10	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Absolutely.</p>	<p>Credaf yn wir.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Rwy'n gwybod fod yr Aelod yn gwneud gwaith arbennig o bwysig fel aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau ar yr union bwnc, ac rwy'n falch iawn gyda'r gwaith rydych wedi ei wneud. Rwy'n gwybod eich bod wedi gwneud y fath hynny o awgrymiadau.</p>	<p>I know that the Member does very important work as a member of the Committee of the Regions on this very issue, and I am delighted with the work that you have done. I know that you have made these kinds of suggestions.</p>	
	<p>Roeddwn i'n falch iawn o gael y cyfle i agor gŵyl bwyd môr yn Aberaeron ddydd Sul. Nid wyf am ailadrodd yr araith a wnes i yno y prynhawn yma, ond ei phwrpas oedd dweud ein bod ni'n datblygu ac yn defnyddio'r cronfeydd Ewropeaidd gyda'i gilydd i sicrhau bod gennym yr union gyfleusterau yn y cymunedau arfordirol i gefnogi'r diwydiant pysgota yng Nghymru.</p>	<p>I was very pleased to have the opportunity to open a seafood festival in Aberaeron on Sunday. I will not repeat this afternoon the speech that I made there, but its purpose was to say that we are developing and making use of European funds to ensure that we have exactly those types of facilities in our coastal communities to support the fishing industry in Wales.</p>	
	<p>Cynhyrchu Ynni</p>	<p>Energy Production</p>	
14:11	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynhyrchu ynni yng Nghymru? OAQ(4)0045(NRF)</i></p>	<p><i>12. Will the Minister make a statement on energy production in Wales? OAQ(4)0045(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Our energy policy, 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', is based on the widespread deployment of a diverse range of low carbon technologies. Some of these technologies, such as wind, solar, nuclear and biomass, are commercial. Others, such as wave and tidal, are at an earlier stage but will contribute significantly over a longer period.</p>	<p>Mae ein polisi ynni, 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', yn seiliedig ar wneud defnydd eang o ystod amrywiol o dechnolegau carbon isel. Mae rhai o'r technolegau hyn, megis ynni'r gwynt, ynni'r haul, niwclear a biomas, yn fasnachol. Mae eraill, megis tonnau a llanw, ar gam cynharach, ond byddant yn cyfrannu'n sylweddol dros gyfnod hwy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>You will be aware that an underground coal gasification exploratory licence has been awarded to the Loughor estuary. There are concerns that the estuary contains the Burry inlet, which is specific to various specific protections. Have you had any discussions on the matter and do you agree with me that, given the protected status of the Burry inlet, this is not something that we should be supporting?</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol bod trwydded archwiliol nwyeddio glo tanddaearol wedi'i dyfarnu i aber Lluchwr. Mae pryderon bod yr aber yn cynnwys cilfach Tywyn, sy'n destun amryw o fesurau gwarchod penodol. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater ac a ydych yn cytuno â mi, o ystyried statws gwarchoddedig cilfach Tywyn, nad yw hwn yn rhywbeth y dylem fod yn ei gefnogi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:12	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I have received no representations on this matter, except from you. You have spoken to me on a number of occasions about your concerns in this regard, and I recognise the concerns that you raise. I did say in answer to an earlier question on the exploitation of non-conventional gas that any exploitation of such gases will be subject to very rigorous regulatory assessments and a very robust regulatory environment.</p>	<p>Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau ar y mater hwn, ac eithrio gennyh chi. Rydych wedi trafod eich pryderon yn hyn o beth â mi ar sawl achlysur, ac rwy'n cydnabod y pryderon a godwch. Dywedais wrth ateb cwestiwn yn gynharach ar ymelwa ar nwy anghonfensiynol y bydd unrhyw gamau i ymelwa ar nwyon o'r fath yn destun asesiadau rheoleiddiol trylwyr iawn ac amgylchedd rheoleiddiol cadarn iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:12	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Minister, planning authorities across Wales are facing numerous applications for energy extraction, whether that is solar, wind, fracking, or shale gas. Very often, the advice that the planning authorities are working to is quite antiquated and out of date. The Vale of Glamorgan Council recently lost an appeal decision on fracking, which cost it £30,000. What discussions have you had with the Minister for planning to try to bring forward a set of proposals that is up to date and meets the requirement for energy extraction across Wales, and which is on renewables in particular?</p>	<p>Weinidog, mae awdurdodau cynllunio ledled Cymru yn wynebu nifer o geisiadau mewn perthynas ag echdynnu ynni, boed hynny ar gyfer ynni'r haul, ynni'r gwynt, ffracio, neu nwy siâl. Yn aml iawn, mae'r cyngor y mae'r awdurdodau cynllunio'n gweithio'n unol ag ef yn eithaf hen ffasiwn ac wedi dyddio. Yn ddiweddar, colodd Cyngor Bro Morgannwg benderfyniad apêl ar ffracio, a gostiodd £30,000 iddo. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog cynllunio i geisio cyflwyno cyfres o gynigion sy'n gyfredol ac yn bodloni'r gofynion o ran echdynnu ynni ledled Cymru, ac sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy yn benodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The Minister is about to answer that question himself, from his position. We continue to have these conversations regularly. If you have any specific issues that you wish to bring to our attention, then please do so.</p>	<p>Mae'r Gweinidog ar fin ateb y cwestiwn hwnnw ei hun, o'i safbwynt ei hun. Rydym yn parhau i gael y sgysiau hyn yn rheolaidd. Os bydd gennyh unrhyw faterion penodol yr hoffech eu dwyn i'n sylw, yna mae croeso ichi wneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	Glastir	Glastir	
14:13	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gostau ariannol cyflawni Glastir, cynllun amaeth-amgylchedd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0047(NRF)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on the financial costs of delivering the Welsh Government's agri-environment scheme Glastir? OAQ(4)0047(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The Conservative Members are having a very busy afternoon today.</p> <p>I refer you to the answer that I gave to your written Assembly question, WAQ64995, for answer on 2 July 2013.</p>	<p>Mae'r Aelodau Ceidwadol yn cael prynhawn prysur iawn heddiw.</p> <p>Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad, WAQ64995, a oedd i'w ateb ar 2 Gorffennaf 2013.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister, but that answer was not very helpful at all, because all it said was that you could not provide me with the answer, because the data could not be broken down.</p>	<p>Diolch ichi, Weinidog, ond nid oedd yr ateb hwnnw'n ddefnyddiol o gwbl, oherwydd yr unig beth a ddywedwyd oedd na allech roi'r ateb imi, gan nad oedd modd dadansoddi'r data.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

There are a number of farmers in my constituency who are keen to understand the costs of Glastir and the costs that underpin the scheme. Could you revisit the data sets that you have available to you and look at the data that are captured? It would be extremely helpful if you could provide a fulfilling answer for me, which I could relay to my constituents. That would be helpful in terms of transparency. Would you be willing to revisit this and perhaps write to me at a later date?

Mae nifer o ffermwyr yn fy etholaeth sy'n awyddus i ddeall costau Glastir a'r costau sy'n sail i'r cynllun. A allech edrych eto ar y setiau data sydd ar gael ichi ac edrych ar y data a gesglir? Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi ateb boddhaus imi, y gallwn ei drosglwyddo i'm hetholwyr. Byddai hynny'n ddefnyddiol o ran tryloywder. A fydddech yn barod i ailedrych ar hyn ac efallai ysgrifennu ataf yn nes ymlaen?

14:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Perhaps what the Member means is that the answer did not give him the information that he wanted or did not provide him with the information that he thought that it would. We do provide a very transparent form of accountability. The Member is also a member of the Environment and Sustainability Committee, which has questioned me on these matters during budget scrutiny sessions, and I would invite the Member to perhaps spend some time doing that.

Efallai mai'r hyn y mae'r Aelod yn ei olygu yw nad oedd yr ateb wedi rhoi'r wybodaeth yr oedd arno ei heisiau neu nad oedd wedi rhoi'r wybodaeth yr oedd wedi'i disgwyl iddo. Rydym yn cynnig ffurf dryloyw iawn o atebolrwydd. Mae'r Aelod hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd wedi fy holi ar y materion hyn yn ystod sesiynau craffu ar y gyllideb, a byddwn yn gwahodd yr Aelod i dreulio rhywfaint o amser yn gwneud hynny o bosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I invite Members to turn off their mobile phones—unlike Russell George?

A allaf ofyn i'r Aelodau ddiffodd eu ffonau symudol—yn wahanol i Russell George?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bioamrywiaeth

Biodiversity

14:15 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella bioamrywiaeth ledled Cymru? OAQ(4)0042(NRF)

14. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's actions to improve biodiversity across Wales? OAQ(4)0042(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In response to the 'State of Nature' report, I am hosting a summit at the Royal Welsh Show to discuss the priorities for Wales and to agree the next steps. Together, we can work towards achieving the important target of halting and reversing the decline in biodiversity by 2020.

Mewn ymateb i adroddiad 'State of Nature', byddaf yn cynnal uwchgynhadledd yn Sioe Frenhinol Cymru i drafod y blaenoriaethau ar gyfer Cymru a chytuno ar y camau nesaf. Gyda'n gilydd, gallwn weithio tuag at gyflawni'r targed pwysig o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2020.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following pressure from the pheasant shooting industry, DEFRA is planning to allow the destruction of buzzard nests in England, which will have a serious impact on raptor biodiversity. Will the Minister join me in condemning these plans and can the Welsh Government commit to not adopting such a destructive approach? [Interruption.]

Yn dilyn pwysau gan y diwydiant saethu ffasantod, mae DEFRA yn bwriadu caniatáu dinistrio nythod bwncathod yn Lloegr, a fydd yn cael effaith ddifrifol ar fioamrywiaeth adar ysglyfaethus. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i gondemnio'r cynlluniau hyn ac a all Llywodraeth Cymru ymrwymo i beidio â mabwysiadu dull gweithredu mor ddinistriol? [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will answer the question, if Members will—

Atebaf y cwestiwn, os bydd Aelodau yn—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad of that. Can you move on to it then, please?

Rwy'n falch o hynny. A allwch symud ymlaen ato felly, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In the last five years, only two such sites have been licensed by Welsh Ministers for the destruction of buzzards. May I say that I do not, at the present time, see any call or reason to weaken our licensing policy? However, on the wider biodiversity issues, the place of raptors is well understood in the food chain in Wales. We need to protect and ensure that we have policies in place that protect raptors of all kinds. We will be addressing these issues at the biodiversity summit in the Royal Welsh, and I invite all Members to join us there for that discussion.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, dim ond dau safle o'r fath y mae Gweinidogion Cymru wedi'u trwyddedu at ddibenion dinistrio bwncathod. A gaf fi ddweud nad ydwyf, ar hyn o bryd, yn gweld unrhyw angen na rheswm i wanhau ein polisi trwyddedu? Fodd bynnag, o ran y materion bioamrywiaeth ehangach, ceir dealltwriaeth dda o safle adar ysglyfaethus yn y gadwyn fwyd yng Nghymru. Mae angen inni ddiogelu a sicrhau bod gennym bolisiau ar waith sy'n diogelu adar ysglyfaethus o bob math. Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn yr uwchgynhadledd bioamrywiaeth yn y Sioe Frenhinol, ac estynnaf wahoddiad i bob Aelod ymuno â ni yno ar gyfer y drafodaeth honno.

14:16 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, as you are aware, one of the ways of judging whether or not we are successful in our biodiversity targets is how we meet the various targets laid out in the sustainability indicators. A number of those indicators cannot be used because they do not have sufficient and accurate data sets behind them. I wonder, Minister, what you might be doing to improve on that.

Weinidog, fel y gwyddoch, un o'r ffyrdd o farnu a ydym llwyddo o ran ein targedau bioamrywiaeth ai peidio yw sut rydym yn cyflawni'r targedau amrywiol a nodwyd yn y dangosyddion cynaliadwyedd. Ni ellir defnyddio nifer o'r dangosyddion hynny am nad oes digon o setiau data cywir i'w cefnogi. Tybed, Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud i wella hynny.

14:17 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have commissioned exactly the work that you suggest is required. I agree very much with your analysis. We require far better baseline data on many of these issues. I felt that the 'State of Nature' report was groundbreaking in the sense of the picture that it painted for us, but it did not provide us with the sort of data sets that we require for Wales at a Welsh level. I have commissioned that work. I hope that some of that work, at least, will be available by the time that we meet in Llanelwedd. However, the information that is not available at that time will be published as soon as possible after that. You were absolutely right in your analysis that we have failed as a country to achieve the targets that we have set for ourselves, and that means that we have to have a very serious conversation about how we take these matters forward.

Rwyf wedi comisiynu'r union waith yr ydych yn awgrymu sydd ei angen. Cytunaf yn llwyr â'ch dadansoddiad. Mae angen data sylfaenol llawer gwell arnom ar y materion hyn. Roeddwn yn teimlo bod adroddiad 'State of Nature' yn torri tir newydd o ran y darlun a roddodd inni, ond ni ddarparodd y math o setiau data sydd eu hangen arnom ar gyfer Cymru ar lefel Cymru. Rwyf wedi comisiynu'r gwaith hwnnw. Rwy'n gobeithio y bydd rhywfaint o'r gwaith hwnnw, o leiaf, ar gael erbyn y byddwn yn cyfarfod yn Llanelwedd. Fodd bynnag, bydd y wybodaeth nad yw ar gael bryd hynny yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Roeddech yn llygad eich lle yn eich dadansoddiad ein bod wedi methu fel gwlad i gyflawni'r targedau yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni gael sgwrs ddirifol iawn am sut y mae bwrw ymlaen â'r materion hyn.

TB mewn Gwartheg

Bovine TB

14:17 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisiau i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg? OAQ(4)0040(NRF)

15. Will the Minister outline his policies to combat Bovine TB? OAQ(4)0040(NRF)

14:17 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I refer the Member to the answer given to question 1 earlier.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddwyd i gwestiwn 1 yn gynharach.

14:17 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Given your commitment as a backbencher in the last Assembly to targeted badger culling, how do you respond to the statement by the British Veterinary Association president at its annual Welsh dinner last week—which none of us could attend, because we were all here late that night—when he said, on bovine TB, that

O ystyried eich ymrwymiad fel aelod o'r meinciau cefn yn y Cynulliad diwethaf i ddifa moch daear mewn modd wedi'i dargedu, beth yw eich ymateb i'r datganiad gan lywydd Cymdeithas Filfeddygol Prydain yn ei chinio Cymreig blynyddol yr wythnos diwethaf—lle nad oedd yr un ohonom wedi gallu bod yn bresennol, am ein bod i gyd yma'n hwyr y noson honno—pan ddywedodd, o ran TB mewn gwartheg

'we need all the tools in the toolbox to get on top of the disease, and that must include targeted, humane culling of badgers in certain circumstances'?

bod arnom angen yr holl adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r clefyd, a rhaid i hynny gynnwys difa moch daear mewn ffordd drugarog wedi'i thargedu o dan amgylchiadau penodol?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I met Peter Harlech Jones the following morning after that dinner and after the speech that he made. We had a very long and fruitful conversation about all the different tools in the toolbox that we require in order to address the issues of bovine TB. The points that I made in the previous Assembly are real today. We cannot simply address and eradicate bovine TB using a single method or single methodology. We have to address the issue of the disease in both the wildlife and cattle populations, and we have to address the issues raised by the reservoir of infection in both those populations.

Cyfarfûm â Peter Harlech Jones y bore ar ôl y cinio hwnnw ac ar ôl yr araith a wnaeth. Cawsom sgwrs hir a buddiol iawn am yr holl adnoddau gwahanol sydd eu hangen arnom er mwyn mynd i'r afael â'r materion TB mewn gwartheg. Mae'r pwyntiau a wneuthum yn y Cynulliad blaenorol yn berthnasol heddiw. Ni allwn fynd i'r afael â TB mewn gwartheg a'i ddileu gan ddefnyddio un dull neu fethodoleg yn unig. Rhaid inni fynd i'r afael â'r clefyd ymhlith y poblogaethau bywyd gwyllt a gwartheg, a rhaid inni fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymddangos yn sgil cronfa'r haint yn y poblogaethau hynny.

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Tai Awdurdod Lleol

Local Authority Housing

14:19 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau cyllido newydd ar gyfer tai awdurdod lleol? OAQ(4)0287(HR)

1. Will the Minister make a statement on the new financing arrangements for local authority housing? OAQ(4)0287(HR)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:19 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I thank the Member for Cardiff Central. The agreement with the Treasury will require the affected local authorities to borrow to buy out of the existing subsidy system. The interest on the debt will be less than the current negative subsidy, generating savings for authorities to use in improving their housing stock and to bring benefits to tenants.

Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd. Bydd y cytundeb â'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol yr effeithir arnynt fenthycia er mwyn gadael y system gymhorthdal bresennol. Bydd y llog ar y ddyled yn llai na'r cymhorthdal negyddol ar hyn o bryd, gan greu arbedion y gall awdurdodau eu defnyddio i wella eu stoc tai ac i ddod â manteision i denantiaid.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:19 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The housing revenue account is, classically, something that only a handful of people in the whole of the UK precisely understand. Is it possible for you to explain whether or not council tenants are going to be better off as a result of this buy-out? It means that we will not be sending £33 million back to the Treasury for other uses, but will it mean that there will be more money to maintain the homes of council tenants?

Mae'r cyfrif refeniw tai yn enghraifft berffaith o rywbeth mai dim ond llong llaw o bobl ledled y DU gyfan sy'n ei ddeall yn iawn. A yw'n bosibl ichi egluro a fydd tenantiaid cyngor yn well eu byd o ganlyniad i'r broses hon? Mae'n golygu na fyddwn yn anfon £33 miliwn yn ôl i'r Trysorlys at ddefnyddiau eraill, ond a fydd yn golygu y bydd mwy o arian i gynnal cartrefi tenantiaid cyngor?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member raises an important issue. I agree that the HRAS is a complex system and that only a handful of people fully understand it. Nine weeks into this, I struggle myself. That is an honest answer from the Minister in terms of this process. Put simply, as the Member said, it means that residents will benefit from an additional £33 million in the 11 authorities that have been affected. That was thanks to the work of Jocelyn Davies and Huw Lewis, as previous housing Ministers, in tackling this issue with the Treasury.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig. Cytunaf fod Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yn system gymhleth ac mai dim ond llong llaw o bobl sy'n ei deall. Ar ôl naw wythnos, rwy'n ei chael hi'n anodd fy hun. Mae hwnnw'n ateb gonest gan y Gweinidog o ran y broses hon. Yn syml, fel y dywedodd yr Aelod, mae'n golygu y bydd trigolion yn elwa o £33 miliwn ychwanegol yn y 11 o awdurdodau yr effeithiwyd arnynt, a hynny diolch i waith Jocelyn Davies a Huw Lewis, fel Gweinidogion tai blaenorol, yn mynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r Trysorlys.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20	Paul Davies Bywgraffiad Biography Minister, are you confident that the borrowing cap that has been agreed will give local authorities the flexibility to continue to invest in housing stock in line with their housing business plan commitments?	Weinidog, a ydych yn hyderus y bydd y cap benthyca y cytunwyd arno yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol barhau i fuddsoddi yn y stoc tai yn unol â'u hymrwymiadau i'r cynllun busnes tai?	Senedd.tv Fideo Video
14:20	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography Yes.	Ydw.	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography I do not think that my answer will be as quick as that, Minister. I highly recommend Professor Steve Wilcox to answer any questions on this; he is a real expert, and was my lecturer at university. I welcome this change, Minister, but may I ask you for some more precise details on what the situation will be regarding the debt held by Welsh local authorities, and what role, in particular, will the Welsh Government have in that regard? Have you made any arrangements with the Treasury to discuss the assistance that you can give to Welsh local authorities?	Ni chredaf y gallaf innau ateb mor gyflym â hynny, Weinidog. Argymhellaf yn gryf yr Athro Steve Wilcox fel un a fyddai'n gallu ateb unrhyw gwestiynau ar hyn; mae'n arbenigwr go iawn, ac roedd yn un o'm darlithwyr yn y brifysgol. Croesawaf y newid hwn, Weinidog, ond a gaf ofyn ichi am fwy o fanylion am y sefyllfa o ran y ddyled sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a pha rôl, yn arbennig, fydd gan Lywodraeth Cymru yn hynny o beth? A ydych wedi gwneud unrhyw drefniadau gyda'r Trysorlys i drafod y cymorth y gallwch ei roi i awdurdodau lleol Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography The detailed discussions have been led by Jane Hutt, the Minister for Finance, with support in the Treasury through Danny Alexander. There have been fruitful discussions on the fact that we have delivered an exit out of HRAS. Discussions are continuing with the Treasury and with local authorities in Wales to see exactly how the new proposals will be implemented and how they will support tenants across Wales.	Arweiniwyd y trafodaethau manwl gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid, gyda chefnogaeth yn y Trysorlys drwy Danny Alexander. Cafwyd trafodaethau ffrwythlon o ran y ffaith ein bod wedi sicrhau dihangfa o Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r Trysorlys a chydag awdurdodau lleol yng Nghymru i weld yn union sut y caiff y cynigion newydd eu rhoi ar waith a sut y byddant yn cefnogi tenantiaid ledled Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I remind Members to please switch off their mobile phones, because there is one on and it is interfering with the translation equipment. Please ensure that your phones are switched off.	Atgoffaf yr Aelodau y dylent ddiffodd eu ffonau symudol, oherwydd mae un ymlaen ac mae'n ymyrryd â'r offer cyfieithu. Gwnewch yn siŵr bod eich ffonau yn cael eu diffodd.	Senedd.tv Fideo Video
	Cyflenwad Tir	Supply of Land	
14:22	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography <i>2. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2013 i gynyddu'r cyflenwad o dir sydd ar gael i'w ddatblygu yng Nghymru? OAQ(4)0277(HR)</i>	<i>2. What action will the Welsh Government take in 2013 to increase the supply of land available for development in Wales? OAQ(4)0277(HR)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography I thank the Member for his question. We require local planning authorities to allocate sufficient land to meet their proposals for future development.	Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddyrannu digon o dir i fodloni eu cynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:22 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- The UK Government has introduced new rules to make it easier for Government departments to release surplus land for development. Major landholding Government departments have published disposal strategies to make as many brownfield and previously used sites as possible available for new homes. What plans does the Minister have to ensure that Welsh Government departments review their landholdings so that surplus land can be made available for building developments?
- Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno rheolau newydd i'w gwneud yn haws i adrannau'r Llywodraeth ryddhau tir dros ben ar gyfer datblygu. Mae adrannau'r Llywodraeth sydd â daliadau tir mawr wedi cyhoeddi strategaethau gwaredu i sicrhau bod cymaint o safleoedd tir llwyd a safleoedd a ddefnyddiwyd o'r blaen â phosibl ar gael ar gyfer cartrefi newydd. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod adrannau Llywodraeth Cymru yn adolygu eu daliadau fel y gellir sicrhau bod tir dros ben ar gael ar gyfer datblygiadau adeiladu?
- 14:23 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for the important question that the Member raises, and I am grateful that the UK Government is now catching onto Welsh Government policy. The fact of the matter is that we are already releasing land. The Ely mill site in Cardiff is one example of good-quality partnership working with other departments. We will continue to work to release land at the appropriate time and value in order to sustain additional house building.
- Rwy'n ddiolchgar am y cwestiwn pwysig y mae'r Aelod yn ei godi, ac rwy'n ddiolchgar bod Llywodraeth y DU yn dechrau dilyn polisi Llywodraeth Cymru. Y ffaith amdani yw ein bod eisoes yn rhyddhau tir. Mae safle melin Trelái yng Nghaerdydd yn enghraifft o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag adrannau eraill. Byddwn yn parhau i weithio i ryddhau tir ar yr adeg briodol ac am y gwerth priodol er mwyn cynnal gwaith adeiladu tai ychwanegol.
- 14:23 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Mae nifer o gyrff yn y sector gyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn gwerthu darnau o dir yn ddiweddar, yn amlach na pheidio ar gyfer datblygiadau tai. Mae ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn y gogledd yn un enghraifft lle mae cyn safleoedd ysbytai wedi'u gwerthu. Pa arolwg strategol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal ar draws y sector gyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y tiroedd hynny sy'n cael eu trosglwyddo ar gyfer datblygiad yn cael eu rhyddhau ar gyfer defnydd sy'n cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, yn hytrach na chyrraedd y ffigur ariannol uchaf yn unig?
- Many public sector bodies in Wales have been selling plots of land recently, very often for housing developments. Betsi Cadwaladr health board area in north Wales is one example of where former hospital sites have been sold. What strategic overview does the Welsh Government take across the public sector in Wales in order to ensure that those areas of land that are transferred for development are released for use that achieves the objectives of the Welsh Government rather than simply reaching the highest financial figure possible?
- 14:24 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- That is an important point that the Member raises. We have to look strategically across all departments. I have met with all Ministers recently in terms of the portfolio landholding, whether that is in the NHS for within other departments. We have to look at the land value and at the opportunity for construction and starting growth in the economy here, which plays a pivotal role in the development. Much of the land and buildings available in the public sector is co-ordinated on a programme called e-PIMS, which is already up and running. We are refreshing that just to make sure that we have a full understanding of the land base.
- Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig. Rhaid inni edrych yn strategol ar draws yr holl adrannau. Rwyf wedi cyfarfod â'r holl Weiniogion yn ddiweddar o ran daliadau tir portffolios, boed hynny yn y GIG neu mewn adrannau eraill. Rhaid inni edrych ar werth y tir ac ar y cyfle i adeiladu a dechrau twf yn yr economi yma, sy'n chwarae rhan allweddol yn y datblygiad. Mae llawer o'r tir a'r adeiladau sydd ar gael yn y sector cyhoeddus yn cael ei gydgyssylltu ar raglen o'r enw e-PIMS, sydd eisoes ar waith. Rydym yn adfywio hynny er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym ddealltwriaeth lawn o'r sylfaen tir.
- 14:24 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one site that has been turned down for development recently is the Llanishen reservoir site in my region. The removal of the water from the reservoir by its owners is damaging to its use as a community facility and undermines its environmental value as a green corridor for north Cardiff. What can the Welsh Government do to ensure that this site, which is not to be developed now, is restored to its former state?
- Weinidog, un safle sydd wedi cael ei wrthod ar gyfer datblygiad yn ddiweddar yw safle cronfa ddŵr Llanisien yn fy rhanbarth. Mae'r ffaith bod ei pherchenogion wedi cael gwared ar y dŵr o'r gronfa yn amharu ar ei defnydd fel cyfleuster cymunedol ac yn tanselilio ei gwerth amgylcheddol fel coridor gwyrdd i ogledd Caerdydd. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod y safle hwn, nad yw'n cael ei ddatblygu bellach, yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol?

- 14:25 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am aware of the site and those issues. My colleague Julie Morgan has raised this issue with me on several occasions. The Member will be aware that this is a private holding and that it is not a duty of the Welsh Government to regenerate the area after the application was refused.
- Rwy'n ymwybodol o'r safle a'r materion hynny. Mae fy nghyd-Aelod Julie Morgan wedi codi'r mater hwn gyda mi ar sawl achlysur. Bydd yr Aelod yn ymwybodol ei fod yn ddaliad preifat ac nad yw'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adfywio'r ardal ar ôl i'r cais gael ei wrthod.
- 14:25 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, what assessment has been made of former WDA land, the potential use of this land for development, and the value that could be realised for the taxpayer by making it available?
- Weinidog, pa asesiad a wnaed o hen dir Awdurdod Datblygu Cymru, y defnydd posibl o'r tir hwn ar gyfer datblygu, a'r gwerth y gellid ei wireddu i'r trethdalwr drwy sicrhau ei fod ar gael?
- 14:25 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- All landholdings in the Welsh Government, whether these refer to former WDA land or land held by colleagues across the Cabinet, are being considered for future use, in relation to housing developments and other interesting development opportunities that the Government sees as fit for land use.
- Mae'r holl ddaliadau tir yn Llywodraeth Cymru, boed y rhain yn cyfeirio at hen dir Awdurdod Datblygu Cymru neu dir a ddelir gan gyd-Weinidogion yn y Cabinet, yn cael eu hystyried at ddefnydd yn y dyfodol, mewn perthynas â datblygiadau tai a chyfleoedd datblygu diddorol eraill y mae'r Llywodraeth yn ystyried eu bod yn addas ar gyfer defnydd tir.
- 14:26 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- On that basis, could you explain why so much housing development land was released within the regeneration investment fund for Wales package and was sold, off the open market, in a block and for an undervalued sum? Will you assure this Chamber that you will never release land for development in Wales without going to the open market?
- Ar sail hynny, a allech egluro pam y cafodd cymaint o dir datblygu tai ei ryddhau o fewn pecyn cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio a'i werthu, heb fod ar y farchnad agored, yn un gwerthiant ac am swm wedi'i danbrisio? A roddwch sicrwydd i'r Siambr hon na fyddwch byth yn rhyddhau tir ar gyfer datblygu yng Nghymru heb fynd i'r farchnad agored?
- 14:26 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am aware of the issue that the Member raises, and I am looking at it very closely. I will be making a statement on that very shortly.
- Rwy'n ymwybodol o'r mater y mae'r Aelod yn ei godi, ac rwy'n edrych arno'n fanwl iawn. Byddaf yn gwneud datganiad am hynny yn fuan iawn.

Stoc Tai

Housing Stock

- 14:26 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. *A wnaiffy Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y stoc tai sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(4)0288(HR)*
3. *Will the Minister provide an update on the availability of housing stock in Wales? OAQ(4)0288(HR)*
- 14:26 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The annual statistical release published in April 2013 presented estimates of the number of dwellings in Wales by tenure and for each local authority. As of 31 March, 2012, the total number of dwellings in Wales is estimated at 1.4 million.
- Cyflwynodd y datganiad ystadegol blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013 amcangyfrifon o nifer yr anheddau yng Nghymru yn ôl daliadaeth ac ar gyfer pob awdurdod lleol. Ar 31 Mawrth, 2012, amcangyfrifir bod cyfanswm o 1.4 miliwn o anheddau yng Nghymru.

- 14:26 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that answer. This applies particularly to my area, but I know that throughout Wales there is a real shortage of housing that has been adapted for disabled people's needs and for older people. There is a situation in Pembrokeshire where there is a development being proposed for older people that is miles away from anywhere. Once they lose the ability to drive, these people will not be able to access shops, doctors or anything. It seems to be completely inappropriate. There is another proposal in the heart of Tenby where the people would be well served, but that is not going anywhere fast in terms of development. What overview do you have over local authorities, Minister, to ensure that we have a broad mix of housing stock throughout Wales, particularly for those two very vulnerable groups?
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'm hardal i, ond gwn fod prinder mawr o dai sydd wedi'u haddasu at anghenion pobl anabl a phobl hŷn ledled Cymru. Mae sefyllfa wedi codi yn Sir Benfro lle mae datblygiad yn cael ei gynig ar gyfer pobl hŷn sydd filltiroedd i ffwrdd o unrhyw le. Unwaith y byddant yn colli'r gallu i yrru, ni fydd y bobl hyn yn gallu cyrraedd siopau, meddygon na dim. Mae'n ymddangos yn gwbl amhriodol. Mae cynnig arall yng nghanol Dinbych-y-Pysgod lle byddai'r bobl yn cael eu gwasanaethu'n dda, ond mae'r broses ddatblygu yn un araf iawn. Pa drosolwg sydd gennych dros awdurdodau lleol, Weinidog, i sicrhau bod gennym gymysgedd eang o stoc tai ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer y ddau grŵp hynny sy'n agored iawn i niwed?
- 14:27 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member raises an issue today that is of great importance, in terms of community, how we ensure longer term effects on housing and how this can interact with how a community operates. I believe that, in some cases, there are opportunities to make adaptations to homes because people change as they grow older or otherwise. That is a good option, in terms of keeping people in their homes. The Member raises the important issue of planning properly for the future; connectivity is an important part of that, and it should be taken forward through the LDP process when we look at the local authority's overarching vision for planning for the future.
- Mae'r Aelod yn codi mater pwysig iawn heddiw, o ran y gymuned, o ran sut y gallwn sicrhau effeithiau tymor hwy ar dai a sut y gall hyn ryngweithio â'r modd y mae cymuned yn gweithredu. Credaf, mewn rhai achosion, fod cyfleoedd i wneud addasiadau i gartrefi gan fod pobl yn newid wrth iddynt fynd yn hŷn neu fel arall. Mae hynny'n opsiwn da, o ran cadw pobl yn eu cartrefi. Mae'r Aelod yn codi mater pwysig, sef cynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol; mae cysylltedd yn rhan bwysig o hynny, a dylid ei ddatblygu drwy broses y CDLI pan edrychwn ar weledigaeth gyffredinol yr awdurdod lleol ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- 14:28 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, not all available stock is affordable. You will know that the homelessness acceptance figures rose by 4% last year, and that this figure is likely to rise further due to the changes to social security. Could you tell me your projections for this year's homelessness statistics, and what are you going to do to mitigate those changes?
- Weinidog, nid yw'r holl stoc sydd ar gael yn fforddiadwy. Fe wyddoch fod y ffigurau cadarnhau digartrefedd wedi codi 4% y llynedd, a bod y ffigur hwn yn debygol o gynyddu ymhellach oherwydd y newidiadau i nawdd cymdeithasol. A allech ddweud wrthyf beth yw eich rhagamcanion ar gyfer ystadegau digartrefedd eleni, a beth rydych yn bwriadu ei wneud i liniaru'r newidiadau hynny?
- 14:28 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are introducing legislation with regard to tackling homelessness, and this has been broadly welcomed by many in the social sector. I do not have the projections to hand, but I will write to the Member with that detail. She raises an important point. In the wake of the welfare reform changes, there will be displacement of people from their homes. The problem that we have with the development of new property is that there is quite a long lead-in time. We are seeing the effects of that now, and that is part of the problem that we are trying to address.
- Rydym yn cyflwyno deddfwriaeth o ran mynd i'r afael â digartrefedd, ac mae hyn wedi cael ei groesawu'n gyffredinol gan lawer yn y sector cymdeithasol. Nid oes gennym y rhagamcanion wrth law, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r manylion. Mae'n codi pwynt pwysig. Yn sgil y newidiadau diwygio lles, bydd pobl yn cael eu dadleoli o'u cartrefi. Y broblem sydd gennym gyda datblygu eiddo newydd yw bod cyfnod arweiniol eithaf hir. Rydym yn gweld effeithiau hynny yn awr, ac mae hynny'n rhan o'r broblem yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hi.
- 14:29 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- With no legal right to housing, single homeless people, under your proposals, might still find themselves with very few options, and some will have no choice at all but to sleep rough. Do you support calls from third sector groups for a new duty to all single homeless people, so that they will be entitled to written advice, real assistance and emergency accommodation if they need it?
- A hwythau heb unrhyw hawl gyfreithiol i dai, efallai na fydd gan bobl sengl ddigartref lawer o opsiynau o dan eich cynigion, a bydd rhai heb unrhyw ddewis o gwbl, heblaw cysgu ar y stryd. A ydych yn cefnogi galwadau gan grwpiau yn y trydydd sector ar gyfer dyletswydd newydd i'r holl bobl ddigartref sengl, fel y bydd ganddynt hawl i gael cyngor ysgrifenedig, cymorth go iawn a llety brys os oes angen?

14:29	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I believe that we are bringing this legislation in to tackle issues relating to homelessness. The future pressures that the Member identified around welfare reform will play a part in what we create in the new Bill. The Member raises an important point, on behalf of third sector organisations, and I will give due consideration to that in the drafting of the new Bill.	Credaf ein bod yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â digartrefedd. Mae'r pwysau yn y dyfodol a nododd yr Aelod ynghylch diwygio lles yn rhan o'r hyn y byddwn yn ei greu yn y Bil newydd. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig, ar ran sefydliadau yn y trydydd sector, a byddaf yn rhoi ystyriaeth briodol i hynny wrth ddrafftio'r Mesur newydd.
14:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I call on the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
14:30	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, it is not just about the number of homes that are available, but about whether we have the right homes to meet the demand for them. Due to circumstances beyond the Assembly's control, there is a big demand for one and two-bedroomed properties at the moment. Have you had any discussions with local authorities about whether some of the £33 million that is available as a result of the housing revenue account subsidy changes could be used to build more one and two-bedroomed properties, to meet this demand?	Weinidog, yn ogystal â nifer y cartrefi sydd ar gael, mae a wnelo hyn hefyd â pha un a oes gennym y cartrefi priodol i ateb y galw. Oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cynulliad, mae galw mawr am eiddo un a dwy ystafell wely ar hyn o bryd. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch a allai rhywfaint o'r £33 miliwn sydd ar gael yn sgil y newidiadau i gymhorthdal y cyfrif refeniw tai gael ei ddefnyddio i adeiladu mwy o eiddo un a dwy ystafell wely, er mwyn ateb y galw hwn?
14:30	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Not specifically on the HRAS, because that has only just been announced. There are discussions going on with local authorities on how we will deal with that. On the additional funding that Jane Hutt, the Minister for Finance, introduced with regard to the £20 million that is specifically targeted at one and two-bedroomed properties, we have asked for a needs assessment from local authorities to be delivered to us, and from then we will look at the distribution formula for that.	Ddim yn benodol o ran Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, gan mai newydd ei gyhoeddi y mae. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag awdurdodau lleol ynghylch sut y byddwn yn delio â hynny. O ran y cyllid ychwanegol a gyflwynodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid, mewn perthynas â'r £20 miliwn sydd wedi'i dargedu'n benodol at eiddo un a dwy ystafell wely, rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno asesiad o anghenion inni, ac yna byddwn yn edrych ar y fformiwla dosbarthu ar gyfer hynny.
14:31	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you for that reply, Minister. The other issue in terms of demand is around first-time buyers. As you may have heard me saying in my question to the First Minister yesterday, some first-time buyers are having to wait 15 years before they can afford to buy their first home. Given that we are still having problems with the Welsh Government's scheme for first-time buyers, will you look at homebuy—and at the other schemes that you already have in place—to see whether they can be reinforced, and bolstered, to try to offer some support to these people?	Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r mater arall o ran y galw yn ymwneud â phrynwyr tro cyntaf. Mae'n bosibl ichi fy nghlywed yn dweud yn fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog ddoe bod rhai prynwyr tro cyntaf yn gorfod aros 15 mlynedd cyn y gallant fforddio prynu eu cartref cyntaf. Gan ein bod yn dal i gael problemau gyda chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer prynwyr tro cyntaf, a wnewch chi edrych ar y Cymorth Prynu—a'r cynlluniau eraill sydd eisoes ar waith gennych—i weld a ellir eu hatgyfnerthu, a'u hategu, i geisio cynnig rhywfaint o gymorth i'r bobl hyn?
14:31	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Yes. I will be making an announcement shortly.	Byddaf. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad maes o law.
	Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai	Housing Revenue Account Subsidy
14:31	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	4. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ar Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, beth fydd natur yr ymgynghoriad ag awdurdodau lleol? OAQ(4)0292(HR)	4. Following the recent announcement on the Housing Revenue Account Subsidy, what will be the nature of the consultation with local authorities? OAQ(4)0292(HR)

- 14:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The first meeting with the Welsh Local Government Association and the 11 affected local authorities was held yesterday to start discussions on the agreement and the way forward. Each authority has been invited to become actively involved in these talks, moving forward, to secure the £33 million investment back into housing opportunities across the 11 authorities.
- Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r 11 o awdurdodau lleol yr effeithir arnynt ddoe i ddechrau trafodaethau ar y cytundeb a'r ffordd ymlaen. Gwahoddwyd pob awdurdod i gymryd rhan weithredol yn y trafodaethau hyn, yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y swm o £33 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleoedd tai ar draws y 11 o awdurdodau.
- 14:32 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I appreciate that it is early days, but, in England, there were major problems over the package having to be agreed by all authorities there. Is that the nature of the package that you envisage in Wales? Similarly, what stance will you be taking with regard to borrowing cap limits on authorities where the level of debt may breach the overall capping limit?
- Weinidog, sylweddolaf mai megis dechrau y mae'r broses hon, ond, yn Lloegr, cafwyd problemau mawr ynghylch y ffaith bod yn rhaid i bob awdurdod yno gytuno ar y pecyn. Ai dyna natur y pecyn a ragwelwch yng Nghymru? Yn yr un modd, beth fydd eich barn o ran gosod terfynau benthyca ar awdurdodau lle y gall lefel y ddyled fod yn uwch na'r terfyn capio cyffredinol?
- 14:32 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The package received in the announcement from the Treasury was based on the premise of understanding the debt levels and the investment of the 11 authorities that are already in place. Therefore, we already have had discussions on need, prior to the announcement, so we are now just working up what that will mean in terms of the distribution and the assessment of what was placed as a request prior to the acceptance of HRAS exit.
- Roedd y pecyn a gyflwynwyd yn y cyhoeddiad gan y Trysorlys yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod dealltwriaeth o lefelau dyled a buddsoddiad yr 11 o awdurdodau sydd eisoes yn eu lle. Felly, rydym eisoes wedi cael trafodaethau ar angen, cyn y cyhoeddiad, felly'r cwbl yr ydym yn ei wneud yn awr yw ystyried beth fydd goblygiadau hynny o ran dosbarthu ac asesu'r cais a wnaed cyn derbyn gadael Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.
- 14:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- What discussions are you having with the three stock retention authorities that were identified by your predecessor as not having a business plan to meet the Welsh housing quality standard, given that we now know that it is confirmed that the £33 million across the 11 authorities will not be any more than a drop in the ocean against the actual expenditure that is required?
- Pa drafodaethau a gewch gyda'r tri awdurdod sydd wedi cadw eu stoc y nododd eich rhagflaenydd nad oes ganddynt gynllun busnes i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru, o gofio ein bod bellach yn gwybod y cafwyd cadarnhad mai canran fach iawn o'r gwariant gwirioneddol sy'n ofynnol fydd y £33 miliwn ar draws y 11 awdurdod?
- 14:33 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The three authorities to which the Member refers are well advanced in creating a business plan for succeeding for WHQS.
- Mae'r tri awdurdod y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt wedi gwneud cynnydd da ar y broses o greu cynllun busnes ar sut i lwyddo i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
- 14:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, a dderbyniwch fod hyn yn awr yn agor y drws i'r posibilrwydd o fuddsoddi mewn tai cyngor—rhywbeth a oedd yn bwysig iawn yn nhraddodiad Cymru? Fel rydym i gyd yn gwybod, mae mwy a mwy o bobl yn cael trafferth ymuno â'r farchnad dai. A wnewch chi, felly, gydweithio â'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol, a chydag awdurdodau lleol, i edrych ar sut y gellir buddsoddi'r arian hwn mewn adeiladu tai cyngor?
- Minister, do you accept that this now opens the door to the possibility of investing in council houses—something that was traditionally very important in Wales? As we all know, more and more people are finding it difficult to get onto the housing ladder. Will you, therefore, work with the Minister for local government, and with local authorities, to look at how this money can be invested in building council housing?
- 14:34 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member is absolutely right. My vision is to have a national council house building scheme. I have a team that is working on that, and is also working with local authorities.
- Mae'r Aelod yn llygad ei le. Fy ngweledigaeth yw cael cynllun adeiladu tai cyngor cenedlaethol. Mae gennyf dim sy'n gweithio ar hynny, ac mae hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol.

Cronfa Gymunedol Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru

North Wales Coast Regeneration Area Community Fund

- 14:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gronfa Gymunedol Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru? OAQ(4)0285(HR)
- 14:34 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Since 2009, the community fund has assisted community groups in delivering projects that further the aims of the regeneration programme on the north Wales coast.
- 14:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
You are no doubt aware that the Rhyl youth action group community hub has applied for funding to complete building works on the hub, which is on Wellington Road in Rhyl. The Rhyl youth action group community hub has secured several substantial grants in order to deliver the vital youth services that are needed in Rhyl, particularly Rhyl West—the most deprived ward in Wales. However, these are conditional on the Welsh Government approving this grant for the completion of building works. What assurance of support can you provide to Rhyl youth community hub regarding this application, and its ability, therefore, to deliver these essential youth services?
- 14:35 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I can give no reassurance to Rhyl youth community hub. It would be premature of me to do that. What I can do is reassure the Member, and Ann Jones—who also raised this with me last week—that I will be giving that serious consideration in moving forward.
- 14:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I call Rhodri Glyn Thomas.
- Ymdrechion Adfywio yn Nyffryn Aman**
- 14:35 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion adfywio yn Nyffryn Aman? OAQ(4)0280(HR)
- 14:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I beg your pardon. First, Alun Ffred Jones will ask a supplementary on the last quesiton.
- 14:35 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Weinidog, mae Caernarfon yn dref hynafol ar arfordir y gogledd, ac mae cynlluniau cyffrous iawn ynglŷn â datblygu ac adfywio'r dref honno. Mae eich cyd-Weinidog John Griffiths wedi bod yno yn gweld y dref a chlywed rhai o'r syniadau. A gaf i eich gwahodd chi hefyd i ddod i'r dref hynafol a phrydferth hon i gael clywed am y cynlluniau hyn?
5. Will the Minister make a statement on the North Wales Coast Regeneration Area Community Fund? OAQ(4)0285(HR)
- Ers 2009, mae'r gronfa gymunedol wedi cynorthwyo grwpiau cymunedol i gyflawni prosiectau sy'n hyrwyddo amcanion y rhaglen adfywio ar arfordir gogledd Cymru.
- Gwyddoch, mae'n siŵr, fod canolfan gymunedol grŵp gweithredu ieuencid y Rhyl wedi gwneud cais am gyllid i gwblhau gwaith adeiladu ar y ganolfan, sydd ar Wellington Road yn y Rhyl. Mae canolfan gymunedol grŵp gweithredu ieuencid y Rhyl wedi sicrhau nifer o grantiau sylweddol er mwyn darparu'r gwasanaethau ieuencid hanfodol sydd eu hangen yn y Rhyl, yn arbennig Gorllewin y Rhyl—y ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dibynnu ar ba un a fydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r grant hwn i gwblhau gwaith adeiladu. Pa sicrwydd o gymorth y gallwch ei roi i ganolfan gymunedol y Rhyl ynglŷn â'r cais hwn, a'i gallu, felly, i ddarparu'r gwasanaethau ieuencid hanfodol hyn?
- Ni allaf roi unrhyw sicrwydd i ganolfan gymunedol y Rhyl. Byddai'n rhy gynnar imi wneud hynny. Yr hyn y gallaf ei wneud yw sicrhau'r Aelod, ac Ann Jones—a gododd y pwynt hwn hefyd gyda mi yr wythnos diwethaf—y byddaf yn ystyried hynny o ddifrif yn y dyfodol.
- Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas.
- Regeneration Efforts in the Amman Valley**
6. Will the Minister make a statement on regeneration efforts in the Amman Valley? OAQ(4)0280(HR)
- Mae'n ddrwg gennyf. Yn gyntaf, bydd Alun Ffred Jones yn gofyn cwestiwn atodol ar y cwestiwn diwethaf.
- Minister, Caernarfon is an ancient town on the north Wales coast, and there are very exciting plans to develop and regenerate the town. Your fellow Minister John Griffiths has been there to see the town and to hear about some of the ideas. May I invite you too to visit this ancient and beautiful town, so that you can hear about these plans?

14:36	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography I am very familiar with the town and I agree with the Member that it is an exciting and historic venue. I would be happy to visit Caernarfon with the Member, but of course, there is a bidding round for the 'Vibrant and Viable Places', and I would expect an invitation from many Members. These invitations will not prejudice my decision over the next couple of weeks.	Rwy'n gyfarwydd iawn â'r dref ac rwy'n cytuno â'r Aelod ei fod yn lleoliad cyffrous a hanesyddol. Byddwn yn fodlon ymweld â Chaernarfon gyda'r Aelod, ond wrth gwrs, mae cylch ceisiadau ar gyfer 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn mynd rhagddo, a byddwn yn disgwyl gwahoddiad gan nifer o Aelodau. Ni fydd y gwahoddiadau hyn yn rhagfarnu fy mhenderfyniad yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Now we move to question 6, from Rhodri Glyn Thomas.	Symudwn ymlaen at gwestiwn 6, gan Rhodri Glyn Thomas.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, gofynnaf y cwestiwn rwyf newydd ei ofyn i chi ynghylch cynlluniau adnewyddu yn Nyffryn Aman.	Minister, I ask the question that I have just asked you about regeneration schemes in the Amman Valley.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography I am grateful for the Member's question again. We have invested £2 million to support projects in the Amman Valley, including Ammanford town centre, through the western Valleys regeneration area programme.	Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod eto. Rydym wedi buddsoddi £2 filiwn i gefnogi prosiectau yn Nyffryn Aman, gan gynnwys canol tref Rhydaman, drwy raglen ardal adfywio Cymoedd y gorllewin.	Senedd.tv Fideo Video
14:37	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Cyfeiriaf yn benodol at bwll nofio y lido ym Mrynaman, sy'n dyddio'n ôl dros ganrif, ac y talwyd amdano gan drigolion Brynaman er mwyn sicrhau bod y bobl leol yn cael y cyfle i nofio. Mae'n bwll awyr agored, ac yn yr ystyr hwnnw, mae'n anghyffredin yng Nghymru bellach. A fydddech yn barod i gwrdd â Chyngor Sir Gaerfyrddin i weld sut y gellir sicrhau bod arian ar gael i barhau â'r gweithgareddau yn y pwll nofio hwnnw?	I refer specifically to the lido swimming pool in Brynaman, which dates back over 100 years, and was paid for by the residents of Brynaman to give local people the opportunity to swim. It is an open-air swimming pool and, in that respect, it is unusual in Wales nowadays. Would you be willing to meet with Carmarthenshire County Council to look at how money could be secured to allow activities to continue in that swimming pool?	Senedd.tv Fideo Video
14:37	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography As the Member is aware, I recently launched the 'Vibrant and Viable Places' regeneration framework. The guidance to accompany that is very clear and I am already receiving bids from the 22 authorities. I expect to make decisions on that over the next couple of weeks. I am not aware whether the lido swimming pool, to which the Member makes reference, is included in the bid. Maybe the conversation should continue between the Member and the council to asses, initially, whether it is in the bid or not.	Fel y gwŷyr yr Aelod, yn ddiweddar lansiais y fframwaith adfywio 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Mae'r canllawiau i gyd-fynd â hynny yn glir iawn ac mae ceisiadau eisoes yn dod i law gan y 22 o awdurdodau. Rwy'n disgwyl gwneud penderfyniadau ar hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Nid wyf yn ymwybodol a yw'r pwll nofio lido, y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, yn cael ei gynnwys yn y cais. Efallai y dylai'r sgwrs barhau rhwng yr Aelod a'r cyngor i asesu, i ddechrau, a yw'n rhan o'r cais ai peidio.	Senedd.tv Fideo Video
14:38	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography Back in February, I welcomed the announcement of £1 million to deliver regeneration projects in the Amman Valley and elsewhere in my region. The then Minister committed to working with colleagues across Government to ensure that local people were best placed to take advantage of economic opportunities provided by regeneration, including those in construction and tourism. Could you provide an update on that work?	Yn ôl ym mis Chwefror, croesewais y cyhoeddiad o £1 filiwn i gyflawni prosiectau adfywio yn Nyffryn Aman ac mewn mannau eraill yn fy rhanbarth. Ymrwymodd y Gweinidog ar y pryd i weithio gyda chyd-Weinidogion yn y Llywodraeth i sicrhau bod pobl leol yn y sefyllfa orau i fanteisio ar gyfleoedd economaidd a geir yn sgil adfywio, gan gynnwys y rhai ym meysydd adeiladu a thwristiaeth. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwnnw?	Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member is right to make reference to the additional £1 million for the Amman Valley. It is money well spent, and we believe that it is creating the opportunities to which the Member makes reference. It is about supporting local businesses and amenities and ensuring that the local community can benefit most from the regeneration opportunities in which we invest. Further to that response, I will write to the Member with more detail around the scheme and spend of the £1 million.

Mae'r Aelod yn iawn i gyfeirio at yr £1 filiwn ychwanegol ar gyfer Dyffryn Aman. Mae'n arian a wariwyd yn dda, a chredwn ei fod yn creu'r cyfleoedd y cyfeiria'r Aelod atynt. Mae'n ymwneud â chefnogi busnesau ac amwynderau lleol a sicrhau mai'r gymuned leol sy'n elwa fwyaf o'r cyfleoedd adfywio yr ydym yn buddsoddi ynddynt. Yn ogystal â'r ymateb hwnnw, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda mwy o fanylion ynglŷn â'r cynllun a'r modd y caiff y swm o £1 filiwn ei wario.

14:39 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have met with the Amman Valley Railway Society several times to discuss its projects. It consists of a social enterprise company that was formed in 1992, with the initial idea of regenerating public transport in the area. It has ambitious ideas and it has potential to regenerate the area. Will you and your officials commit to working with it to draw down European funds to realise part of its projects and regenerate the Amman Valley?

Rwyf wedi cyfarfod â Chymdeithas Rheilffordd Dyffryn Aman sawl gwaith i drafod ei phrosiectau. Mae'n cynnwys cwmni menter gymdeithasol a ffurfiwyd yn 1992, gyda'r syniad gwreiddiol o adfywio trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal. Mae ganddi syniadau uchelgeisiol ac mae ganddi'r potensial i adfywio'r ardal. A wnech chi a'ch swyddogion ymrwymo i weithio gyda hi i sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu rhai o'i phrosiectau ac adfywio Dyffryn Aman?

14:39 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The issue around transport and social enterprise rests with another Minister, and I am sure that your comments have been noted in terms of funding and European funding. I am in discussions with colleagues around the Cabinet table to make sure that we get maximum leverage in the regeneration portfolio under the 'Vibrant and Viable Places' framework. If the bid is part of 'Vibrant and Viable Places', I will of course consider the process.

Mae materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a mentrau cymdeithasol yn nwylo Gweinidog arall, ac rwy'n siŵr y nodwyd eich sylwadau ynghylch ariannu ac arian Ewropeaidd. Rwy'n cael trafodaethau gyda chyd-Weinidogion o amgylch bwrdd y Cabinet i wneud yn siŵr ein bod yn cael y dylanwad mwyaf yn y portffolio adfywio dan y fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Os yw'r cais yn rhan o 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', byddaf yn sicr yn ystyried y broses.

Grant Refeniw Tai Cymdeithasol

14:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Grant Refeniw Tai Cymdeithasol?
OAQ(4)0281(HR)*

14:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Implementation is on track. We are in the process of agreeing financing terms with a preferred lender, and funding will be in place before the end of this year.

14:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that answer. One of the issues raised by housing associations is the ability to borrow at preferential rates. What level of interaction have you had with housing associations to assist their ability to borrow at favourable rates? Also, what discussions have you had with the UK Government to work with it on the proposals that it has on the table that could lever in favourable rates for borrowing, so that the total amount of money can be spent on what this grant was set up for, rather than spent on higher rates of interest?

Social Housing Revenue Grant

*7. Will the Minister provide an update on the implementation of the Social Housing Revenue Grant?
OAQ(4)0281(HR)*

Mae'r broses o'i weithredu ar y trywydd iawn. Rydym yn y broses o gytuno ar delerau ariannu gyda benthyciwr dewisol, a bydd yr arian yn ei le cyn diwedd y flwyddyn hon.

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un o'r materion a godwyd gan gymdeithasau tai yw'r gallu i fenthycu ar gyfraddau ffafriol. I ba raddau rydych wedi rhyngweithio gyda chymdeithasau tai i'w helpu i fenthycu ar gyfraddau ffafriol? Hefyd, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i weithio gyda hi ar y cynigion sydd ger ei bron a allai arwain at gyfraddau ffafriol ar gyfer benthycu, fel y gellir gwario'r holl arian ar yr hyn y sefydlwyd y grant hwn ar ei gyfer, yn hytrach na gwario ar gyfraddau llog uwch?

14:41	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The Member raises an important issue. As I mentioned to the Member, implementation is on track; we have a very close working relationship with the RSLs on how and where the money should be lent. The scheme's indicative value is around £125 million; we aim to achieve around 1,000 new affordable homes in Wales. I am confident that my team is working with organisations and the further sector to ensure that we get the best deal for the implementation of this grant.</p>	<p>Mae'r Aelod yn codi mater pwysig. Fel y soniais wrth yr Aelod, mae'r broses weithredu ar y trywydd iawn; mae gennym berthynas waith agos iawn â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynglŷn â sut a ble y dylid benthycu'r arian. Mae gwerth dangosol y cynllun tua £125 miliwn; rydym yn anelu at gyflawni tua 1,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru. Rwy'n hyderus bod fy nhîm yn gweithio gyda sefydliadau a'r sector pellach er mwyn sicrhau ein bod yn cael y fargen orau ar gyfer gweithredu'r grant hwn.</p>
14:41	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, obviously, you will be aware that the last comprehensive spending review gave Wales 40% cuts. We now face capital budget growth but further revenue cuts. What plans does the Government have to protect budgets, such as Supporting People and Care and Repair, which are preventative measures, to keep pressures off other public services, such as the NHS in Wales?</p>	<p>Weinidog, yn amlwg, byddwch yn ymwybodol bod yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o wariant wedi arwain at 40% o doriadau i Gymru. Rydym bellach yn wynebu twf yn y gyllideb cyfalaf ond toriadau refeniw pellach. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i ddiogelu cyllidebau, megis Cefnogi Pobl a Gofal a Thrwsio, sy'n fesurau ataliol, i gadw pwysau oddi ar wasanaethau cyhoeddus eraill, megis y GIG yng Nghymru?</p>
14:42	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have raised this issue with Cabinet colleagues and with my colleague the Minister for Health and Social Services, with regard to Supporting People. We know that preventative spend on the protection of vulnerable people protects budgets in other areas. It is a good and safe investment, and it is something that my Cabinet colleagues and I are considering carefully.</p>	<p>Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet ac â'm cyd-Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran Cefnogi Pobl. Gwyddom fod y gwariant ataliol ar amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn diogelu cyllidebau mewn meysydd eraill. Mae'n fuddsoddiad da a diogel, ac mae'n rhywbeth y mae fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet a minnau yn ei ystyried yn ofalus.</p>
	Tai Fforddiadwy	Affordable Housing
14:42	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2013 i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(4)0275(HR)</i></p>	<p><i>8. What action will the Welsh Government take in 2013 to increase the supply of affordable housing in Wales? OAQ(4)0275(HR)</i></p>
14:42	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Increasing housing supply in Wales is my No. 1 priority across my whole portfolio.</p>	<p>Cynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru yw fy mhrif flaenoriaeth ar draws fy mhortffolio cyfan.</p>
14:42	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The UK Government has made £400 million available for the new affordable rent-to-buy scheme. This scheme provides funding for new homes to be let at an affordable rent for a fixed period of time, allowing people to save for a deposit. At the end of this period, the sitting tenant will get first option to buy that home. Will the Minister consider introducing such a scheme in Wales to give families the stability that they need to step on the housing ladder?</p>	<p>Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau £400 miliwn ar gyfer y cynllun rhentu i brynu tai fforddiadwy newydd. Mae'r cynllun hwn yn darparu arian ar gyfer cartrefi newydd i'w gosod ar rent fforddiadwy am gyfnod penodol o amser, gan alluogi pobl i gynilo ar gyfer blaendal. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, y tenant meddiannol fydd yn cael y dewis cyntaf i brynu'r cartref hwnnw. A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno cynllun o'r fath yng Nghymru i roi'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar deuluoedd i gamu ar yr ysgol tai?</p>

14:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, I am looking for any innovation in terms of housing opportunity. I will consider all options, making sure that my prime concern is the tenants and the home.

Wrth gwrs, rwy'n chwilio am unrhyw fesurau arloesol o ran cyfleoedd tai. Byddaf yn ystyried yr holl opsiynau, gan wneud yn siŵr mai'r tenantiaid a'r cartref yw fy mhrif flaenoriaeth.

14:43 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there is a considerable stock of potential affordable housing in Wales that is frozen at the moment, in effect, and that is the non-traditional-construction stock. I visited, for example, so-called Dorlonco housing out in Pontyberem last week. This stock is a mixture of privately and publicly owned housing, but it seems to me that there is not a coherent, national approach to how we bring this stock back into affordability, where it should be, really, because of its non-traditional construction. Are there things that you can do, Minister, this year, particularly in the forthcoming housing legislation, to try to encourage this stock to become once more available? Of course, you cannot get a mortgage on this stock at the moment.

Weinidog, mae stoc sylweddol o dai fforddiadwy posibl yng Nghymru sydd wedi'i rewi ar hyn o bryd, i bob pwrpas, sef y stoc nad yw'n stoc adeiladu traddodiadol. Er enghraifft, ymwelais â thai Dorlonco fel y'u gelwir ym Mhontyberem yr wythnos diwethaf. Mae'r stoc yn gymysgedd o dai preifat ac eiddo cyhoeddus, ond mae'n ymddangos imi nad oes dull gweithredu cenedlaethol cydlynol ar gyfer sicrhau bod y stoc hon yn fforddiadwy unwaith eto, sef yr hyn a ddylai fod, mewn gwirionedd, oherwydd ei adeiladau anhraddodiadol. A oes pethau y gallwch eu gwneud eleni, Weinidog, yn enwedig yn y ddeddfwriaeth tai sydd ar y gweill, er mwyn ceisio sicrhau bod y stoc hon ar gael unwaith eto? Wrth gwrs, ni allwch gael morgais ar y stoc hon ar hyn o bryd.

14:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am not sure that the legislative process is the right vehicle to solve those issues, but I will consider that. The Member may be interested to know that, since taking up my post, I have started a new team in the department that looks at housing supply, in addition to the 7,500 affordable homes in Wales, to see what we can increase. Again, all options are open in terms of opportunity, and I will take the Member's comments on board.

Nid wyf yn siŵr ai'r broses ddeddfwriaethol yw'r cyfrwng cywir i ddatrys y materion hynny, ond byddaf yn ystyried hynny. Efallai y bydd gan yr Aelod ddiddordeb i wybod, ers imi ddechrau yn fy swydd, rwyf wedi sefydlu tîm newydd yn yr adran sy'n edrych ar gyflenwad tai, yn ychwanegol at y 7,500 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru, i weld beth y gallwn ei gynyddu. Unwaith eto, mae pob dewis ar gael, a byddaf yn ystyried sylwadau'r Aelodau.

Parciau Cenedlaethol Cymru

Wales's National Parks

14:44 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio ym Mharciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0283(HR)

9. Will the Minister make a statement on regeneration in Wales' National Parks? OAQ(4)0283(HR)

14:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have allocated up to £90 million for targeted regeneration programmes across Wales, focusing on town centres, coastal communities and Communities First clusters. Local authorities need to submit applications on behalf of local partnerships by 12 July. I hope that the national parks will engage in the 'Vibrant and Viable Places' consultation application process.

Rwyf wedi clustnodi hyd at £90 miliwn ar gyfer rhaglenni adfywio wedi'u targedu ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar ganol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau ar ran partneriaethau lleol erbyn 12 Gorffennaf. Gobeithiaf y bydd y parciau cenedlaethol yn cymryd rhan yn y broses o wneud cais ar gyfer yr ymgynghoriad 'Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid'.

- 14:45 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for that answer, Minister. On several occasions over recent months I have raised in this Chamber and elsewhere concerns that have been brought to me about the tensions that often arise as a result of competence in relation to planning powers, on the one hand, and overall responsibility for regeneration being split between national parks and their constituent local authorities. Will you please confirm that this issue will be fully aired in the upcoming planning Bill, and also outline any recent discussions that you have had with your colleague the Minister for Culture and Sport, who has overarching responsibility for national parks in Wales?
- Rwy'n ddiolchgar am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ar sawl achlysur yn ystod y misoedd diwethaf, rwyf wedi codi pryderon yn y Siambr hon ac mewn manau eraill a gyflwynwyd imi am y tensiynau sy'n aml yn codi o ganlyniad i gymhwysedd mewn perthynas â phwerau cynllunio, ar y naill law, a chyfrifoldeb cyffredinol am adfywio'n cael ei rannu rhwng parciau cenedlaethol a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. A wnewch chi gadarnhau y caiff y mater hwn sylw llawn yn y Bil cynllunio sydd ar y gweill, ac amlinellu unrhyw drafodaethau diweddar a gawsoch gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am barciau cenedlaethol yng Nghymru?
- 14:45 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have had discussions with the relevant Minister. I have also got a meeting tomorrow with all the planning leads across Wales. I will be touching base with that process and developing new opportunities. The planning Bill, I believe, will address opportunities where conflict may arise in terms of seeking to resolve these issues very quickly.
- Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog perthnasol. Mae gennyf hefyd gyfarfod yfory gyda'r holl arweinywyr cynllunio ledled Cymru. Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses honno ac yn datblygu cyfleoedd newydd. Credaf y bydd y Bil cynllunio yn mynd i'r afael â chyfleoedd lle y gall gwrthdaro godi o ran ceisio datrys y materion hyn yn gyflym iawn.
- 14:46 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will have seen comments from the leader of Powys County Council and the Country Land and Business Association calling for the national parks to lose their planning functions, which would in effect abolish their function. I think that it is a fair argument that they have put forward. But, how can national parks effectively deliver Welsh Government planning policy with no economic responsibility?
- Weinidog, byddwch wedi gweld sylwadau gan arweinydd Cyngor Sir Powys a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yn galw am i'r parciau cenedlaethol gollu eu swyddogaethau cynllunio, a fyddai'n diddymu eu swyddogaeth i bob pwrpas. Credaf fod honno'n ddadl deg ganddynt. Ond sut y gall parciau cenedlaethol gyflawni polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru heb unrhyw gyfrifoldeb economaidd?
- 14:46 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We have 25 planning authorities in Wales and I expect them to act responsibly on all the decisions that they make. I will undertake further consideration in the planning Bill of the future of all planning authorities in Wales.
- Mae gennym 25 o awdurdodau cynllunio yng Nghymru ac rwy'n disgwyl iddynt ymddwyn yn gyfrifol mewn perthynas â'r holl benderfyniadau a wnânt. Byddaf yn ystyried ymhellach ddyfodol pob awdurdod cynllunio yng Nghymru yn y Bil cynllunio.
- 14:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae parciau cenedlaethol yn cael eu beirniadu yn aml iawn am geisio rhwystro datblygiadau, ond mae cwmni ZipWorld yn chwarae Penrhyn ym Methesda wedi cael cefnogaeth y parc cenedlaethol a chefnogaeth Cyngor Gwynedd, ac wedi ymsefydlu yn gwmni llwyddiannus iawn, gyda'r daith zip hiraf yn Ewrop. Pan fyddwch yng Nghaernarfon, efallai y byddwch yn gallu galw heibio i ZipWorld a chael taith ar y daith zip hiraf yn Ewrop. Mi fyddwn yn eich rhybuddio y byddwch yn cyrraedd cyflymder o thua 50 mya ar y ffordd.
- National parks are often criticised for attempting to stop developments, but ZipWorld at the Penrhyn quarry in Bethesda has received the support of the national park and Gwynedd Council, and has established itself as a very successful business with the longest zip wire in Europe. When you are in Caernarfon, perhaps you could pop in to ZipWorld and have a go on the longest zip wire in Europe. I will warn you that you will be attaining speeds of about 50 mph.
- 14:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member can be reassured that I will not be going on that, but I may be coming to Caernarfon. [Laughter.]
- Gallaf sicrhau'r Aelod na fyddaf yn mynd ar hwnnw, ond efallai y dof i Gaernarfon. [Chwerthin.]

14:47 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will be aware of the longstanding concerns from businesses within the national parks that unobtrusive and low-impact projects are being subject to excessive delays in the planning system, and that this is discouraging investment, the creation of new jobs, and wider economic regeneration in the national parks. Can you provide an update on your discussions with the planning authorities—it may be something that you can discuss in your meeting this week—over their future structure? What steps are you taking to ensure that TAN 8 applications and renewable energy projects are better supported by planners?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a fu gan fusnesau o fewn y parciau cenedlaethol ers tro bod prosiectau anymwithiol ac effaith isel yn gorfod wynebu oedi gormodol yn y system gynllunio, a bod hyn yn atal pobl rhag buddsoddi a chreu swyddi newydd, ac yn atal adfywiad economaidd ehangach yn y parciau cenedlaethol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich trafodaethau gyda'r awdurdodau cynllunio—gall fod yn rhywbeth y gallwch ei drafod yn eich cyfarfod yr wythnos hon—am eu strwythur yn y dyfodol? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod ceisiadau TAN 8 a phrosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu cefnogi'n well gan gynllunwyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said earlier, I do not believe that we should—. The function of the 25 planning authorities is very clear, and I expect them to function effectively. If the Member has any further detail on the incidents that she refers to with regard to a particular planning authority, I would be very interested to hear that detail.

Fel y dywedais yn gynharach, ni chredaf y dylem—. Mae swyddogaeth y 25 o awdurdodau cynllunio yn glir iawn, a disgwyliaf iddynt weithredu'n effeithiol. Os oes gan yr Aelod unrhyw fanylion pellach ar yr achosion y mae'n cyfeirio atynt mewn perthynas ag awdurdod cynllunio penodol, byddwn yn falch iawn o glywed y manylion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Papur Gwyn ar Rentu Cartrefi

Renting Homes White Paper

14:48 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y papur gwyn ar Rentu Cartrefi? OAQ(4)0286(HR)

10. Will the Minister provide an update on the Renting Homes white paper? OAQ(4)0286(HR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Mid and West Wales. I launched the White Paper on 20 May. Consultation events are taking place across Wales. The response to the consultation, which ends on 16 August, will inform the development of the renting homes Bill.

Diolch i'r Aelod dros y canolbarth a'r gorllewin. Lansiais y Papur Gwyn ar 20 Mai. Cynhelir digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n dod i ben ar 16 Awst, yn llywio'r broses o ddatblygu'r Bil rhentu cartrefi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that update, Minister. Going back to when the Communities and Culture Committee looked at this a few years ago, we recognised then the growing importance of the private rented sector in Wales. I fully support this Government's determination to simplify contracts and clarify rights and responsibilities for both landlord and tenant. Minister, can you assure me that you will listen to the people actually living in rented accommodation? I am afraid that there might be a danger that consultations are dominated by the loudest, most organised voice. There may not be a big lobby for the private tenant, but their views are nevertheless critical to getting this legislation right.

Diolch ichi am y wybodaeth honno, Weinidog. Gan fynd yn ôl at y cyfnod pan edrychodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hyn rai blynyddoedd yn ôl, gwnaethom gydnabod pwysigrwydd cynyddol y sector rhentu preifat yng Nghymru bryd hynny. Rwy'n llwyr gefnogi penderfyniad y Llywodraeth i symleiddio contractau ac egluro hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer y landlord a'r tenant. Weinidog, a allwch fy sicrhau y byddwch yn gwrandao ar y bobl sy'n byw mewn llety ar rent? Ofnaf y gallai fod perygl yn yr ymgynghoriadau mai'r mwyaf croch a threfnus fydd drech. Efallai na fydd lobi fawr ar gyfer y tenant preifat, ond mae eu barn yn hanfodol, serch hynny, er mwyn cael y ddeddfwriaeth hon yn iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member raises an important issue about engagement and consultation and responding to that. The Member is right to raise that, and it is a little easier to deal with professional organisations as opposed to individuals. However, I am very pleased that the work with the Welsh Tenants Federation, Shelter Cymru, Citizens Advice Cymru and the National Union of Students in Aberystwyth, of course, has added great value to informing how the Bill may shape up in future.
- Mae'r Aelod yn codi mater pwysig ynghylch ymgysylltu ac ymgynghori ac ymateb i hynny. Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater hwnnw, ac mae ychydig yn haws delio â sefydliadau proffesiynol yn hytrach nag unigolion. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn bod y gwaith gyda Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn Aberystwyth, wrth gwrs, wedi ychwanegu gwerth mawr i lywio'r modd y gellir datblygu'r Bil yn y dyfodol.
- 14:50 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Ynglŷn â'r ymgynghoriad, mae gan y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl—'Residential Landlords Association'—gynigion amgen i'ch Papur Gwyn. Ni fyddai'r cynigion hyn mor ddud i'w gweithredu, ac ni fyddant ychwaith yn gyrru landlordiaid neu fuddsoddiad mas o'r farchnad yng Nghymru. Pa fath o ystyriaeth a ydych wedi'i rhoi i'r cynigion hyn yn barod?
- With regard to the consultation, the Residential Landlords Association has alternative proposals to your White Paper. These proposals would not be as expensive to implement and they also would not drive landlords or investment out of the market in Wales. What consideration have you given to these proposals?
- 14:50 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am surprised therefore that, if they are really effective, the RLA has not implemented the proposals already. The clear issue is that it has not done so in some areas. There is too much difference in the system across Wales. Of course, the consultation event is open and I welcome any consultation responses, including the RLA's offer of support for alternative methods.
- Synnaf felly, os ydynt yn wirioneddol effeithiol, nad yw'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi gweithredu'r cynigion eisoes. Y mater amlwg yw nad yw wedi gwneud hynny mewn rhai ardaloedd. Mae gormod o wahaniaeth yn y system ledled Cymru. Wrth gwrs, mae'r digwyddiad ymgynghori yn agored a chroesawaf unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys cynnig y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl o gefnogaeth i ddulliau amgen.
- 14:51 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One aspect of the White Paper is a mandatory register of all landlords. The Scottish Government has implemented a similar scheme with, I have to say, mixed reviews so far. Have you considered a rogue landlord register instead, where those who breach legislation are named and shamed and where that information is available for all tenants to see?
- Un agwedd ar y Papur Gwyn yw cofrestr orfodol o bob landlord. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithredu cynllun tebyg a rhaid imi ddweud mai cymysg fu'r ymateb hyd yma. A ydych wedi ystyried sefydlu cofrestr o landlordiaid twyllodrus yn lle hynny, lle mae'r rhai sy'n torri'r ddeddfwriaeth yn cael eu henwi a'u cywilyddio a lle mae'r wybodaeth honno ar gael i bob tenant ei gweld?
- 14:51 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member raises an interesting point. I am not sure that I would support that. I think that the problem that we have at the moment is that, sometimes, we do not know who owns the buildings. We are trying to raise standards, not just in terms of rogue landlords, but by investing in the service so that people understand what quality housing is, for tenants and registered landlords, and how they operate in the system. It is an interesting point that the Member raises. Of course, she may want to add that to the consultation process.
- Mae'r Aelod yn codi pwynt diddorol. Nid wyf yn siŵr a fyddwn yn cefnogi hynny. Credaf mai'r broblem sydd gennym ar hyn o bryd weithiau yw nad ydym yn gwybod pwy sy'n berchen ar yr adeiladau. Rydym yn ceisio codi safonau, nid yn unig o ran landlordiaid twyllodrus, ond drwy fuddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn i bobl ddeall beth yw tai o ansawdd, ar gyfer tenantiaid a landlordiaid cofrestredig, a sut maent yn gweithredu yn y system. Mae'n bwynt diddorol y mae'r Aelod yn ei godi. Wrth gwrs, efallai y bydd am ychwanegu hynny at y broses ymgynghori.
- Arolwg Tai Cymru** **Welsh Housing Survey**
- 14:52 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael o ran cyflwyno Arolwg Tai Cymru cynhwysfawr?
OAQ(4)0282(HR)*
- 11. What discussions has the Minister had regarding the introduction of a comprehensive Welsh Housing Survey?
OAQ(4)0282(HR)*

- 14:52 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have had none to date. Nid wyf wedi cael dim hyd yma.
- 14:52 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
As you will be aware, in other parts of the UK, a housing survey does exist. This allows for the collection and collation of a range of data about trends and various tenures. It is used to study lots of information around the housing market, and I know that it is something that has been requested for Wales. Are you considering the implementation of a housing survey in Wales? Fel y byddwch yn ymwybodol, mewn rhannau eraill o'r DU, mae arolwg tai yn bodoli. Mae hyn yn fodd i gasglu a choladu ystod o ddata am dueddiadau a gwahanol ddeiliadaethau. Caiff ei ddefnyddio i astudio llawer o wybodaeth am y farchnad dai, a gwn ei fod yn rhywbeth y gofynnwyd amdano i Gymru. A ydych yn ystyried rhoi arolwg tai ar waith yng Nghymru?

- 14:52 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
On this point, I would probably agree with the Member that being better informed leads to better decision-making processes. However, while our budgets are reducing significantly because of the UK Government's decisions on policy and spend, I cannot, at this point in time, commit to spending significant amounts of money on a survey. Ar y pwynt hwn, mae'n debyg y byddwn yn cytuno â'r Aelod bod mwy o wybodaeth yn arwain at brosesau gwneud penderfyniadau gwell. Fodd bynnag, tra bydd ein cyllidebau yn gostwng yn sylweddol oherwydd penderfyniadau Llywodraeth y DU ar bolisi a gwariant, ni allaf, ar hyn o bryd, ymrwymo i wario symiau sylweddol o arian ar arolwg.

Prosiectau Adfywio

Regeneration Projects

- 14:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i brosiectau adfywio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0290(HR) *12. Will the Minister make a statement on what support is available for regeneration projects in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0290(HR)*

- 14:53 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am grateful to the Member for Brecon and Radnorshire for her question. Our 'Vibrant and Viable Places' framework sets out how we will continue to support regeneration across all of Wales. I am currently awaiting investment proposals from authority-led partnerships for targeted regeneration programmes in their chosen priority areas. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed am ei chwestiwn. Mae ein fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn nodi sut y byddwn yn parhau i gefnogi adfywio ledled Cymru. Ar hyn o bryd rwy'n aros am gynigion buddsoddi gan bartneriaethau a arweinir gan awdurdodau ar gyfer rhaglenni adfywio wedi'u targedu yn eu meysydd blaenoriaeth a ddewiswyd.

- 14:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, you very kindly made your officials available to meet me and others to talk about the proposals to redevelop Brecon museum. However, Brecon is not the only place that is full of people with enthusiastic ideas about they can regenerate their market towns. Would you make your officials available to meet with representatives of Hay castle, who have some very innovative ideas about how we can preserve that important building, while ensuring that it will be available to the public, provide training opportunities and lead to economic development for the town of Hay-on-Wye? Weinidog, buoch cystal â threfnu bod eich swyddogion ar gael i gyfarfod â mi ac eraill i drafod y cynigion i ailddatblygu amgueddfa Aberhonddu. Fodd bynnag, nid Aberhonddu yw'r unig le sy'n llawn o bobl gyda syniadau brwdfrydig am sut y gallant adfywio eu trefi marchnad. A fydech yn sicrhau y bydd eich swyddogion ar gael i gyfarfod â chynrychiolwyr o gastell y Gelli, sydd â syniadau arloesol iawn am sut y gallwn warchod yr adeilad pwysig hwnnw, tra'n sicrhau y bydd ar gael i'r cyhoedd, yn darparu cyfleoedd hyfforddi ac yn arwain at ddatblygu economaidd ar gyfer tref y Gelli Gandryll?

14:54	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The Member will have listened carefully to contributions from all Members today, and there are many good projects across Wales. The Member will welcome the fact that 'Vibrant and Viable Places' will now cover the Brecon and Radnorshire area, subject to a successful bid. Before, when the strategic regeneration zones were in place, they did not affect the Member in terms of positive regeneration. This is an opportunity to do so, and, subject to the submission to the consultation that comes from her authority, the programme may include one of the places that the Member raised with me today.</p>	<p>Bydd yr Aelod wedi gwranddo'n ofalus ar gyfraniadau gan yr holl Aelodau heddiw, ac mae llawer o brosiectau da ledled Cymru. Bydd yr Aelod yn croesawu'r ffaith bod 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' bellach yn cwmpasu ardal Brycheiniog a Sir Faesyfed, yn amodol ar gais llwyddiannus. O'r blaen, pan oedd y parthau adfywio strategol ar waith, ni wnaethant effeithio ar yr Aelod o ran adfywio cadarnhaol. Mae hwn yn gyfle i wneud hynny, ac, yn amodol ar y cyflwyniad i'r ymgynghoriad a ddaw oddi wrth ei hawdurdod, efallai y bydd y rhaglen yn cynnwys un o'r lleoedd a gododd yr Aelod gyda mi heddiw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Brecon and Radnorshire is an excellent example of where community-led regeneration can really make a difference, due to its rural nature, like many parts of the region that I represent, including Gower. Can you outline what you and your Government are doing to encourage local communities to put together their own regeneration projects to enable bottom-up regeneration and to build a sense of ownership within the communities?</p>	<p>Mae Brycheiniog a Sir Faesyfed yn enghraifft wych o ble y gall adfywio o dan arweiniad y gymuned wneud gwahaniaeth gwirioneddol, oherwydd ei natur wledig, fel llawer o rannau o'r rhanbarth yr wyf yn ei gynrychioli, gan gynnwys Gŵyr. A allwch amlinellu beth rydych chi a'ch Llywodraeth yn ei wneud i annog cymunedau lleol i lunio eu prosiectau adfywio eu hunain er mwyn sicrhau adfywiad o'r gwaelod i fyny ac i greu ymdeimlad o berchnogaeth yn y cymunedau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I agree with the Member that decisions around regeneration should involve the community, and that is why the 'Vibrant and Viable Places' document and application process are accompanied by clear guidance in terms of working in partnership. Authorities that come in with only an authority bid, without any leverage, consideration or partnership working will probably be pretty low on the list of investment opportunity.</p>	<p>Cytunaf â'r Aelod y dylai penderfyniadau ynghylch adfywio gynnwys y gymuned, a dyna pam mae'r ddogfen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' a'r broses ymgeisio yn cael eu hategu gan ganllawiau clir o ran gweithio mewn partneriaeth. Mae'n debyg y bydd awdurdodau sy'n cyflwyno cais gan awdurdod yn unig, heb unrhyw ymgais i ddenu cyllid arall, ystyriaeth na gweithio mewn partneriaeth yn eithaf isel ar y rhestr o gyfleoedd i fuddsoddi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 13, OAQ(4)0291(HR), is withdrawn.</p>	<p>Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(4)0291(HR), yn ôl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Argaeledd Tai Fforddiadwy</p>		<p>Availability of Affordable Housing</p>	
14:55	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p><i>14. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(4)0279(HR)</i></p>	<p><i>14. What plans does the Welsh Government have to increase the availability of affordable housing in Rhondda Cynon Taf? OAQ(4)0279(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:56	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The delivery of affordable housing is the responsibility of local authorities. They should seek to maximise the delivery of affordable housing through their local development plans and allocate any funding based on identified housing need.</p>	<p>Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu tai fforddiadwy. Dylent geisio sicrhau y darperir cymaint o dai fforddiadwy â phosibl drwy eu cynlluniau datblygu lleol a dyrannu unrhyw arian yn seiliedig ar yr angen am dai a nodwyd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:56	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that answer, Minister. As you will be aware, almost 1,000 people in my constituency are affected, and are suffering dire consequences, as a result of the bedroom tax that is being forced on us by the Tories in Westminster. Has the Minister given any consideration to the potential of co-operative models of housing and similar schemes that are being developed in Canada and other parts of Europe?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r dreth ystafell wely sy'n cael ei gorfodi arnom gan y Toriaid yn San Steffan yn effeithio ar bron i 1,000 o bobl yn fy etholaeth, gan arwain at ganlyniadau difrifol. A yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i botensial modelau tai cydweithredol a chynlluniau tebyg sy'n cael eu datblygu yng Nghanada a rhannau eraill o Ewrop?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>The co-operative model of housing is something that is being considered by my housing team. We are advanced in the process of developing schemes across Wales, with opportunities for some pilot schemes to be launched quite shortly, I hope. The bedroom tax will affect around 40,000 households in Wales. The bedroom tax has a consequence of an average loss of around £13 a week to families. Opposition Members may jeer at that point, but, actually, that has a devastating effect on our communities and people living in Wales.</p>	<p>Mae'r model tai cydweithredol yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried gan fy nhîm tai. Rydym wedi gwneud llawer o waith yn y broses o ddatblygu cynlluniau ledled Cymru, gyda chyfleoedd ar gyfer rhai cynlluniau peilot yn cael eu lansio cyn hir, gobeithio. Bydd y dreth ystafell wely yn effeithio ar oddeutu 40,000 o gartrefi yng Nghymru. Mae'r dreth ystafell wely yn golygu colli tua £13 yr wythnos ar gyfartaledd i deuluoedd. Gall Aelodau'r Gwrthbleidiau wawdio'r pwynt hwnnw, ond, mewn gwirionedd, mae hynny'n cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau a phobl sy'n byw yng Nghymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:57	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	<p>One of the important things about Rhondda Cynon Taf is the importance of spreading affordable housing across the whole area, rather than just the key transport corridors. Many private builders have logically been drawn to those areas to build their housing estates. What action are you taking, along with the local authority in Rhondda Cynon Taf, to make sure that the whole of the area is promoted as an area that is attractive for affordable development, and in particular for affordable development built by the private sector?</p>	<p>Un o'r pethau pwysig am Rhondda Cynon Taf yw pwysigrwydd lledaenu tai fforddiadwy ar draws yr ardal gyfan, yn hytrach na dim ond y coridorau trafniadaeth allweddol. Mae llawer o adeiladwyr preifat wedi cael eu denu, wrth reswm, at yr ardaloedd hynny i adeiladu eu hystadau tai. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd, ynghyd â'r awdurdod lleol yn Rhondda Cynon Taf, er mwyn sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei hyrwyddo fel ardal sy'n ddeniadol ar gyfer datblygiad fforddiadwy, ac yn benodol ar gyfer datblygiad fforddiadwy a adeiledir gan y sector preifat?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:57	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>The opportunity for house building and development is a matter for the local authority in terms of its local development plan process. That is something that we are advised on, not only with regard to RCT, but all authorities across Wales. It is really important that they get their plans right in terms of the distribution of housing, and the quality and affordability of stock. When the inspector tests that plan, he should be clear on what the authority is expecting to deliver.</p>	<p>Mae'r cyfle i adeiladu a datblygu tai yn fater i'r awdurdod lleol o ran ei broses cynllun datblygu lleol. Mae hynny'n rhywbeth y cawn ein cynghori arno, nid yn unig o ran Rhondda Cynon Taf, ond o ran pob awdurdod ledled Cymru. Mae'n bwysig iawn eu bod yn cael eu cynlluniau'n gywir o ran dosbarthiad tai, ac ansawdd a fforddiadwyedd stoc. Pan fydd yr arolygydd yn profi'r cynllun hwnnw, dylai fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r awdurdod yn disgwyl ei gyflawni.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio		Regeneration Investment Fund for Wales		
14:58	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	<p>15. Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a fydd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn aildechrau? OAQ(4)0289(HR)</p>	<p>15. When will the Welsh Government decide whether the Regeneration Investment Fund for Wales will recommence? OAQ(4)0289(HR)</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:58	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>I am awaiting the outcome of the reviews conducted earlier in the year, along with the findings of the Wales Audit Office. I will provide an update once the review process has been completed.</p>	<p>Rwy'n disgwyl am ganlyniad yr adolygiadau a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn, ynghyd â chanfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd y broses adolygu wedi'i chwblhau.</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:58	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that response. I wonder whether any indication has been given by the Wales Audit Office with regard to the completion of its review. What will be the position with regard to those schemes that are held up in the pipeline, and new schemes that are held in abeyance while the review is being undertaken?</p>	<p>Diolch am yr ymateb hwnnw. Tybed a yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd o ran pryd y bydd wedi cwblhau ei hadolygiad. Beth fydd y sefyllfa o ran y cynlluniau hynny sy'n wynebu oedi, a chynlluniau newydd sy'n cael eu hatal dros dro tra y cynhelir yr adolygiad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I believe that the action to pause the scheme was appropriate. When I am fully aware of the detail of the reports, I can make a statement to the Chamber. The answer to the question that the Member raises with regard to pipeline schemes and schemes that are on hold will be clear then, in terms of my decision on whether the scheme will go ahead or not.</p>	<p>Credaf fod y weithred i oedi yn briodol. Pan fyddaf yn gwbl ymwybodol o fanylion yr adroddiadau, gallaf wneud datganiad i'r Siambr. Bydd yr ateb i'r cwestiwn y mae'r Aelod yn ei godi mewn perthynas â chynlluniau ar y gweill a chynlluniau sy'n cael eu hatal dros dro yn glir bryd hynny, o ran fy mhenderfyniad ynghylch a fydd y cynllun yn mynd yn ei flaen ai peidio.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I remain deeply concerned that we still do not know the full facts surrounding the RIFW fund and its inability to fund private projects alongside an off-market land deal. Specifically, what has happened to the match funded European moneys? Have they been released elsewhere, or have you returned the funding with all the potential consequences of that?</p>	<p>Rwy'n dal yn bryderus iawn nad ydym yn gwybod y ffeithiau llawn o hyd ynghylch Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a'i hanallu i ariannu prosiectau preifat ochr yn ochr â chynnig tir oddi ar y farchnad. Yn benodol, beth sydd wedi digwydd i'r arian cyfatebol Ewropeaidd? A yw wedi cael ei ryddhau mewn mannau eraill, neu a ydych wedi dychwelyd yr arian gyda holl ganlyniadau posibl hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The funding is still in place, and I will be making a decision on the scheme very shortly, once I am fully aware of what the reports say.</p>	<p>Mae'r arian yn dal i fod yn ei le, a byddaf yn gwneud penderfyniad ar y cynllun yn fuan iawn, pan fyddaf yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r adroddiadau yn ei ddweud.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau a Chadeirydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p>	<p>Motions to Elect Members to Committees and the Chair of the Health and Social Care Committee Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>I call on a member of the Business Committee to move the motions.</p>	<p>Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno'r cynigion.</p>	
	<p>Cynnig NDM5294 Rosemary Butler</p>	<p>Motion NDM5294 Rosemary Butler</p>	
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:</p>	
	<p>1. David Rees (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Vaughan Gething (Llafur Cymru), a;</p>	<p>1. David Rees (Welsh Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Vaughan Gething (Welsh Labour), and;</p>	
	<p>2. David Rees (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>	<p>2. David Rees (Welsh Labour) as Chair of the Health and Social Care Committee.</p>	
	<p>Cynnig NDM5296 Rosemary Butler</p>	<p>NDM5296 Rosemary Butler</p>	
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:</p>	

(i) Leighton Andrews (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Ken Skates (Llafur Cymru):

(i) Leighton Andrews (Welsh Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Ken Skates (Welsh Labour):

(ii) Leighton Andrews (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Ken Skaes (Llafur Cymru).

(ii) Leighton Andrews (Welsh Labour) as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Ken Skates (Welsh Labour).

15:00 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motions.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Unless there are any objections, I propose that the votes on the motions be grouped. There are no objections. The proposal is to agree the motions. Does any Member object? There are no objections, therefore the motions are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiau y dylid grwpio'r pleidleisiau ar y cynnig. Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, derbynir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motions agreed.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.00 p.m.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.00 p.m.

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Dim Mwy o Dudalen Tri

Cynnig NDM5266 Rebecca Evans, Lindsay Whittle, Suzy Davies, Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi'r ymgyrch Dim Mwy o Dudalen Tri ac yn galw ar bapur newydd The Sun i roi'r gorau i'r cynnwys hwn.

Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): No More Page Three

Motion NDM5266 Rebecca Evans, Lindsay Whittle, Suzy Davies, Aled Roberts

To propose that the National Assembly for Wales:

Supports the No More Page Three campaign and calls upon The Sun Newspaper to drop the feature.

15:00 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion in my name and in the names of Lindsay Whittle, Suzy Davies and Aled Roberts.

Cyflwynaf y cynnig yn fy enw i yn ogystal â Lindsay Whittle, Suzy Davies ac Aled Roberts.

The No More Page 3 campaign began last year during the Olympics, when 36-year-old actress and writer Lucy-Anne Holmes noticed that the largest female image in the paper that day was of a topless young woman, even though Jessica Ennis had just won an Olympic gold medal. Angry, she wrote a letter to the then editor of 'The Sun', calling on him to drop the feature. The letter became an online petition and, as of this lunchtime, 108,000 women and men have put their name to it.

Dechreuodd ymgyrch No More Page 3 y llynedd yn ystod y Gemau Olympaidd, pan sylwodd yr actores a'r awdur Lucy-Anne Holmes, sy'n 36 oed, mai llun o fenyw fronnoeth oedd y llun mwyaf o fenyw yn y papur y diwrnod hwnnw, er bod Jessica Ennis newydd ennill medal aur yn y Gemau Olympaidd. Yn ei thymher, ysgrifennodd llythyr at olygydd 'The Sun' ar y pryd, yn galw arno i gael gwared ar y nodwedd. Trodd y llythyr yn ddeiseb ar-lein ac, ers amser cinio heddiw, roedd 108,000 o fenywod a dynion wedi ei arwyddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

For 42 years, 'The Sun' has displayed half-naked women within its pages, and the feature is now seen by over 7 million people every day, including children, of course. Page 3 has long polarised opinion. While some people see it as a bit of good, harmless fun and an innocuous but a bit cheeky British institution, I see it as perpetuating the sexist norms of yesteryear, depicting women as sex objects, negatively affecting girls' body image, and contributing to a much wider culture in which the mistreatment of women is considered to be okay.

I want to deal first with a couple of matters. Some critics of this campaign want to know why we are not debating the big issues of the day. Well, I say that women's place in society is the big issue of the day. How women are perceived and how we perceive ourselves affects how we are able to maximise our contribution to the economy and how we shape our society, and it affects the aspirations and achievements of the girls who are this country's future. That is why Girlguiding UK and the National Association of Head Teachers have pledged their support.

It is also important to be clear what this debate is not about. It is not about censorship of the press or press regulation, nor is about seeking to ban anything. It is just about asking 'The Sun' to do the right thing by the women and girls who make up more than half of its potential readership. The Leveson inquiry heard arguments both for and against page three, and concluded that page three and the representation of women in tabloids more generally raised important and sensitive issues that merit further consideration. This is part of that debate and that conversation.

Barely a week goes by when we do not see the launch of a new and challenging piece of research on gender equality showing how sexism and discrimination are alive and well. In Wales, the recent Bevan Foundation 'Women, Work and the Recession in Wales' report, for example, showed how women are being hit disproportionately hard by the current economic situation. Chwarae Teg's report, 'A Woman's Place', showed how women are still the poor relation in the workplace, facing inequalities and challenges in terms of skills and progression at work.

Images such as those in 'The Sun' used to be acceptable in the workplace on so-called 'girly' calendars and so on. However, thanks to employment and equalities legislation, most of those calendars have now gone, leaving 'The Sun' as one of the only places where you will find soft pornography accepted and normalised in the workplace—workplaces such as the Assembly, for example, where our Library holds copies of 'The Sun', and staff members are exposed to the sexual objectification of women while carrying out their jobs. It is for this reason that I ask the Assembly to follow the lead of Aberystwyth University's students union and not to have copies of 'The Sun' on display in the Library until such time as page three is dropped.

Ers 42 mlynedd, mae 'The Sun' wedi arddangos menywod hanner noeth ar ei dudalennau, ac mae'r nodwedd bellach yn cael ei gweld gan dros 7 miliwn o bobl bob dydd, gan gynnwys plant, wrth gwrs. Mae Tudalen 3 wedi hollti barn ers amser. Er bod rhai pobl yn ei hystyried yn hwyl ddiniwed ac yn arfer Prydeinig diniwed ond haerllug braidd, credaf ei bod yn cynnal arferion rhywiaethol y gorffennol, yn darlunio menywod fel gwrthrychau rhyw, yn cael effaith negyddol ar ddelwedd merched o'r corff, ac yn cyfrannu at ddiwylliant llawer ehangach lle ystyrir bod cam-drin menywod yn dderbyniol.

Hoffwn ymdrin yn gyntaf â chwpl o faterion. Mae rhai o'r bobl sy'n beirniadu'r ymgyrch hon am wybod pam nad ydym yn dadlau prif faterion y dydd. Wel, hoffwn ddweud mai safle menywod mewn cymdeithas yw prif fater y dydd. Mae'r ffordd y caiff menywod eu hystyried a sut rydym yn gweld ein hunain yn effeithio ar ein gallu i gyfrannu at yr economi a sut rydym yn llunio ein cymdeithas, ac mae'n effeithio ar ddyheadau a chyflawniadau merched, sef dyfodol y wlad hon. Dyna pam mae Girlguiding UK a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wedi dangos eu cefnogaeth.

Mae hefyd yn bwysig bod yn glir o ran yr hyn nad yw'r ddadl hon yn ymwneud ag ef. Nid yw'n ymwneud â sensro'r wasg na rheoleiddio'r wasg, ac nid yw ychwaith yn ymwneud â cheisio gwahardd unrhyw beth. Mae'n ymwneud â gofyn i 'The Sun' wneud y peth iawn o ran y menywod a'r merched sy'n cyfrif am fwy na hanner ei ddarpar ddarllenwyr. Clywodd ymchwiliad Leveson ddadleuon o blaid ac yn erbyn tudalen tri, a daeth i'r casgliad bod tudalen tri a chynrychiolaeth menywod yn y papurau tabloid yn fwy cyffredinol yn codi materion pwysig a sensitif y mae angen eu hystyried ymhellach. Mae hyn yn rhan o'r ddadl honno a'r sgwrs honno.

Prin y mae wythnos yn mynd heibio pan nad ydym yn gweld darn newydd a heriol o ymchwil yn cael ei lansio ar gydraddoldeb rhywiol sy'n dangos presenoldeb parhaus rhywiaeth a gwahaniaethu. Yng Nghymru, dangosodd adroddiad diweddar Sefydliad Bevan, 'Menywod, Gwaith a'r Dirwasgiad yng Nghymru', er enghraifft, sut mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Dangosodd adroddiad Chwarae Teg, 'A Woman's Place', mai menywod sydd yn y sefyllfa wannaf yn y gweithle o hyd, gan wynebu anghydraddoldebau a heriau o ran sgiliau a chynnydd yn y gwaith.

Arferai lluniau fel y rhai a welir yn 'The Sun' fod yn dderbyniol yn y gweithle ar yr hyn a elwir yn galendrau 'merchetaidd' ac ati. Fodd bynnag, diolch i ddeddfwriaeth cyflogaeth a chydaddoldeb, mae'r rhan fwyaf o'r calendrau hynny bellach wedi diflannu, gan olygu mai 'The Sun' yw un o'r unig leodd lle byddwch yn gweld pornograffi meddal yn cael ei dderbyn a'i normaleiddio yn y gweithle—gweithleoedd fel y Cynulliad, er enghraifft, lle mae ein Llyfrgell yn dal copiau o 'The Sun', ac mae aelodau o staff yn cael eu hamlygu i'r lluniau hyn sy'n gwrthrychioli menywod yn rhywiol tra'n cyflawni eu swyddi. Oherwydd hynny, gofynnaf i'r Cynulliad ddilyn esiampl undeb myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ac i beidio ag arddangos copiau o 'The Sun' yn y Llyfrgell hyd nes y ceir gwared ar dudalen tri.

I am very proud of the work that we are doing in Wales to tackle discrimination in all its forms. Our forthcoming end violence against women Bill will include a new focus on education about healthy relationships as part of a drive to develop a culture that promotes equality and challenges and questions abusive behaviour. The continued presence of page three in a national, daily, unrestricted newspaper serves only to undermine the good work that Government, the Assembly, the third sector, trade unions, teachers, parents and many others are doing every day to build a country in which we are all treated equally and with respect, and where young people grow up with healthy expectations of themselves and others.

Page three normalises the trivial objectification of women, entrenches inequality and sexist attitudes, and, quite simply, half-naked women just are not news. I urge Members to lend their support to the No More Page 3 campaign, which is being run with respect, integrity and a large dose of humour. I thank my co-tablers, Lindsay Whittle, Suzy Davies and Aled Roberts, for ensuring that there is cross-party support for the motion today. The No More Page 3 campaign's motto is:

'Say No To The Wrong Things, The Right Things Will Happen.'

That sounds about right to me.

15:05

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Rebecca for bringing this debate forward. In my opinion, being opposed to page 3 of 'The Sun' is, as they say nowadays, 'a no-brainer'. However, page 3 is a symptom. Getting rid of page 3 does not mean a change in attitudes. Writing in 'The Guardian', Hadley Freeman, having said that

'Clearly, page 3 is ridiculous and anachronistic',

goes on to say:

'Any unmarried, unmothered woman over 30 is generally described as "brave" for which read: pitiable, for which read: tragic.... This is because women in the media...exist only in relation to men and children. Once a female celebrity has children, she is always, in the eyes of the media, a mother first and foremost, no matter what else she accomplishes, but a man is always a man.'

Women are either seen as desirable or maternal, still judged more by their appearance than their achievements. I read 'The Sun' yesterday. I was determined to be non-judgmental. I was pleased that Andy Murray's victory in Wimbledon was headlined:

'Wee bit of happiness at last for Dunblane',

Rwy'n falch iawn o'r gwaith rydym yn ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â phob math o wahaniaethu. Bydd ein Bil arfaethedig i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn cynnwys ffocws newydd ar addysg ar gydbertnhasau iach fel rhan o ymgyrch i ddatblygu diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio a chwestiynau ymddygiad sarhaus. Mae presenoldeb parhaus tudalen tri mewn papur newydd anghyfyngedig dyddiol, cenedlaethol, yn tansellio'r gwaith da y mae'r Llywodraeth, y Cynulliad, y trydydd sector, undebau llafur, athrawon, rhieni a llawer o bobl eraill yn ei wneud bob dydd i greu gwlad lle caiff pawb eu trin yn gyfartal a'u parchu, a lle mae pobl ifanc yn tyfu i fyny gyda disgwyliadau iach ohonynt hwy eu hunain ac eraill.

Mae tudalen tri yn normaleiddio'r weithred o wrthrychioli menywod, yn sefydlu anghydraddoldeb ac agweddau rhywiaethol, ac, yn syml iawn, nid yw menywod hanner noeth yn newyddion. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ymgyrch No More Page 3, sy'n cael ei rhedeg â pharch, gonestrwydd a llawer iawn o hiwmor. Diolch i'm cyd-gyflwynwyr, Lindsay Whittle, Suzy Davies ac Aled Roberts, am sicrhau bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r cynnig heddiw. Arwyddair ymgyrch Page 3 No More yw:

'Dywedwch Na Wrth y Pethau Anghywir, A Bydd y Pethau Cywir yn Digwydd.'

Mae hynny'n swnio'n iawn i mi.

Diolch i Rebecca am gyflwyno'r ddadl hon. Yn fy marn i, does dim dwywaith y dylid gwrthwynebu tudalen 3 'The Sun'. Fodd bynnag, symptom yw tudalen 3. Nid yw cael gwared ar dudalen 3 yn golygu y bydd agweddau yn newid. Wrth ysgrifennu yn 'The Guardian', mae Hadley Freeman, ar ôl dweud

bod tudalen 3 yn amlwg yn rhywbeth chwerthinllyd ac anacronistig,

yn mynd ymlaen i ddweud

bod unrhyw fenyw ddi-briod, heb blant dros 30 fel arfer yn cael ei disgrifio'n "ddewr", hynny yw, mewn sefyllfa druenus a thrasig, a hynny am nad yw menywod yn y cyfryngau yn bodoli ac eithrio mewn perthynas â dynion a phlant. Unwaith y caiff gwraig enwog blant, mae bob amser, o safbwynt y cyfryngau, yn fam yn gyntaf ac yn bennaf, ni waeth beth arall y bydd yn ei gyflawni, ond mae dyn bob amser yn ddyn. '

Mae menywod naill ai'n cael eu hystyried yn ddymunol neu'n famol, ac maent yn dal i gael eu barnu'n fwy yn ôl eu hymddangosiad na'u cyflawniadau. Darllenais 'The Sun' ddoe. Roeddwn yn benderfynol o fod yn anfeiriadol. Wrth gyfeirio at fuddugoliaeth Andy Murray yn Wimbledon, roeddwn yn falch o weld y pennawd:

'Wee bit of happiness at last for Dunblane',

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

as I had got the impression that, for most of the media, winning Wimbledon has made Murray an honorary Englishman. No such joy for Ms Bartoli, the French winner of the ladies' final at Wimbledon. The message went out loud and clear: 'We want our foreigners to conform to our stereotypes'. The media coverage was as embarrassing as it was stupid. It also ignored Virginia Wade's 1977 Wimbledon victory.

Fortunately, the message that goes out from this National Assembly for Wales is very different. 'We need to be impatient for change' was the message of human rights campaigner, Shami Chakrabarti, when she made the keynote speech in the Pierhead as part of the Assembly's Presiding Officer's, Rosemary Butler's, Women in Public Life campaign. I have tried to encourage the role of women in construction. Ours is not a negative campaign. On the contrary, it is positive. It seeks to celebrate the role of women in every aspect of life. That is the reality that we are seeking to celebrate and that we want the media to reflect.

gan fy mod wedi cael yr argraff, yn achos y rhan fwyaf o'r cyfryngau, fod buddugoliaeth Wimbledon wedi gwneud Murray yn Sais anrhydeddus. Ni welwyd llawenydd o'r fath ar gyfer Ms Bartoli o Ffrainc, sef enillydd rownd derfynol y menywod yn Wimbledon. Roedd y neges yn glir: 'We want our foreigners to conform to our stereotypes'. Roedd y sylw yn y cyfryngau yn annifyr ac yn hurt. Anwybyddodd hefyd fuddugoliaeth Virginia Wade yn Wimbledon yn 1977.

Yn ffodus, mae'r neges o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn wahanol iawn. 'Mae angen bod yn ddiamynedd dros newid' oedd neges yr ymgyrchydd hawliau dynol, Shami Chakrabarti, yn ei haraith yn y Pierhead fel rhan o ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus Llywydd y Cynulliad, Rosemary Butler. Rwyf wedi ceisio annog rôl menywod yn y diwydiant adeiladu. Nid ymgyrch negyddol mohoni. I'r gwrthwyneb, mae'n gadarnhaol. Mae'n ceisio dathlu rôl menywod ym mhob agwedd ar fywyd. Dyna'r realiti rydym yn ceisio ei ddathlu ac rydym am i'r cyfryngau ei gyfleu.

15:07

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to speak in this debate today. I, too, attended the Liberty event last week, and listened to Shami Chakrabarti, who was a very inspiring speaker indeed. You might regard me as a typical Welshman: I drink beer, I sing a lot and I support rugby. However, I am also proud to say, in this Chamber, that I am indeed a feminist. Most of us old-fashioned Assembly Members still read newspapers. For some readers, myself included, the first pages we turn to are maybe the back pages to check our favourite sports and teams. I am sure that Ann Jones does that as well. Others will automatically go to the letters to the editor page to ensure that maybe we, as Assembly Members, are not being criticised or even praised—although the latter is unlikely. Some go to the editorial to check that public opinion is being reflected through the readership. However, I am saddened that there are those in Wales who always refer to page 3 first and make some sexist or even worse comment. I am not a prudish person, I can assure you, but I cannot help feel some sadness that families allow this sort of publication into their homes, where young children can view this quite openly. What message is that sending to your daughters, your sisters, your wives, your partners, your mothers and your girlfriends? Ask yourself this, guys: 'What message is this sending to your sons, your brothers and your fathers?' Are women not to be respected?

Mae'n bleser gennyf siarad yn y ddadl hon heddiw. Roeddwn innau, hefyd, yn bresennol yn nigwyddiad Liberty yr wythnos diwethaf, a chlywais araith Shami Chakrabarti, a oedd yn siaradwr ysbrydoledig iawn yn wir. Efallai y byddwch yn fy ystyried yn Gymro nodweddiadol: rwy'n yfed cwrw, rwy'n canu gryn dipyn ac rwy'n mwynhau rygbi. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn falch o ddweud, yn y Siambr hon, fy mod yn wir yn ffeminydd. Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'r Aelodau Cynulliad hen-ffasiwn yn dal i ddarllen papurau newydd. I rai darllenwyr, gan gynnwys fi fy hun, y tudalennau cyntaf y byddwn yn troi atynt efallai yw'r tudalennau cefn er mwyn cael hanes ein hoff chwaraeon a thimau. Rwy'n siŵr bod Ann Jones yn gwneud hynny hefyd. Bydd eraill yn troi'n awtomatig at y llythyrar ar dudalen y golygydd er mwyn sicrhau nad ydym ni, fel Aelodau Cynulliad, efallai'n cael ein beirniadu neu hyd yn oed ein canmol—er bod yr olaf yn annhebygol. Bydd rhai yn troi at yr erthygl olygyddol er mwyn sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chyfleu drwy'r darllenwyr. Fodd bynnag, mae'n peri tristwch imi fod rhai yng Nghymru sydd bob amser yn troi at dudalen 3 yn gyntaf ac yn gwneud rhyw sylw rhywiaethol neu hyd yn oed waeth. Nid wyf yn berson maldodus, gallaf eich sicrhau, ond ni allaf ond teimlo rhywfaint o dristwch bod teuluoedd yn caniatáu i gyhoeddiad o'r fath gyrraedd eu cartrefi, lle gall plant ifanc ei weld yn eithaf agored. Pa neges y mae hynny'n ei chyfleu i'ch merched, eich chwiorydd, eich gwragedd, eich partneriaid, eich mamau a'ch cariadon? Gofynnwch i chi'ch hun ddyinion; 'Pa fath o neges y mae hyn yn ei chyfleu i'ch meibion, eich brodyr a'ch tadau? Oni ddylid parchu menywod?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Imagine what a tourist would think as they thumb through what is supposed to be a major UK-wide newspaper—I use that phrase with a pinch of salt, because Wales is very rarely mentioned in British newspapers anyway—and on page 3, randomly, is a woman posing with her bare breasts on full display. Can you think of anything more archaic—even silly, I would say—not to mention deeply sexist? I cannot imagine what it says to an outsider about the state of our society that this should happen. If any of us went to any modern western country and found something similar, we would surely question the morality of that nation. You do not see it in Europe.

There are magazines available for those who feel the need to view such material, and I agree that there is another debate to be had on those publications, too. However, the important question that we are debating today is whether page 3 is suitable for families to look at in their own homes. I, certainly, argue that it is not. Editors have a duty to respect half of our population. Some might say that it is just an example of a nanny state gone mad, and that there is nothing wrong with a bit of cheeky fun in the best British tradition. Well, this is not the traditional Victorian postcard that you look at in antique fairs, and there are many things that were considered traditional or just a bit of cheeky fun that are no longer acceptable to people in the modern world. This cheeky bit of fun is actually based on demeaning and sexist views of women, and is totally past its sell-by date.

Dychmygwch beth fyddai teithiwr yn ei feddwl wrth iddo gael cipolwg brysiog drwy'r hyn a elwir yn un o brif bapurau newydd y DU—defnyddiaf yr ymadrodd hwnnw gyda phinsiad o halen, gan mai prin iawn y cyfeirir at Gymru mewn papurau newydd Prydeinig beth bynnag—ac ar dudalen 3, ar hap, mae menyw fronnoeth. Allwch chi feddwl am unrhyw beth mwy hynafol—gwirion, hyd yn oed, yn fy marn i—heb sôn am hynod rywiaethol? Ni allaf ddychmygu beth mae'n ei ddweud wrth rywun o'r tu allan am gyflwr ein cymdeithas. Pe bai unrhyw un ohonom yn mynd i unrhyw wlad orllewinol fodern ac yn dod ar draws rhywbeth tebyg, byddem yn sicr yn cwestiynu moesoldeb y wlad honno. Nid ydych yn ei weld yn Ewrop.

Mae cylchgronau ar gael i'r rhai sy'n teimlo bod angen iddynt weld deunydd o'r fath, a chytunaf fod dadl arall i'w chael o ran y cyhoeddiadau hynny, hefyd. Fodd bynnag, y cwestiwn pwysig rydym yn ei ddadlau heddiw yw a yw tudalen 3 yn addas i deuluoedd edrych arni yn eu cartrefi eu hunain. Yn sicr, dadleuaf nad yw'n addas. Mae gan olygyddion ddyletswydd i barchu hanner ein poblogaeth. Efallai y byddai rhai yn dweud ei bod ond yn enghraifft o wladwriaeth faldodus wedi mynd yn wallgof, ac nad oes unrhyw beth o'i le gydag ychydig o hwyl Brydeinig ddiniwed. Wel, nid dyma'r cerdyn post Fictoraidd traddodiadol a welch mewn ffeiriau hen bethau, ac mae llawer o bethau a arferai gael eu hystyried yn draddodiadol neu'n ychydig o hwyl ddiniwed nad ydynt yn dderbyniol i bobl yn y byd modern mwyach. Mae'r ychydig o hwyl ddiniwed hon yn seiliedig mewn gwirionedd ar ddiraddio menywod a safbwyntiau rhywiaethol amdanynt, ac mae'n rhywbeth sydd wedi dyddio'n llwyr.

15:11 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am a little bit concerned about the tone of the debate. Surely, there would not be a page 3 if people did not want to pose for it? If a woman is proud of her body and she chooses to allow herself to be shown on page 3 of a major newspaper, do you think that we have a right here to deny her that choice? It also comes down to the choice—

Rwyf ychydig yn bryderus am dôn y dadl. Ni fyddai tudalen 3 yn bodoli pe na fyddai pobl am ymddangos arni. Os yw menyw yn falch o'i chorff ac yn dewis ymddangos ar dudalen 3 un o'r prif bapurau newydd, a gredwch fod gennym yr hawl yma i wrthod rhoi'r dewis hwnnw iddi? Mae hefyd yn fater o ddewis—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If you want to make a speech, Janet, I will call you. That is enough.

Os hoffech wneud araith, Janet, fe'ch galwaf. Dyna ddigon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:11 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you not think that there is a choice involved in someone wanting to buy the newspaper? They would not buy it if it was so offensive.

Oni chredwch fod rhywun yn dewis prynu'r papur newydd? Ni fyddai'n ei brynu pe bai mor sarhaus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:11 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am ashamed that you stood up and said that on behalf of women in this Chamber. You really do yourself a great disservice.

Mae gennyf gywilydd eich bod wedi sefyll i fyfyr a dweud hynny ar ran y menywod yn y Siambr hon. Rydych yn wir yn gwneud anghymwynas fawr â chi eich hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I fully support Rebecca Evans in her efforts here today. I once read that the best advice a man can give to his son is to respect the opposite sex and treat them with dignity. The role of women in Welsh life has always been extremely important. If we intend to build a new Wales, we need to ensure that we finally put an end to this sort of publication. Women in Wales need to feel safe and respected. People in Wales need to be aware that, in Wales, not only women are feminists, but it is pretty cool for men to be feminists too. I am really proud to support this. Well done, Rebecca.

Cefnogaf Rebecca Evans yn llwyr yn ei hymdrechion yma heddiw. Darllenais unwaith mai'r cyngor gorau y gall dyn ei roi i'w fab yw i barchu menywod a'u trin ag urddas. Mae rôl menywod ym mywyd Cymru bob amser wedi bod yn eithriadol o bwysig. Os ydym yn bwriadu adeiladu Cymru newydd, mae angen inni sicrhau ein bod o'r diwedd yn rhoi terfyn ar gyhoeddiad o'r fath. Mae angen i fenywod yng Nghymru deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu. Mae angen i bobl yng Nghymru fod yn ymwybodol bod menywod, yng Nghymru, nid yn unig yn ffeministiaid, ond ei bod yn eithaf cŵl i ddynion fod yn ffeministiaid hefyd. Rwy'n falch iawn o gefnogi hyn. Da iawn, Rebecca.

15:12

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rebecca outlined the start of the No More Page 3 campaign, and where it has received its support from is unique in that it has galvanised everybody together. It has galvanised men as well, and I am grateful to Lindsay Whittle for that last contribution.

I believe the reason that this campaign has caught the imagination of so many of our constituents and colleagues is precisely because page 3 is fundamentally outdated—if it ever was fashionable, which I doubt. The world into which page 3 was introduced is very different from the world of today, thank goodness. Page 3 normalises objectification in society, and we still live in a country where two women a week are killed at the hands of their partners or ex-partners. Sixty thousand women are raped every year, and, in 2011, in England and Wales, there were over 300,000 sexual assaults.

If page 3 is removed from 'The Sun' newspaper, it is, of course, not the only solution to ending violence against women, and the fight for equality will not be over. That is why I welcome the proposals in the forthcoming end violence against women Bill. With nearly a third of 16 to 18-year-olds experiencing sexual touching at school, and almost three quarters of girls having been called sexual names, that is why the Bill, I am sure, will ensure that young women and girls, and, more importantly, young boys, will learn key concepts of respect, fairness and consent, which are the way in which relationships should be built.

Amlinellodd Rebecca ddechrau ymgyrch No More Page 3, ac mae natur y gefnogaeth y mae wedi'i chael wedi bod yn unigryw o ran y ffaith ei bod wedi uno pawb ynghyd. Mae dynion wedi dangos cefnogaeth hefyd, ac rwy'n ddiolchgar i Lindsay Whittle am y cyfraniad diwethaf.

Credaf mai'r rheswm pam bod yr ymgyrch hon wedi dal dychymyg cynifer o'n hetholwyr a'n cyd-Aelodau yw am fod tudalen 3 bellach yn rhywbeth hen-ffasiwn—os oedd erioed yn ffasiynol, sy'n amheus gen i. Mae'r byd y cyflwynwyd tudalen 3 iddo yn wahanol iawn i'r byd heddiw, diolch byth. Mae tudalen 3 yn normaleiddio gwrthrychioli mewn cymdeithas, ac rydym yn dal i fyw mewn gwlad lle mae dwy fenyw yr wythnos yn cael eu lladd gan euartneriaid neu gyn-bartneriaid. Mae 60,000 o fenywod yn cael eu treisio bob blwyddyn, ac, yn 2011, yng Nghymru a Lloegr, cafwyd dros 300,000 o ymosodiadau rhywiol.

Os ceir gwared ar dudalen 3 o bapur newydd 'The Sun', nid dyna'r unig ateb, wrth gwrs, i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, ac ni fydd y frwydr yn erbyn cydraddoldeb drosodd. Dyna pam rwy'n croesawu'r cynigion yn y Bil arfaethedig i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Gyda bron draean o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cael eu cyffwrdd yn rhywiol yn yr ysgol, a bron dri chwarter y merched wedi cael eu galw'n enwau rhywiol, dyna pam y bydd y Bil, rwy'n siŵr, yn sicrhau bod menywod ifanc a merched, ac, yn fwy pwysig, bechgyn ifanc, yn dysgu cysyniadau allweddol parch, tegwch a chaniatâd, sef y ffordd y dylid meithrin cydberthnasau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is a two-pronged attack—the No More Page 3 campaign and our proposals, which will see an improvement to the lives of women, and make a better society for us. If successful, the campaign will stop roughly 7 million people a day from seeing the objectification of women in a newspaper. It will show those people that the objectification of women is not news. It will show those same readers that women can aspire to be more than just glamour models. Had glamour models been the key, many of us standing here today would never have come out of our front doors, let alone our back doors, into any form of employment. So, it is not good enough to use the blasé response of, 'If you don't like it, don't buy it', or even to say 'Parents should turn the page over if it is in the family home'. Those are the two quotes from the Prime Minister and the Deputy Prime Minister of the UK Government. I find that quite disturbing indeed, because, Deputy Presiding Officer, Wales has led the UK in promoting gender equality, and I am proud that this Assembly has always had a strong record of female representation and creates positive role models for women, and hopefully, for more women in Wales to step forward.

It is time to support the 'No More Page Three' campaign, and it is time for us to carry on our proud tradition here of championing gender equality and to be the first legislature to show that we do support women, whatever their size, creed or colour in whatever they want to do.

15:16

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

When I was thinking about what to say in this debate today, I did not really know where to start, because the sexualisation, sexism and objectification of women is so endemic in this society that I think that page 3, quite frankly, is the tip of the iceberg.

So, I want to start with a quote:

'There's too many interesting women I have not had the experience to know in this life because I have been brainwashed.'

Those are the words of Dustin Hoffman. Brainwashed that a certain look is ideal; women dismissed because they do not fit what society defines as acceptable, and undermined instantly if they do not look a certain way due to other people's attitudes towards them, and framed by the media, by adverts and by the continuous stereotyping of women in society.

When Clare Short had an opinion on the page 3 campaign, she was branded 'fat, jealous and a kill-joy' by 'The Sun' for speaking out against page 3. For speaking out on these issues, you are made to feel that you are wrong for having an opinion.

Mae'n ymosodiad deublyg—ymgyrch No More Page 3 a'n cynigion, a fydd yn gwella bywydau menywod, ac yn creu cymdeithas well i ni. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yr ymgyrch yn atal tua 7 miliwn o bobl y dydd rhag gweld menywod yn cael eu gwrthrychioli mewn papur newydd. Bydd yn dangos i'r bobl hynny nad yw gwrthrychioli menywod yn newyddion. Bydd yn dangos i'r un darllenwyr hynny y gall menywod ddyheu i fod yn fwy na dim ond modelau bronnoeth. Pe bai modelau bronnoeth wedi bod yn allwedd, ni fyddai llawer ohonom sy'n sefyll yma heddiw erioed wedi camu drwy ein drysau blaen, heb sôn am ein drysau cefn, i mewn i unrhyw fath o gyflogaeth. Felly, nid yw'n ddigon da i ymateb mewn ffordd blasé a dweud 'Os nad ydych chi'n ei hoffi, peidiwch â'i brynu', neu hyd yn oed 'Dylai rhieni droi'r dudalen os yw yng nghartref y teulu'. Dyna'r ddau ddyfyniad gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU. Mae hynny'n peri pryder mawr imi, oherwydd, Ddirprwy Lywydd, mae Cymru wedi arwain y DU yn y gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiâu, ac rwy'n falch bod y Cynulliad hwn bob amser wedi cynnwys nifer fawr o gynrychiolwyr benywaidd a'i bod yn creu modelau rôl cadarnhaol i fenywod, a fydd, gobeithio, yn annog rhagor o fenywod yng Nghymru i gamu ymlaen.

Mae'n bryd cefnogi ymgyrch 'No More Page 3', ac mae'n bryd inni gynnal ein traddodiad balch yma o hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiâu fel y ddeddfwrfa gyntaf i ddangos ein bod yn cefnogi menywod, beth bynnag eu maint, eu credo neu liw, ym mha beth bynnag y maent am ei wneud.

Pan oeddwn yn meddwl am beth i'w ddweud yn y ddadl hon heddiw, nid oeddwn mewn gwirionedd yn gwybod ble i ddechrau, gan fod rhywioli, rhywiaeth a gwrthrychioli menywod mor endemig yn y gymdeithas hon fel nad ydym prin yn crafu'r wyneb, a dweud y gwir, wrth sôn am dudalen 3.

Felly, rwyf am ddechrau gyda dyfyniad:

Mae gormod o fenywod diddorol nad wyf wedi cael y profiad o'u hadnabod yn y bywyd hwn gan fy mod wedi cael fy nghyflyru.

Dyna eiriau Dustin Hoffman. Gydag unigolion wedi eu cyflyru bod golwg benodol yn ddelfrydol; caiff menywod eu hanwybyddu am nad ydynt yn cyfateb i'r hyn y mae cymdeithas yn ei ddiffinio'n dderbyniol, a'u tansellio'n syth os nad oes ganddynt edrychiad penodol o ganlyniad i agweddau pobl eraill tuag atynt, a'u fframio gan y cyfryngau, gan hysbysebion a chan ystrydebau parhaus o fenywod mewn cymdeithas.

Pan oedd gan Clare Short farn ar yr ymgyrch tudalen 3, cafodd ei galw'n dew ac yn genfigennus gan 'The Sun' am siarad yn gyhoeddus yn erbyn tudalen 3, ac fe'i cyhuddwyd o geisio difetha hwyl pobl eraill. Os byddwch yn siarad yn gyhoeddus ar y materion hyn, gwneir ichi deimlo'n wael am fod gennych farn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, I want to look at all of the people who have been abused by sexuality, sexualisation and objectification, and the list is endless. Look at Reeva Steenkamp who was going out with Oscar Pistorius; she died and they put a picture of her in a bikini on the front page of the newspapers. This woman was killed. I was embarrassed to read those papers. Marion Bartoli, as Joyce Watson said, won Wimbledon, but John Inverdale had the audacity to say that she was 'no looker' and that she had to resort to tennis. I think that that, again, was totally unacceptable. Helen Flannigan, who was on 'I'm a Celebrity', has mental health issues and was criticised, yet again. BBC presenters Miriam O'Reilly and Anna Ford were criticised for their age, because obviously they are too old to be on television. We have the sexiest female lists in our papers here in Wales and anonymous online comments against politicians and people here in our society. Julia Gillard who was Wales-born had to do a speech in her national parliament about misogyny and said that obsessive media were pouring over every detail of her life. I think that that is totally unacceptable in this day and age.

The University at Buffalo did a study on the changes in how intensely sexualised images of women have become. The study looked at people who read the 'Rolling Stone' magazine, and said:

'What we conclude from this is that popular media outlets...are not depicting women as sexy musicians or actors; they are depicting women musicians as ready and available for sex. This is problematic...because it indicates a decisive narrowing of media representations of women'.

As has been said, and if anybody wants to challenge it here today, it exacerbates the male perception of women, it exacerbates domestic violence, and it exacerbates how women feel about their bodies. That is why I set up the cross-party group on eating disorders in this institution, so that we can challenge those perceptions of people's body images. Young women—young men as well now, to be fair—should not have to go out in society and be worried that they are not a size zero, or that they do not fit a certain image. There are now children as young as seven who are worried about what they eat, what they look like, and where they go to socialise. Some people are smoking as a result of not wanting to put on weight. We have to challenge these stereotypes and that is why I think that the Welsh Government should be introducing more body-confidence lessons and self-esteem lessons in schools, so that we can stop young people from developing mental illnesses down the line that will affect their everyday lives.

Felly, hoffwn edrych ar bawb sydd wedi cael eu cam-drin mewn perthynas â rhywioldeb, rhywioli a gwrthrychioli, ac mae'r rhestr yn ddiwedd. Un enghraifft yw Reeva Steenkamp, a oedd mewn perthynas gydag Oscar Pistorius; bu farw a rhoesant lun ohoni mewn bicini ar dudalen flaen y papurau newydd. Cafodd y wraig hon ei lladd. Teimlais gwilydd wrth ddarllen y papurau newydd hynny. Enillodd Marion Bartoli, fel y dywedodd Joyce Watson, yn Wimbledon, ond roedd John Inverdale yn ddigon hy i ddweud nad oedd yn ferch ddel iawn a'i bod wedi gorfod troi at chwarae tennis fel y dewis olaf. Credaf fod hynny, unwaith eto, yn gwbl annerbyniol. Mae gan Helen Flannigan, a ymddangosodd ar 'I'm a Celebrity', broblemau iechyd meddwl a chafodd ei beirniadu, unwaith eto. Cafodd cyflwynwyr y BBC Miriam O'Reilly ac Anna Ford eu beirniadu am eu hoedran, am eu bod yn amlwg yn rhy hen i fod ar y teledu. Mae gennym y rhestrau o fenywod mwyaf rhywiol yn ein papurau newydd yma yng Nghymru a sylwadau ar-lein dienw yn erbyn gwleidyddion a phobl yma yn ein cymdeithas. Bu'n rhaid i Julia Gillard a anwyd yng Nghymru wneud araith yn ei senedd genedlaethol am wreig-gasineb a dywedodd fod y cyfryngau obsesiynol yn myfyrio dros bob manylyn o'i bywyd. Credaf fod hynny'n gwbl annerbyniol yn yr oes sydd ohoni.

Cynhaliodd y Brifysgol yn Buffalo astudiaeth ar y newidiadau yn y modd y mae lluniau o fenywod yn cael eu rhywioli'n gynyddol. Edrychodd yr astudiaeth ar bobl sy'n darllen cylchgrawn 'Rolling Stone', a dywedwyd

mai'r hyn a gasglwyd o'r astudiaeth hon yw nad yw cyfryngau poblogaidd yn dangos menywod fel cerddorion neu actorion rhywiol; maent yn darlunio cerddorion benywaidd fel menywod sy'n barod i gael rhyw ac ar gael i wneud hynny. Mae hyn yn broblem, oherwydd mae'n dangos portreadau cul iawn o fenywod yn y cyfryngau'.

Fel y dywedwyd, ac os oes unrhyw un yn dymuno ei herio yma heddiw, mae'n gwaethygu canfyddiad dynion o fenywod, mae'n gwaethygu trais domestig, ac mae'n gwaethygu'r ffordd mae menywod yn teimlo am eu cyrff. Dyna pam y sefydlais y grŵp trawsbleidiol ar anhwylderau bwyta yn y sefydliad hwn, fel y gallwn herio'r canfyddiadau hynny o ddelwedd pobl o gyrff. Ni ddylai menywod ifanc—dynion ifanc hefyd erbyn hyn, a bod yn deg—orfod mynd allan mewn cymdeithas a phoeni nad ydynt yn faint sero, neu nad ydynt yn cyd-fynd â delwedd benodol. Erbyn hyn mae plant mor ifanc â saith oed sy'n poeni am yr hyn y maent yn ei fwyta, sut maent yn edrych, a ble maent yn mynd i gymdeithasu. Mae rhai pobl yn ysmegu am nad ydynt am fagu pwysau. Rhaid inni herio'r ystrydebau hyn a dyna pam y credaf y dylai Llywodraeth Cymru fod yn cyflwyno mwy o wersi hyder yn y corff a gwersi hunan-barch mewn ysgolion, er mwyn inni allu atal pobl ifanc rhag datblygu salwch meddwl maes o law a fydd yn effeithio ar eu bywydau bob dydd.

On a practical issue, with regard to the page 3 campaign, we need to be challenging retailers and advertisers—that is where the big bucks lie. People will continue to buy a paper, but if advertisers take away their sponsorship from these papers, and if retailers, such as small shops—we have plenty of small shops in Wales—refuse to stock 'The Sun', we will be on to something. We do not have the powers in this national institution to tell 'The Sun' to stop doing this, but we have influence and we have power in terms of what we say and the message that we bring to 'The Sun' and other, similar papers.

Therefore, I urge everyone to support this debate, and I hope, if people have a differing opinion—as we have heard from Janet Finch-Saunders—that this debate will change their minds. Women in society have suffered for far too long. I know, Janet, if I may say so, that you have suffered, as an Assembly Member, from judgments about how you come over or about looking a certain way. So, I would like you to understand that that is how many other women in society feel, and I urge you to give your support for this campaign.

15:21

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the opportunity to participate in this debate today. I am tempted to claim that I am a feminist, given the tenor of the debate, but my wife would soon put that record straight. [Laughter.] I think, however, that some of us have been accused, in bringing this debate forward, of seeking a ban on page 3 and engaging in attempts at press censorship. I have to say that, as a liberal, I have been brought up to tolerate opinions that are very different to mine, and I have been accused of being intolerant in signing up to today's motion. I accept that there is a view, as Ann Jones mentioned, that says, 'If you don't like it; don't buy it'. I certainly do not like it, and I do not buy it, but I think that we need to go further. We need to make a statement, which we have the opportunity to make today, that we do not believe that it is acceptable in this day and age, despite firmly held convictions, for young people to be placed in inappropriate situations in public circumstances such as sitting on a bus or a train when, even though they might not like it and do not buy it, they cannot control those situations.

As Rebecca Evans stated—thanks, Rebecca, for instigating today's debate—'The Sun' currently has a daily circulation of 2.5 million. It is estimated that 7.5 million people see 'The Sun' every day. Among those people are young men and young women who are still in the process of forming and understanding their identity, which is something that Bethan referred to. They are forming opinions in relation to both their identity and those of people around them. How they eventually see the world and their place in it is often coloured by the images that they encounter along the way, including, in this country, the images on page 3.

Ar fater ymarferol, o ran yr ymgyrch yn ymwneud â thudalen 3, mae angen inni herio manwerthwyr a hysbysebwywr—hynny yw lle mae'r arian mawr. Bydd pobl yn parhau i brynu papurau newydd, ond os na fydd hysbysebwywr yn noddi'r papurau hyn, ac os bydd manwerthwyr, megis siopau bach—mae gennym ddigon o siopau bach yng Nghymru—yn gwrthod gwerthu 'The Sun', gallwn fynd i'r afael â hyn. Nid oes gennym y pwerau yn y sefydliad cenedlaethol hwn i ddweud wrth 'The Sun' i roi'r gorau i wneud hyn, ond mae gennym ddylanwad ac mae gennym bŵer o ran yr hyn rydym yn ei ddweud a'r neges rydym yn ei chyfleu i 'The Sun' a phapurau tebyg eraill.

Felly, anogaf bawb i gefnogi'r ddadl hon, a gobeithiaf, os bydd gan bobl farn wahanol—fel yr ydym wedi ei chlywed gan Janet Finch-Saunders—y bydd y ddadl hon yn newid eu meddyliau. Mae menywod mewn cymdeithas wedi dioddef ers gormod o amser o lawer. Gwn, Janet, os caf ddweud hynny, eich bod, fel Aelod Cynulliad, wedi dioddef barn am y ffordd rydych yn ymddangos neu am edrych mewn ffordd benodol. Felly, hoffwn ichi ddeall mai dyna sut mae llawer o fenywod eraill mewn cymdeithas yn ei deimlo, ac fe'ch anogaf i gefnogi'r ymgyrch hon.

Croesawaf hefyd y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Caf fy nhemtio i ddweud fy mod yn ffeminydd, o gofio hanfod y ddadl, ond byddai fy ngwraig yn fuan yn anghytuno â mi. [Chwerthin.] Credaf, fodd bynnag, fod rhai ohonom wedi cael ein cyhuddo, wrth gyflwyno'r ddadl hon, o geisio gwaharddiad ar dudalen 3 a cheisio sensro'r wasg. Rhaid imi ddweud, fel rhyddfrydwr, fy mod wedi cael fy magu i oddef barn sy'n wahanol iawn i'm barn fy hun, ac rwyf wedi cael fy nghyhuddo o fod yn anoddefgar wrth gefnogi'r cynnig heddiw. Derbyniaf fod barn, fel y soniodd Ann Jones, sy'n dweud, 'Os nad ydych yn ei hoffi, peidiwch â'i brynu'. Yn sicr, nid wyf yn ei hoffi, ac nid wyf yn ei brynu, ond credaf fod angen inni fynd ymhellach. Mae angen inni wneud datganiad, y mae gennym y cyfle i'w wneud heddiw, na chredwn ei bod yn dderbyniol yn yr oes sydd ohoni, er gwaethaf daliadau cadarn, i bobl ifanc gael eu rhoi mewn sefyllfaoedd amhriodol mewn amgylchiadau cyhoeddus megis eistedd ar fws neu drên pan na allant, hyd yn oed os nad ydynt yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei brynu, reoli'r sefyllfaoedd hynny.

Fel y dywedodd Rebecca Evans—diolch, Rebecca, am annog y ddadl heddiw—mae gan 'The Sun' gylchrediad dyddiol o 2.5 miliwn. Amcangyfrifir bod 7.5 miliwn o bobl yn gweld 'The Sun' bob dydd. O blith y bobl hynny mae dynion ifanc a menywod ifanc sydd yn dal yn y broses o lunio a deall eu hunaniaeth, sy'n rhywbeth y cyfeiriodd Bethan ato. Maent yn ffurfio barn mewn perthynas â'u hunaniaeth hwy a hunaniaeth y bobl hynny o'u cwmpas. Mae'r ffordd y maent yn gweld y byd a'u lle ynddo yn y pen draw yn aml yn cael ei lliwio gan y delweddau y maent yn dod ar eu traws ar hyd y ffordd, gan gynnwys, yn y wlad hon, y lluniau ar dudalen 3.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Therefore, what place does page 3 have in today's society? How can anyone claim that it contributes to the self-esteem of young women, and how is it helping those young women to develop positive attitudes to themselves in any way other than to their physical attributes? As the father of two male teenagers, I perhaps could be expected to have less fear about or interest in this subject than the father of two young females, but I do not believe that that is the case, because we are creating a situation in which my young sons believe that they are growing up in a society that is no different to the society that I grew up in in the 1960s and 1970s. Will it encourage those young people to engage more in society? No. Is it perpetuating gender stereotyping? Yes, most definitely. I believe that it is rather sad that the editor and the owners of 'The Sun' do not believe that they could make a much more positive contribution to the lives of young people today, by accepting the aims of this campaign.

As has been stated, the early day motion in the House of Commons called for a cessation in the distribution of 'The Sun' newspaper on the Commons estate. I have to say that I am rather surprised that we have heard this afternoon that the Assembly library actually involves 'The Sun' as well.

It is particularly damaging to young girls who are growing up with a warped view of what society thinks a woman should be. We only need to look at the increasing evidence of anorexia and other medical conditions, as well as the work done by Gok Wan and the Campaign for Body Confidence, to know that something is wrong with today's society's attitude towards women and their appearance.

Publications that purport to be family newspapers should not be displaying such images of women. They are degrading and send the message that women can be valued only for their appearances. The campaign appears to have a great deal of cross-party support here already, and I hope that this Assembly can contribute positively to the wider debate that our society desperately needs.

Felly, pa le sydd i dudalen 3 mewn cymdeithas heddiw? Sut y gall unrhyw un honni ei bod yn cyfrannu at hunan-barch menywod ifanc, a sut mae'n helpu'r menywod ifanc hynny i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu hunain mewn unrhyw ffordd ac eithrio eu nodweddion corfforol? Fel tad i ddau fachgen yn eu harddegau, efallai y gellid disgwyl imi fod â llai o ofn am y pwnc hwn neu â llai o ddiddordeb ynddo na thad i ddwy ferch ifanc, ond ni chredaf fod hynny'n wir, oherwydd rydym yn creu sefyllfa lle mae fy meibion ifanc yn credu eu bod yn tyfu i fyny mewn cymdeithas nad yw'n ddim gwahanol i'r gymdeithas y cefais i fy magu ynddi yn y 1960au a'r 1970au. A fydd yn annog y bobl ifanc hynny i chwarae mwy o ran mewn cymdeithas? Na. A yw'n cynnal ystrydebu ar sail rhyw? Ydy, yn bendant. Credaf ei bod braidd yn drist nad yw golygydd a pherchenogion 'The Sun' yn credu y gallent wneud cyfraniad llawer mwy cadarnhaol at fywydau pobl ifanc heddiw, drwy dderbyn nodau'r ymgyrch hon.

Fel y nodwyd, galwodd y cynnig cynnar-yn-y-dydd yn Nhŷ'r Cyffredin am roi'r gorau i ddosbarthu papur newydd 'The Sun' ar ystâd Tŷ'r Cyffredin. Rhaid imi ddweud fy mod yn synnu braidd ein bod wedi clywed y prynhawn yma fod llyfrgell y Cynulliad mewn gwirionedd yn cynnwys 'The Sun' hefyd.

Mae'n arbennig o niweidiol i ferched ifanc sy'n tyfu i fyny gyda chanfyddiad gwyrddroedig o sut beth y dylai menyw fod ym marn cymdeithas. Dim ond edrych ar y dystiolaeth gynyddol o anorecsia a chyflyrau meddygol eraill sydd angen inni ei wneud, yn ogystal â'r gwaith y mae Gok Wan a Campaign for Body Confidence yn ei wneud, i wybod bod rhywbeth o'i le gydag agwedd cymdeithas heddiw tuag at fenywod a'u hymddangosiad.

Ni ddylai cyhoeddiadau sy'n honni eu bod yn bapurau newydd teuluol fod yn arddangos lluniau o'r fath o fenywod. Maent yn ddiraddiol ac yn cyfleu'r neges mai dim ond am eu hymddangosiad y gellir gwerthfawrogi menywod. Ymddengys fod gan yr ymgyrch lawer iawn o gefnogaeth drawsbleidiol yma eisoes, a gobeithiaf y gall y Cynulliad hwn gyfrannu'n gadarnhaol at y ddadl ehangach sydd ei hangen yn daer ar ein cymdeithas.

15:26

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be absolutely honest and say that I was not going to speak in today's debate, so I am very grateful to the Deputy Presiding Officer for allowing me to do so. I wanted to start off by saying that I will be voting in favour of this motion, but I want to urge a little bit of caution on some of the language that I have heard today. It is a very difficult thing, is it not? I am old enough to have grown up at a time when we were fighting for our rights and fighting for the right of women to be employed and to be recognised in work. I remember going to a senior management conference at an exotic location in America. There were 200 senior managers there and I was the only girl. Incidentally, I was also asked whether I knew how to use the photocopying machine, which was somewhat sad.

Byddaf yn gwbl onest a dweud nad oeddwn yn mynd i siarad yn y ddadl heddiw, felly rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Lywydd am ganiatáu imi wneud hynny. Hoffwn ddechrau drwy ddweud y byddaf yn pleidleisio o blaid y cynnig hwn, ond anogaf bobl i gymryd pwyll o ran rhywfaint o'r iaith rwyf wedi ei chlywed heddiw. Mae'n beth anodd iawn, onid ydyw? Rwy'n ddigon hen i fod wedi tyfu i fyny mewn cyfnod pan oeddwn yn ymladd dros ein hawliau ac yn ymladd dros hawl menywod i gael eu cyflogi a'u cydnabod yn y gwaith. Cofiaf fynd i gynhadledd uwch reolwyr mewn lleoliad egsotig yn America. Roedd 200 o uwch reolwyr yn bresennol a fi oedd yr unig ferch. Gyda llaw, gofynnwyd imi hefyd a oeddwn yn gwybod sut i ddefnyddio'r peiriant llungopio, a oedd braidd yn drist.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Things have moved on a lot, but they have not moved on enough. Having fought so hard to do what I have done in my life, and to be where I am today, and where I have been in other aspects of my career, I would be very cautious about saying to a young woman—it is always young women, because they are the beautiful ones, and certainly I can tell you that nobody wants to see me with any clothes on let alone any clothes off—what they should or should not do, and how they should, or should not, portray themselves. We have to be very careful, but I think that there is a right time and a right place and it is about educating them so that they make the decisions. It would mean that these beautiful 16 and 17-year-olds—yes, they are as young as that—and the 18, 19 and 20-year-olds grow up having a much better sense of their self-worth and a much better understanding of their enablement in society and what they could achieve, so that they do not think that the easy way to make money is by trading on what nature has given them; that the easy way to make money is to take off their kit; and that the easy way to make money is to then allow legions of strangers to look at them, whether those strangers are young children, or whether those strangers are young men whose thoughts turn to what the thoughts of young men usually are.

The danger I think that this is bringing to us is that we are developing a society where sex has become very cold, where it is all very matter of fact, and where it is all about instant gratification. I can see a photo in a paper of a gorgeous girl, I can walk down the street and get that gorgeous girl, I can nip around the back of the pub and have that gorgeous girl and then I can just walk away and forget about the gorgeous girl. I will say, for all the men here, that there are gorgeous girls who do that to gorgeous young men as well, but it is by far and away the other balance.

I think that this is so sad. I have two young children, as most of you will know by now—I talk about them a lot—and I listen to some of the music that they want to talk about, that they are hearing at school. I hear the words before I let them have it. You hear some rapper talking about 'bitches' and all the rest of it. It is this constant driving down of the status of women. It is this constant saying that women are there to serve, that women are there to please, that women are there to pleasure. I think that it is a terrible, terrible indictment of our society and it is a terrible indictment of the spirit and the truth that we have instilled in those girls as they have gone through the education system. All we can do is to start to change it little by little, brick by brick, to dismantle it.

Mae pethau wedi newid llawer, ond nid ydynt wedi newid digon. Ar ôl brwydro mor galed i wneud yr hyn rwyf wedi ei wneud yn fy mywyd, ac i gyrraedd lle rwyf i heddiw, a lle rwyf wedi bod mewn agweddau eraill ar fy ngyrfa, byddwn yn pwylo cyn dweud wrth fenyw ifanc—menywod ifanc bob amser, gan mai nhw yw'r rhai hardd, a gallaf ddweud wrthyhych yn sicr nad oes neb am fy ngweld i'n gwisgo dillad heb sôn am heb unrhyw ddillad—beth y dylent, ac na ddylent, ei wneud, na sut y dylent, ac na ddylent, gyfleu eu hunain. Rhaid inni fod yn ofalus iawn, ond credaf fod amser cywir a lle cywir ac mae'n ymwneud â'u haddysgu fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniadau. Byddai'n golygu bod y merched ifanc hardd 16 a 17 oed—ydynt, maent mor ifanc â hynny—a 18, 19 a 20 oed hyn yn tyfu i fyny ag ymdeimlad llawer gwell o'u hunan-werth a dealltwriaeth llawer gwell o'u gallu mewn cymdeithas a'r hyn y gallent ei gyflawni, fel nad ydynt yn meddwl mai masnachu'r hyn y mae natur wedi ei roi iddynt yw'r ffordd hawdd o wneud arian; mai tynnu eu dillad yw'r ffordd hawdd o wneud arian, ac mai gadael i lu o ddiethriaid syllu arnynt yw'r ffordd hawdd o wneud arian, p'un a yw'r dieithriaid hynny'n blant ifanc, neu'n ddynion ifanc y mae eu meddyliau'n troi at yr hyn y mae dynion ifanc yn meddwl amdano fel arfer.

Y perygl rydym yn ei wynebu yn fy marn i yw ein bod yn datblygu cymdeithas lle mae rhyw wedi dod yn beth oeraidd iawn, lle mae'r cyfan yn fater o ffaith, a lle mae'r cyfan yn ymwneud â boddhad uniongyrchol. Gallaf weld llun o ferch hardd mewn papur newydd, gallaf gerdded i lawr y stryd a chael y ferch hardd honno, gallaf fynd y tu cefn i'r dafarn a chael rhyw gyda'r ferch hardd honno ac yna gallaf gerdded i ffordd ac anghofio am y ferch hardd. Dywedaf, ar ran yr holl ddynion yma, fod merched hardd sy'n gwneud hynny i ddynion ifanc golygus hefyd, ond mae'r gwrthwyneb yn llawer mwy cyffredin.

Credaf fod hyn mor drist. Mae gennyf ddau blentyn ifanc, fel y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod erbyn hyn—siaradaf amdanynt yn aml—ac rwy'n gwrandao ar rywfaint o'r gerddoriaeth y maent am siarad amdani, y maent yn ei chlywed yn yr ysgol. Rwy'n gwrandao ar y geiriau cyn imi adael iddynt ei chael. Rydych yn clywed rhai rapwyr yn cyfeirio at 'bitches' ac ati. Y diraddio cyson hwn o ran statws menywod. Y dywediad cyson hwn fod menywod yno i wasanaethu, bod menywod yno i blesio, bod menywod yno er pleser. Mae'n adlewyrchiad ofnadwy iawn o'n cymdeithas ac yn adlewyrchiad ofnadwy o'r ysbryd a'r gwirionedd rydym wedi eu meithrin yn y merched hynny wrth iddynt fynd drwy'r system addysg. Y cyfan y gallwn ei wneud yw dechrau ei newid, cam wrth gam, er mwyn ei ddisodli.

I do think that one of the bricks, Rebecca Evans, is to stop the page 3 girl. It is too old fashioned, but, more than that, it makes everything so casual. It stops women treasuring themselves and it certainly does not let young men grow up and treasure themselves. With youngsters, Aled Roberts made such a good point about how the young grow up, and they see these images. I was with David Melding, our Deputy Presiding Officer, Mark Isherwood, and Aled Roberts earlier on today at a cross-party group on looked-after children. We were talking about the sexual exploitation of children, and we listened to compelling evidence from the NSPCC. It is horrific what goes on out there in our names, with some of our knowledge, without any of us raising our hands to do anything about it.

Therefore, while I do not want to censor, and while I do not want to say to the gorgeous girl who might end up one day on the face of 'Vogue', or do whatever she wants to do with her life and with her body, 'Don't do it', I do want to say to her, 'Do it wisely, do it carefully, and do it with consideration. Do it because you feel empowered, and not because it is all you can think of to do'. I believe that something like page 3 in 'The Sun' newspaper exploits those very insecurities that young girls have.

Credaf mai un o'r camau, Rebecca Evans, yw atal merched tudalen 3. Mae'n rhy hen-ffasiwn, ond, yn fwy na hynny, mae'n gwneud popeth mor gyffredin. Mae'n atal menywod rhag trysori eu hunain ac yn sicr nid yw'n gadael i ddynion ifanc dyfu i fyny yn trysori eu hunain. O ran pobl ifanc, gwnaeth Aled Roberts bwynt da iawn am y ffordd y mae'r ifanc yn tyfu i fyny, ac yn gweld y lluniau hyn. Roeddwn gyda David Melding, ein Dirprwy Lywydd, Mark Isherwood, ac Aled Roberts yn gynharach heddiw mewn grŵp trawsbleidiol ar blant sy'n derbyn gofal. Roeddem yn trafod camfanteisio'n rhywiol ar blant, a chlywsom dystiolaeth rymus gan yr NSPCC. Mae'n arswydus beth sy'n digwydd yn ein henw ni, gyda rhywfaint o'n gwybodaeth, heb fod unrhyw un ohonom yn codi ein dwylo ac yn gwneud unrhyw beth amdano.

Felly, er nad wyf am sensro, ac er nad wyf am ddweud wrth y merched hardd a allai un dydd fod ar glawr 'Vogue', neu wneud beth bynnag y maent am ei wneud gyda'u bywydau a'u cyrff, 'Peidiwch â gwneud hynny', hoffwn ddweud wrthynt, 'Gwnewch hynny'n ddoeth, gwnewch hynny'n ofalus, a gwnewch hynny'n bwylllog. Gwnewch hynny am eich bod yn teimlo eich bod wedi eich grymuso, ac nid am mai hynny yw'r unig beth y gallwch feddwl am ei wneud'. Credaf fod rhywbeth fel tudalen 3 papur newydd 'The Sun' yn manteisio ar yr ansicrwydd hynny y mae merched ifanc yn ei deimlo.

15:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Jeff Cuthbert, to speak.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert, i siarad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:31 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I welcome the opportunity to respond on behalf of the Government to this debate. The Welsh Government is committed to gender equality. This is evident through our commitments, which are detailed in the programme for government, including enabling women to work, and encouraging them to aspire to and apply for public life. We want Wales to be a country where women are equally represented, and where there is fairness and equality for all.

Croesawaf y cyfle i ymateb ar ran y Llywodraeth i'r ddadl hon. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae hyn yn amlwg drwy ein hymrwymiaidau, y manylir arnynt yn y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys galluogi menywod i weithio, a'u hannog i anelu at fywyd cyhoeddus. Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae menywod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal, a lle mae tegwch a chydraddoldeb i bawb.

We have many fantastic female role models in Wales who have achieved much in non-traditional roles in Wales. We must continue to engage with them, to help us in tackling gender inequality. The work that was undertaken, for example, by Professor Laura McAllister at Sport Wales last year is a good example of how, through leadership, engagement and encouragement, we can ensure that public bodies in Wales increase the number of women on their boards. Again, the targeted, proactive work that we are undertaking in this area will tackle the gender imbalance that we see in many public sector boards in Wales to date.

Mae gennym lawer o fodelau rôl benywaidd gwych yng Nghymru sydd wedi cyflawni llawer mewn rolau anhraddodiadol yng Nghymru. Rhaid inni barhau i ymgysylltu â hwy, er mwyn ein helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r gwaith a wnaed, er enghraifft, gan yr Athro Laura McAllister yn Chwaraeon Cymru y llynedd yn enghraifft dda o sut y gallwn, drwy arweinyddiaeth, ymgysylltu ac anogaeth, sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cynyddu nifer y menywod ar eu byrddau. Unwaith eto, bydd y gwaith rhagweithiol ac wedi'i dargedu yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau a welwn ar lawer o fyrddau sector cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd.

I was pleased to speak at a seminar for the chairs of public sector boards on Monday. I was impressed by the determination of those who were present to change board representation in Wales. Fittingly, the seminar was held at Sport Wales, where the chair and the vice-chair are women.

Roeddwn yn falch o siarad mewn seminar i gadeiryddion byrddau sector cyhoeddus ddydd Llun. Gwnaeth penderfyniad y rhai a oedd yn bresennol i newid cynrychiolaeth byrddau yng Nghymru argraff arnaf. Yn briodol, cynhaliwtd y seminar yn Chwaraeon Cymru, lle mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn fenywod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Over recent years, we have heard of many women who are achieving in their chosen field, many of whom, I am pleased to say, we have in Wales. Many of you will know that the Presiding Officer, and the Minister for Local Government and Government Business, are also focused on work to increase diversity in public life. We have a long way to go in achieving true gender equality. When both sexes can say that they are treated equally, and that they do not suffer discrimination because of their gender, we will know that we are moving in the right direction.

Unfortunately, images of women portrayed as sexual objects still exist in our society. There is a strong link between gender inequality and page 3. Following the Olympics last year, we had a wealth of women who were successful, and who should rightly be celebrated for their achievements, as Joyce Watson pointed out. As Rebecca Evans said, the campaign began in 2012 when Lucy-Anne Holmes protested to 'The Sun' that, on the day after Jessica Ennis won her gold medal, the most widely available image was that of a half-naked woman on page 3 of that newspaper.

I am concerned that there are links between the portrayal of women as sexual objects and attitudes that underpin violence and discrimination against women and girls. This is not a Wales that we want for our current and future generations. It has been argued—and the point has been made here by several people—that page 3 could be claimed to be just a bit of harmless fun, and not hurting anyone. It has also been suggested that calling for a ban is censorship, when people can simply choose not to buy this newspaper. I broadly agreed with Lindsay Whittle's contribution; he described himself as a typical Welshman, which is true, of course, apart from his political affiliation. However, the key point of his contribution was, in fact, the intervention by Janet Finch-Saunders. I defend absolutely your right to hold whatever point of view you think is right, Janet; I would not deny that for one second, but I was surprised at the comments that you made. I believe that the young women who pose for those photographs are being exploited by the newspapers involved. They will make those newspapers a lot of money and only a small proportion will pass to the young woman concerned. Of course, those young women have no control whatsoever about the effects that the photos might have.

Page 3 normalises these images of women, regardless of whether or not we buy the paper. We are still aware of it and the potential harm that it can do. This will shock many people, but I am old enough to remember the 1970s, when page 3 began in 'The Sun', and the 1970s was a very different decade from this one. So, page 3 is out-dated and inappropriate, and I find it difficult to believe that in the second decade of the twenty-first century, a national newspaper can still carry such images.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi clywed am lawer o fenywod yn llwyddo yn eu dewis faes, y mae llawer ohonynt, rwy'n falch o ddweud, yma yng Nghymru. Bydd llawer ohonoch yn gwybod bod y Llywydd, a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, hefyd yn canolbwyntio ar waith i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus. Mae gennym lawer i'w wneud o hyd i gyflawni gwir gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Pan fydd y ddau ryw yn gallu dweud eu bod yn cael eu trin yn gyfartal, ac nad ydynt yn dioddef gwahaniaethu oherwydd eu rhyw, byddwn yn gwybod ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Yn anffodus, mae lluniau o fenywod yn cael eu portreadu fel gwrthrychau rhywiol yn dal i fodoli yn ein cymdeithas. Mae cysylltiad cryf rhwng anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thudalen 3. Yn dilyn y Gemau Olympaidd y llynedd, roedd gennym gyfoeth o fenywod a fu'n llwyddiannus, ac y dylid eu dathlu'n gywir ddigon am eu llwyddiannau, fel y nododd Joyce Watson. Fel y dywedodd Rebecca Evans, dechreuodd yr ymgyrch yn 2012 pan brotestiodd Lucy-Anne Holmes wrth 'The Sun', ar y diwrnod ar ôl i Jessica Ennis ennill ei medal aur, mai'r llun mwyaf cyffredin oedd llun o fenyw hanner noeth ar dudalen 3 y papur newydd hwnnw.

Pryderaf fod cysylltiadau rhwng portreadu menywod fel gwrthrychau rhywiol ac agweddau sy'n sail i drais a gwahaniaethu yn erbyn menywod a merched. Nid hon yw'r Gymru rydym am i'n cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol fyw ynddi. Dadleuwyd—ac mae sawl un wedi codi'r pwynt yma—y gellid honni mai dim ond ychydig o hwyl ddiniwed yw tudalen 3, ac nad yw'n brifo neb. Awgrymwyd hefyd fod galw am waharddiad yn gyfystyr â sensro, pan y gall pobl yn syml ddewis peidio â phrynu'r papur newydd hwn. Cytunaf yn fras â chyfraniad Lindsay Whittle; disgrifiodd ei hun yn Gymro nodweddiadol, sy'n wir, wrth gwrs, ar wahân i'w ymlyniad gwleidyddol. Fodd bynnag, pwynt allweddol ei gyfraniad, mewn gwirionedd, oedd yr ymyrraeth gan Janet Finch-Saunders. Amddiffynnaf yn llwyr eich hawl i gynnal pa safbwynt bynnag y credwch sy'n gywir, Janet; ni fyddwn yn gwadu hynny am eiliad, ond roeddwn yn synnu o glywed y sylwadau a wnaethoch. Credaf fod y menywod ifanc sy'n dewis ymddangos yn y lluniau hynny yn cael eu hecsbloetio gan y papurau newydd dan sylw. Byddant yn gwneud llawer o arian i'r papurau newydd hynny a dim ond cyfran fach a gaiff ei throsglwyddo i'r menywod ifanc dan sylw. Wrth gwrs, nid oes gan y menywod ifanc hynny unrhyw reolaeth o gwbl dros yr effeithiau y gallai'r lluniau eu cael.

Mae tudalen 3 yn normaleiddio'r lluniau hyn o fenywod, p'un a ydym yn dewis prynu'r papur ai peidio. Rydym yn dal yn ymwybodol ohonynt a'r niwed posibl y gallant ei wneud. Bydd hyn yn synnu llawer o bobl, ond rwy'n ddigon hen i gofio'r 1970au, pan ddechreuodd tudalen 3 ym mhapur newydd 'The Sun', ac roedd y 1970au yn ddegawd wahanol iawn i'r ddegawd hon. Felly, mae tudalen 3 yn hen-ffasiwn ac yn amhriodol, ac rwy'n ei chael hi'n anodd credu, yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain, y gall papur newydd cenedlaethol barhau i ddangos lluniau o'r fath.

Evidence shows that men and women living in a society where there is gender equality are happier than where gender inequality persists. We need to set the right example for our young people who are shaped by what they see around them. With ensuring that we get more women into high-profile, visible roles, and with these women acting as role models, we can set the right example for young girls and boys as they look ahead to a society where there is gender equality. We need to challenge and enable the aspirations of many young people, particularly in our more deprived areas. We want to hear girls say that they want to achieve, we want them to be inspired by different people and to have the confidence to reach for their goals. We can all help this to happen. As Minister for both tackling poverty and inequality, I now have ownership of the strategic equality plan and the tackling poverty action plan, and working closely with my Deputy Minister, we will ensure that both plans dovetail and contain key actions for furthering gender equality, such as challenging stereotypes in our schools and increasing the number of women in public appointments.

It is fair to say that we have seen improvements in Wales in terms of gender equality, but as this debate has highlighted today, there is always more that can be done. We are committed to making a stand where gender inequality persists and to taking action.

We support the motion, as tabled by Rebecca Evans, Lindsay Whittle, Suzy Davies and Aled Roberts, and thank them for the opportunity to respond to this debate. Dirprwy Lywydd, the Welsh Government will continue to do all that it can to pursue gender equality.

Dengys tystiolaeth fod dynion a menywod sy'n byw mewn cymdeithas lle mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn hapusach na lle mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn parhau. Mae angen inni osod yr esiampl gywir i'n pobl ifanc sy'n cael eu llywio gan yr hyn a welant o'u cwmpas. Drwy sicrhau bod mwy o fenywod yn cyflawni rolau proffil uchel, gweladwy, a sicrhau bod y menywod hyn yn gweithredu fel modelau rôl, gallwn osod yr esiampl gywir i ferched a bechgyn ifanc wrth iddynt edrych ymlaen at gymdeithas lle mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae angen inni herio a galluogi dyheadau llawer o bobl ifanc, yn enwedig yn ein hardaloedd mwy difreintiedig. Rydym am glywed merched yn dweud eu bod am gyflawni, rydym am iddynt gael eu hysbrydoli gan bobl wahanol a chael yr hyder i anelu at eu nodau. Gall pob un ohonom helpu i wireddu hyn. Fel y Gweinidog dros drechu tlodi ac anghydraddoldeb, mae gennyf bellach y cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, a chan weithio'n agos gyda fy Nirprwy Weinidog, byddwn yn sicrhau bod y ddau gynllun yn cydweddu ac yn cynnwys camau gweithredu allweddol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, megis herio ystrydebau yn ein hysgolion a chynyddu nifer y menywod mewn penodiadau cyhoeddus.

Mae'n deg dweud ein bod wedi gweld gwelliannau yng Nghymru o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ond fel y mae'r ddadl hon wedi nodi, gellid gwneud mwy bob amser. Rydym yn ymrwymedig i wneud safiad lle mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau'n parhau ac i gymryd camau.

Cefnogwn y cynnig hwn, fel y'i cyflwynwyd gan Rebecca Evans, Lindsay Whittle, Suzy Davies ac Aled Roberts, a diolchwn iddynt am y cyfle i ymateb i'r ddadl hon. Ddirprwy Lywydd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i fynd ar drywydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

15:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf yn awr ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bob Aelod sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Mae testun y sgwrs hon heddiw, wrth gwrs, wedi bod yn rhannu barn am ddegawdau: a yw tudalen 3 yn hwyl ddiniwed; a yw'n effeithio ar hunan-barch menywod ifanc; neu oes potensial i luniau tebyg i'r rhain arwain at ymddygiad mwy sinistr gan rhai pobl? Nid yw'r ddadl hon am sensoriaeth o gwbl. Nid ydym yn chwilio i newid y gyfraith o gwbl ac nid ydym yn erbyn rhyddid. Yr hyn rydym yn chwilio amdano gyda'r ddadl hon yw newid agwedd gan 'The Sun' ei hunan. Fel mae bron pawb wedi dweud heddiw, mewn gwlad gyfoes, lle mae ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a gwahaniaethu, mae'r delweddau hyn yn ysgytwol. Maen nhw'n bychanu menywod mewn ffordd anacronistig ac nid oes lle iddynt mewn papur teuluol.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and a thank you to all Members who have participated in this debate today. The topic of this discussion today has, of course, polarised opinions for decades: is page 3 innocent fun; does it impact upon the self-respect of young women; or is there potential for such images to lead to more sinister behaviour by certain people? This debate is not about censorship at all. We are not looking for any change in the law and we are not against freedom. What we are seeking with this debate is a change of heart by 'The Sun' newspaper itself. As most people have said today, in a modern nation, where there is an awareness of equality and discrimination, these images are shocking. They belittle women in an anachronistic way and there is no room for them in a family newspaper.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rebecca, you opened your contribution with an explanation of what the particular campaign is all about, but you made a very good point really early on, namely that women's place in society is a big issue, so this is not too small an issue for the Chamber to be discussing today. In particular, you mentioned the contribution that women make to the economy. I was particularly taken by a little bit of research that was done on the front page of 'The Sun'. I think that it was done over 10 days in a row. On three occasions, a woman featured on the front page of 'The Sun'. In turn, the three women were the Duchess of Cambridge, who is a woman defined by her marriage; Pippa Middleton, a woman who is defined by her sister's marriage; and Madeleine McCann, a girl who is defined by her being kidnapped. However, the seven men who took the front page during the course of those 10 days were all there as a result of their own professional achievements. I thought that that was an interesting illumination of the point that you were making.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.40 p.m.

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that you are absolutely right: this persistent trivialisation—and that is what page 3 is, I think—does not really help society to value women very much. You drew attention to better education regarding equality and you gave examples, as, indeed, did the Minister, of the Assembly setting a good example. However, there is this trickle system of undermining everything that has been achieved by pictures that we see on page 3.

Joyce Watson broadened the argument out and showed us this wider picture about the tabloid press generally and its depiction of women. You made such an important point that words matter just as much as pictures. Other Members referred to the 'John Inverdale scandal', and I think that it is a scandal. I do not think that we are being oversensitive about the way that he spoke about the woman who won Wimbledon the other day. It was absolutely ridiculous.

Lindsay actually even called page 3 'silly'. You referred to the stereotypical side of how we see page 3 as just one of those lovely little fun British traditions that we should perhaps applaud rather than scowl at. You referred to it, effectively, as being shallow. You then drew our attention to what I think is quite an important point, which is how these pictures can affect young boys and young girls. Some people come across the page 3 picture and perhaps have their first sight of a naked woman, God help them. It is a point that Aled Roberts also made. It is just as important to make the point that this is not just about how it might affect a young girl, but how it also affects young boys and their expectation of the other half of the population.

Rebecca, dechreuasoch eich cyfraniad drwy egluro'r ymgyrch yn benodol, ond gwnaethoch bwynt da iawn yn gynnar iawn, sef bod safle menywod mewn cymdeithas yn broblem fawr, felly nid yw hwn yn fater rhy fach i'r Siambr ei drafod heddiw. Yn benodol, soniasoch am y cyfraniad y mae menywod yn ei wneud at yr economi. Hoffais yn arbennig ychydig o waith ymchwil a wnaed ar dudalen flaen 'The Sun'. Credaf iddo gael ei wneud dros gyfnod o 10 diwrnod yn olynol. Yn eu tro, ymddangosodd tair menyw ar dudalen flaen 'The Sun', sef Duges Caergrawnt, menyw a ddiffinnir gan ei phriodas; Pippa Middleton, menyw a ddiffinnir gan briodas ei chwaer; a Madeleine McCann, merch a ddiffinnir gan y ffaith iddi gael ei herwgipio. Fodd bynnag, ymddangosodd y saith dyn a welwyd ar y dudalen flaen yn ystod y cyfnod hwnnw o 10 diwrnod o ganlyniad i'w cyflawniadau proffesiynol eu hunain. Credais fod hynny'n amlygu'r pwynt yr oeddech yn ei wneud yn ddiddorol iawn.

The Presiding Officer took the Chair at 3.40 p.m.

Credaf eich bod yn llygad eich lle: nid yw'r bychanu parhaus hwn—a dyna beth yw tudalen 3, yn fy marn i—yn helpu cymdeithas i werthfawrogi menywod ryw lawer. Gwnaethoch dynnu sylw at addysg well mewn perthynas â chydaddoldeb a rhoesoch enghreifftiau, fel, yn wir, y gwnaeth y Gweinidog, lle mae'r Cynulliad yn gosod esiampl dda. Fodd bynnag, ceir yma'r system ddiiferu hon lle mae popeth a gyflawnir yn cael ei danseilio gan y lluniau a welwn ar dudalen 3.

Ehangodd Joyce Watson y ddadl drwy ddangos inni'r darlun ehangach hwn o'r wasg tabloid yn gyffredinol a'r modd y mae'n portreadu menywod. Gwnaethoch bwynt mor bwysig bod geiriau yr un mor bwysig â lluniau. Cyfeiriodd Aelodau eraill at 'sgandal John Inverdale', a chredaf ei fod yn sgandal. Ni chredaf ein bod yn orsensitif ynglŷn â'r ffordd y siarodd am y fenyw a enillodd yn Wimbledon y diwrnod o'r blaen. Roedd yn gwbl hurt.

A dweud y gwir, galwodd Lindsay dudalen 3 yn 'wirion'. Cyfeiriasoch at yr agwedd ystrydebol ar y modd rydym yn ystyried tudalen 3 yn un o'r traddodiadau Prydeinig bach hyfryd hynny y dylem o bosibl ei ganmol yn hytrach na gwgu arno. Cyfeiriasoch ato, i bob pwrpas, fel rhywbeth arwynebol. Yna gwnaethoch dynnu ein sylw at bwynt eithaf pwysig yn fy marn i, sef y ffordd y gall y lluniau hyn effeithio ar fechgyn a merched ifanc. Mae rhai pobl yn dod ar draws llun tudalen 3 ac efallai'n gweld menyw noeth am y tro cyntaf. Duw â'u helpo. Mae'n bwynt a wnaed gan Aled Roberts hefyd. Mae'r un mor bwysig nodi nad yw'n ymwneud yn unig â sut y gallai effeithio ar ferch ifanc, ond sut y mae hefyd yn effeithio ar fechgyn ifanc a'u disgwyliad o hanner arall y boblogaeth.

In terms of Janet's intervention, I do not think that there is any point in any of us ignoring that this is a point of view. I did prepare a response for you, but Angela broadly made it for me by asking why, in the world today, a woman would particularly choose to make this her career choice. However, she is free to do so if she wants. She is also free to do it in other places. One of the problems that we have today is the many celebrity magazines, 'lads' mags' and so forth that we have, but, if that is what she wants to do, do it there, not on page 3 of a family newspaper.

Ann Jones changed the tempo of this. You talked about the incredibly serious matters of violence and bullying towards women. I am pleased to say that you did not directly blame page 3, but you used it as a part of a larger argument that the objectification of women can contribute to a wider malevolent view of women. I am also pleased that you did not pursue an argument that all men are rapists and all this stuff that we are used to hearing. It is difficult to approach such a difficult debate as this—and I think that someone else mentioned that it was for another day—without acknowledging that this, for some, might just be the beginning of it. A point that Bethan Jenkins went on to make, when we were talking about abuse more generally and body image, is that you cannot overlook the existence of page 3 in people's lives early on. You also mentioned that this casual sexism—if I can even call it that now—is not confined to the red tops. You reinforced Joyce's point about images and writing going beyond the limits of what even the broad-minded among us consider acceptable. For example, the woman who was murdered then having her picture on the front page in her bikini. For me, that is up there in terms of line-crossing as the close-up of shots of bereaved mothers whose child has been snatched, abducted and killed after sexual exploitation.

Aled Roberts, like Bethan, reminded us of the subversive effect of this type of image and other images in the same vein, and how it can perhaps inadvertently affect self-image and self-respect. I have to confess that, as an early blossomer—if I could put it thus—I was absolutely mortified by the teasing that I had by perfectly nice boys at school who thought that they were just being funny, or even flattering on some occasions, in being compared to a page 3 girl.

So, Minister, I thank you for your commitment to equality. I think that this Assembly does have a good record. It is something that I am always proud to say about this place; even though the numbers of men and women in the Chamber change slightly, on balance, we have done a pretty good job of showing that a legislature can be evenly balanced and even-handed. I applaud this place.

I particularly thank you for mentioning Laura McAllister, as well as Jessica Ennis, in your contribution. Those are the kinds of role models that I would like my son or daughter to follow, rather than someone who has perhaps chosen to follow a career in the page 3 style.

O ran ymyriad Janet, ni chredaf fod unrhyw ddiben i unrhyw un ohonom anwybyddu'r ffaith mai barn ydyw. Paratoais ymateb ichi, ond ymatebodd Angela yn fras ar fy rhan drwy ofyn pam, yn yr oes sydd ohoni, y byddai menyw'n dewis gwneud hyn fel gyrfa. Fodd bynnag, mae perffaith rhyddid iddi wneud hynny os yw'n dymuno. Mae rhyddid iddi hefyd ei wneud mewn mannau eraill. Un o'r problemau sydd gennym heddiw yw'r llu o gylchgronau am bobl enwog, cylchgronau i ddynion ac ati, sy'n bodoli, ond, os mai dyna y mae am ei wneud, dylai ei wneud yn y cylchgronau hynny, nid ar dudalen 3 papur newydd teuluol.

Newidiodd Ann Jones y tempo. Soniasoch am y materion hynod ddifrifol yn ymwneud â thrais a bwlio menywod. Rwy'n falch o ddweud nad oeddech yn rhoi'r bai yn uniongyrchol ar dudalen 3, ond gwnaethoch ei defnyddio fel rhan o ddadl ehangach y gall gwrthrychioli menywod gyfrannu at safbwyntiau maleisus ehangach am fenywod. Rwyf hefyd yn falch na wnaethoch ddadlau bod pob dyn yn dreisiwr a'r holl bethau hynny rydym fel arfer yn eu clywed. Mae'n anodd ymdrin â dadl mor anodd—a chredaf i rywun arall grybwyll bod honno'n ddadl ar gyfer diwrnod arall—heb gydnabod mai dim ond megis dechrau yw hyn o bosibl, i rai. Un pwynt yr aeth Bethan Jenkins ymlaen i'w wneud, wrth inni sôn am gam-drin yn fwy cyffredinol a delwedd y corff, yw na allwch anwybyddu bodolaeth tudalen 3 ym mywydau pobl yn gynnar. Soniasoch hefyd nad yw'r rhywiaeth achlysurol hon—os gallaf hyd yn oed ei galw'n hynny yn awr—bellach wedi'i gyfyngu i'r papurau newydd tabloid. Gwnaethoch atgyfnerthu pwynt Joyce ynglŷn â'r ffaith bod lluniau a thestun ysgrifenedig yn mynd y tu hwnt i derfynau'r hyn y mae hyd yn oed y rhai mwyaf eangfrydig yn ein plith yn ei ystyried yn dderbyniol. Er enghraifft, y fenyw a lofruddiwyd ac y dangoswyd wedyn lun ohoni yn ei bicini ar y dudalen flaen. Yn fy marn i, mae hynny'n croesi'r llinell bron i'r un graddau â lluniau agos o famau mewn profedigaeth y mae eu plentyn wedi'i gipio a'i ladd yn dilyn cam-fanteisio rhywiol.

Atgoffodd Aled Roberts, fel Bethan, ni o effaith danseiliol lluniau o'r fath a lluniau eraill yn yr un modd, a sut y gall o bosibl gael effaith anuniongyrchol ar hunanddelwedd a hunan-barch. Rhaid imi gyfaddef, fel rhywun a aeddfedodd yn gynnar—os caf ei roi felly—imi deimlo cywilydd mawr wrth gael fy mhoeni gan fechgyn digon dymunol yn yr ysgol, a oedd yn credu eu bod yn ddoniol, neu hyd yn oed yn fy seboni weithiau, wrth fy nghymharu â merch tudalen 3.

Felly, Weinidog, diolchaf ichi am eich ymrwymiad i gydraddoldeb. Credaf fod gan y Cynulliad hwn hanes da. Mae'n rhywbeth yr wyf bob amser yn falch o'i ddweud am y lle hwn; er bod nifer y dynion a'r menywod yn y Siambr yn newid ychydig, ar y cyfan, rydym wedi gwneud gwaith eithaf da wrth ddangos y gall deddfwrfa fod yn gytbwys ac yn deg. Cymeradwyaf y lle hwn.

Diolchaf yn arbennig ichi am grybwyll Laura McAllister, yn ogystal â Jessica Ennis, yn eich cyfraniad. Dyna'r math o fodolau rôl yr hoffwn i'm mab neu ferch eu dilyn, yn hytrach na rhywun sydd efallai wedi dewis dilyn gyrfa ym maes tudalen 3.

I wanted to mention a couple of things to elaborate on the arguments that others have made. In terms of sexualised or trivialised pictures of women, I believe that there are more subversive examples than page 3. [Interruption.] This is something that was picked up by the Leveson inquiry, and I want to mention today's 'The Sun'. There was a big front-cover advert for a discount family holiday—all nice and colourful. Inside, we had a page 3 girl; a story about a woman who was looking for a breast reduction so that she could become a glamour model; a still from a certificate-18 film about a porn king, showing a topless actress; and a double-page spread about murderers, including pictures of Mark Bridger, Ian Brady and Rosemary West, whose attitudes to girls and young women could hardly be described as healthy. Why am I getting so agitated about topless pictures of normal young women? I am not agitated about it. These euro-trash, girly calendar images are ones that you do not see very often, partly due to legislation, as Rebecca said, and partly because public places are not places for this kind of imagery at all.

In the course of my work, I met a young man who had gone into a traditional male workplace—I will put it no stronger than that. All around the place, there were girly calendars. This young man happened to be gay. During breaks at work, he had 'The Sun' thrust in front of him several times, and his colleagues said, 'Phwoar, matey, what do you think of that?' He did not know what to do with himself as a result of this. Not only did he find the pictures genuinely offensive, but there was no understanding that he might not be like these other men, who find this sort of thing attractive.

Finally, there are some other things that I could say here. At an earlier point in this decade-old discussion of equality, there was a time when women reached the stage when they said, 'I tell you what, I will show you my peaches if you show me your plums on page 7 of 'The Daily Star'.' However, I want to keep my fruit bowl at home. I do not want to see anyone's fruit bowl on the pages of tabloids. [Laughter.] I realise that that is bringing levity back to the subject, but the levity has gone from it, really. Apologies for raising that when, perhaps, I should not.

The final point that I want to make today relates to some work experience people that I have had in today. I have asked them to do a bit of research on this, because they are youngsters—they are teenagers. They have been looking at websites—all perfectly safe, I assure you, Presiding Officer—such as Digital Spy and the kind of social networking sites that they look at. The most depressing thing that they came up with was as follows. There were several quotations on these sites, but this is the one that summarises them:

'Whilst I find Page Three trashy, I honestly have yet to meet many men that get off on it. In fact, they seem to have been desensitised to it now.'

Hoffwn grybwyll ychydig bethau er mwyn ymhelaethu ar y dadleuon a wnaed gan eraill. O ran lluniau sy'n rhywioli neu'n bychanu menywod, credaf fod enghreifftiau mwy tanseiliol na thudalen 3. [Torri ar draws.] Mae hyn yn rhywbeth y tynnwyd sylw ato yn ymchwiliad Leveson, a hoffwn sôn am rifyn heddiw o 'The Sun'. Roedd hysbysiad mawr ar y clawr blaen ar gyfer gwyliau i'r teulu am bris gostyngol—a oedd yn ddeniadol ac yn lliwgar. Y tu mewn, roedd gennym ferch tudalen 3; stori am fenyw a oedd yn chwilio am driniaeth i leihau maint ei bronnoeth er mwyn iddi allu bod yn fodel bronnoeth; llun llonydd allan o ffilm tystysgrif 18 am frenin y byd porn, yn dangos actores fronnoeth; a stori dros ddwy dudalen am lofruddion, gan gynnwys lluniau o Mark Bridger, Ian Brady a Rosemary West, na ellid dweud bod ganddynt agweddau iach at ferched a menywod ifanc o bell ffordd. Pam fy mod yn cynhyrfu cymaint ynglŷn â lluniau bronnoeth o fenywod ifanc normal? Nid yw'n fy nghynhyrfu. Nid ydych yn gweld y lluniau hyn, sy'n debyg i luniau mewn calendrau merchetaidd sothach, yn aml iawn, yn rhannol oherwydd deddfwriaeth, fel y dywedodd Rebecca, ac yn rhannol am nad yw manau cyhoeddus yn fannau addas o gwbl ar gyfer lluniau o'r fath.

Fel rhan o'm gwaith, cyfarfûm â dyn ifanc a oedd wedi ymuno â gweithle gwrywaidd traddodiadol—ni ddywedaf fwy na hynny. Roedd calendrau merchetaidd ym mhob man. Roedd y dyn ifanc hwn fel mae'n digwydd yn hoer. Yn ystod seibiannau yn y gwaith, byddai 'The Sun' yn aml yn cael ei wthio o'i flaen, a byddai ei gydweithwyr yn gofyn 'Beth wyt ti'n ei feddwl o hynny?' Nid oedd yn gwybod ble i droi o ganlyniad i hyn. Nid yn unig yr oedd yn credu bod y lluniau yn gwbl sarhaus, ond nid oedd unrhyw ddealltwriaeth nad oedd o bosibl fel y dynion hyn, sy'n credu bod y math hwn o beth yn ddeniadol.

Yn olaf, mae rhai pethau eraill y gallwn eu dweud yma. Yn gynharach yn y ddadl hon ar gydraddoldeb sy'n rhychwantu degawd, roedd adeg pan fyddai menywod yn cyrraedd pwynt pan fyddent yn dweud 'Fe ddangosa i fy eirin gwlanog os ddangosi di dy eirin ar dudalen 7 'The Daily Star'.' Fodd bynnag, rwyf am gadw fy mhowlen ffrwythau adref. Nid wyf am weld powlen ffrwythau unrhyw un ar dudalennau papurau newydd tabloid. [Chwerthin.] Sylweddolaf fod hynny'n ysgafnhau'r pwnc unwaith eto, ond mae'r ysgafnder wedi diflannu, mewn gwirionedd. Ymddiheuraf am godi'r pwynt hwnnw pan na ddylwn, efallai, fod wedi gwneud hynny.

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei wneud heddiw yn ymwneud â phobl a fu gyda mi heddiw ar brofiad gwaith. Rwyf wedi gofyn iddynt wneud ychydig o waith ymchwil ar hyn, oherwydd maent yn ifanc—maent yn eu harddegau. Maent wedi bod yn edrych ar wefannau—y mae pob un ohonynt yn gwbl ddiogel, rwy'n eich sicrhau, Lywydd—megis Digital Spy a'r math o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol y maent yn eu defnyddio. Y peth mwyaf digalon y gwnaethant ddod o hyd iddo oedd fel a ganlyn. Roedd sawl dyfyniad ar y safleoedd hyn, ond dyma'r un sy'n eu crynhoi:

'Er bod Tudalen Tri yn sothach yn fy marn i, gallaf ddweud yn onest nad wyf wedi cwrdd â llawer o ddynion sy'n cyffro wrth ei gweld. Mewn gwirionedd, ymddengys eu bod wedi'u dadsensiteiddio i'r holl beth erbyn hyn.'

That, I think, is just as chilling as some of the horrible things that we have heard in the Chamber today. Forty-two years of page 3 has desensitised us to each other. The fact that we look at a 2-D picture of a 3-D woman without any response to it at all is perhaps the most depressing thing that page 3 has ever done.

Credaf fod hynny yr un mor ddychrynlyd â rhai o'r pethau erchyll rydym wedi eu clywed yn y Siambr heddiw. Mae 42 mlynedd o dudalen 3 wedi ein dadsensiteiddio. Y ffaith ein bod yn edrych ar lun 2-D o fenyw 3-D heb ymateb iddo o gwbl o bosibl yw'r peth mwyaf digalon y mae tudalen 3 wedi ei wneud erioed.

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, so the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49 **Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to move the motion.

Cynnig NDM5292 David Melding

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2013.

The Constitutional and Legislative Y Affairs Committee's Report on the Inquiry into the Council Tax Reduction Schemes

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gynnig y cynnig.

Motion NDM5292 David Melding

The National Assembly for Wales:

Notes the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on its inquiry into the Council Tax Reduction Schemes Regulations, which was laid in the Table Office on 21 May 2013.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I am very pleased to be able to open this debate today on the Constitutional and Legislative Affairs Committee's inquiry into the Welsh Government's regulations on council tax reduction schemes. Members will be familiar with the background to these regulations, and I do not intend to rehearse all of that material for the purposes of this debate. I should also point out that, when I refer to the Minister, I am referring to the predecessor in that office, and not to the Minister who is here to reply to this debate this afternoon.

Cynigiau y cynnig.

Rwy'n falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw ar ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i reoliadau Llywodraeth Cymru ar gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â chefnidir y rheoliadau hyn, ac ni fwrriadaf ailadrodd yr holl ddeunydd hwnnw at ddibenion y ddadl hon. Dylwn hefyd nodi, wrth gyfeirio at y Gweinidog, fy mod yn cyfeirio at y rhagflaenydd yn y swydd honno, ac nid at y Gweinidog sydd yma i ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In our report, we identified two main areas of concern. First was the lack of communication between the UK and Welsh Governments. We accepted that the development of a new council tax reduction scheme was not going to be easy, and that it presented the Welsh Government with significant challenges. However, the lack of communication between the UK Government and the Welsh Government on this important area of public policy was disappointing. In our view, it did not help the efficient and effective development of a new scheme, and it undoubtedly contributed to the difficulties that the Welsh Government faced in bringing forward its legislative proposals. In reaching this view, we noted that the corresponding legislative delays did not occur in England and Scotland. Given the nature of the devolution settlement, timely communication and good relationships between the Welsh Government and the UK Government are vital in securing the delivery of good and effective law in Wales. This is an issue that we will continue to monitor and take close interest in during the remainder of the fourth Assembly.

The second main area of concern related to the specific way in which the legislative solution was delivered. As I have said, the Welsh Government faced potential difficulties in developing a new council tax reduction scheme. Nevertheless, we believe that there are lessons that the Welsh Government should learn about its approach to dealing with new and complex policy areas. The methodology and planning of such work are, rightly, internal matters for the Welsh Government to review. As part of that work, however, it must ensure that its processes minimise the risk of this episode being repeated. Of course, where the approach taken by the Welsh Government impacts on the work of the legislature, it is right that we comment. It is to those issues that I now turn.

Overall, we felt that the delivery of this legislation could have been handled better by the Minister, particularly given the considerable implications that it had for people across the whole of Wales. The Minister knew that subordinate legislation would be needed to deliver the new council tax reduction scheme, having sought these powers from the UK Government in May 2012, yet he waited until 5 November 2012 before engaging directly with our committee. Royal Assent to the UK Government's Local Government Act 2012 was delayed, and it was not received until 1 November 2012. However, we did not believe that this fact should have had any bearing on the timing of the Minister's engagement with our committee. In fact, if the Minister considered that this delay in receiving Royal Assent could have had a negative impact on his ability to bring forward the relevant legislation in a timely fashion, he could, and should, have brought it to our attention at the earliest possible opportunity.

Yn ein hadroddiad, nodwyd dau brif faes o bryder. Y cyntaf oedd diffyg cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd na fyddai'r gwaith o ddatblygu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor newydd yn hawdd, a'i fod yn creu heriau sylweddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y diffyg cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y maes pwysig hwn o bolisi cyhoeddus yn siomedig. Yn ein barn ni, nid oedd yn helpu i ddatblygu cynllun newydd effeithlon ac effeithiol, ac yn ddiaw cyfrannodd at yr anawsterau a wynebai Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno ei chynigion deddfwriaethol. Wrth ddod i'r farn hon, nodwyd na fu oedi deddfwriaethol cyfatebol yn Lloegr nac yn yr Alban. O gofio natur y setliad datganoli, mae cyfathrebu amserol a chydberthnasau da rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn hanfodol i sicrhau y llunir cyfraith dda ac effeithiol yng Nghymru. Mae hwn yn fater y byddwn yn parhau i'w fonitro a chymryd diddordeb mawr ynddo yn ystod gweddill y pedwerydd Cynulliad.

Roedd yr ail brif faes o bryder yn ymwneud â'r ffordd benodol y cyflwynwyd yr ateb deddfwriaethol. Fel y dywedais, wynebai Llywodraeth Cymru anawsterau posibl wrth ddatblygu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor newydd. Serch hynny, credwn fod gwersi y dylai Llywodraeth Cymru eu dysgu am ei dull o ymdrin â meysydd polisi newydd a chymhleth. Mae methodoleg gwaith o'r fath a'r broses o'i gynllunio yn faterion mewnol i Lywodraeth Cymru eu hadolygu, a hynny'n gwbl briodol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, fodd bynnag, rhaid iddi sicrhau bod ei phrosesu'n lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto. Wrth gwrs, os bydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn effeithio ar waith y deddfwrfra, mae'n briodol ein bod yn gwneud sylwadau. At y materion hynny y trof yn awr.

Yn gyffredinol, roeddem yn teimlo y gallai'r Gweinidog fod wedi ymdrin â'r broses o gyflwyno'r deddfwriaeth hon yn well, yn enwedig o ystyried y goblygiadau sylweddol i bobl ledled Cymru. Gwyddai'r Gweinidog y byddai angen is-ddeddfwriaeth i roi'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor newydd ar waith, ar ôl gofyn am y pwerau hyn gan Lywodraeth y DU ym mis Mai 2012, ac eto arhosodd tan 5 Tachwedd 2012 cyn cysylltu'n uniongyrchol â'n pwyllgor. Bu oedi cyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2012 Llywodraeth y DU ac ni chafodd ei roi tan 1 Tachwedd, 2012. Fodd bynnag, ni chredwn y dylai'r ffaith hon gael unrhyw effaith ar amseriad ymwneud y Gweinidog â'n pwyllgor. Yn wir, os yw'r Gweinidog o'r farn y gallai'r oedi hwn cyn derbyn Cydsyniad Brenhinol fod wedi cael effaith negyddol ar ei allu i gyflwyno'r deddfwriaeth berthnasol mewn modd amserol, gallai, a dylai, fod wedi ei ddwyn i'n sylw cyn gynted â phosibl.

In the Minister's letter of 5 November, he asked us to agree an advance date for consideration of the regulations, so that it would not be necessary to observe the standard 20-day period prior to the holding of a Plenary debate on 5 December. In our response of 9 November, we indicated that this may not be possible, given the length and complexity of the regulations. However, in the event, the Minister did not lay the final regulations until the day of the Plenary debate on 5 December, following receipt of financial information from the UK Government. So, even if we had been able to give an advance date for consideration of the regulations, and thereby help the Minister, he would not have been able to deliver the regulations to us, on his terms, to enable scrutiny on the agreed date. This highlights the importance of engaging with us at the earliest opportunity.

We noted the emphasis that the Welsh Government has placed on the delay to the regulations being caused by the timing of the UK Government's autumn statement and announcement relating to the final funding settlement. In our view, the regulations could, and should, have been laid. They should have been laid with indicative financial figures, within an appropriate time frame to allow for scrutiny of such lengthy and complex regulations, and to allow us to report in time for the Plenary debate on 5 December. If this approach had been adopted, it would have been open to the committee to report to the Assembly and highlight any issues of concern, such as uncertainty over the funding settlement, as merit points. This would have been a much more open and transparent way of proceeding.

In the circumstances of these particular regulations, we concluded that the Welsh Government confused the political process with the legislative process. In so doing, we believe that the Welsh Government may, at times, have lost sight of the Assembly's fundamental role as a legislative body.

As will be apparent from what I have already said, we also concluded that the Minister should have drawn our attention to his concerns about the making of these regulations much earlier in the process. Notifying the committee on 5 November of the problems anticipated was simply too late. The Minister also needed to be clearer on the reason why regulations were not likely to be in place when he wanted.

This reinforces the need for scrutiny to have taken place on a draft set of regulations with an explanation of the outstanding matters. We expect the Welsh Government to follow that practice in future, if this type of eventuality is ever repeated. As such, we strongly recommend that, when the Welsh Government is to make subordinate legislation that is complex and lengthy in nature, or when it is facing time constraints, it seeks to engage with the Constitutional and Legislative Affairs Committee and any relevant subject committee at the earliest opportunity. This may, for example, mean providing the committee with advance copies of draft regulations and a clear explanation of the reasons why this is being done.

Yn llythyr y Gweinidog ar 5 Tachwedd, gofynnodd inni gytuno ar ddyddiad ymlaen llaw i ystyried y rheoliadau, fel na fyddai angen cadw at y cyfnod safonol o 20 diwrnod cyn cynnal dadl mewn Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr. Yn ein hymateb ar 9 Tachwedd, nodwyd efallai na fyddai hyn yn bosibl, o gofio hyd a chymhlethdod y rheoliadau. Fodd bynnag, fel y digwyddodd, ni osododd y Gweinidog y rheoliadau terfynol tan ddiwrnod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr, ar ôl cael gwybodaeth ariannol gan Lywodraeth y DU. Felly, hyd yn oed pe gallem fod wedi rhoi dyddiad ymlaen llaw i ystyried y rheoliadau, a thrwy hynny helpu'r Gweinidog, ni fyddai wedi gallu cyflwyno'r rheoliadau i ni, ar ei delerau ei hun, er mwyn craffu arnynt ar y dyddiad y cytunwyd arno. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â ni cyn gynted â phosibl.

Nodwyd y pwyslais y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi ar y ffaith bod y rheoliadau wedi'u gohirio oherwydd amseriad datganiad hydref Llywodraeth y DU a'r cyhoeddiad yn ymwneud â'r setliad ariannu terfynol. Yn ein barn ni, gallai a dylai'r rheoliadau fod wedi cael eu gosod. Dylent fod wedi cael eu gosod gyda ffigurau ariannol dangosol, o fewn amserlen briodol er mwyn rhoi cyfle inni graffu ar reoliadau mor hirfaith a chymhleth, ac er mwyn ein galluogi i gyflwyno adroddiad ar hyn erbyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi gweithredu felly, byddai wedi bod yn rhydd i'r pwyllgor roi adroddiad i'r Cynulliad a thynnu sylw at unrhyw feysydd a fu'n achos pryder, megis ansicrwydd ynghylch y setliad ariannu, fel pwyntiau rhinwedd. Byddai hyn wedi bod yn ffordd fwy agored a thryloyw o lawer o symud ymlaen.

O dan amgylchiadau'r rheoliadau penodol hyn, daethom i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi drysu'r broses wleidyddol â'r broses deddfwriaethol. Wrth wneud hynny, credwn fod Llywodraeth Cymru, ar adegau, wedi colli golwg o bosibl ar rôl sylfaenol y Cynulliad fel corff deddfwriaethol.

Fel y bydd yn amlwg o'r hyn yr wyf eisoes wedi'i ddweud, daethom i'r casgliad hefyd y dylai'r Gweinidog fod wedi tynnu ein sylw at ei bryderon ynghylch gwneud y rheoliadau hyn yn llawer cynharach yn y broses. Roedd hysbysu'r pwyllgor ar 5 Tachwedd o'r problemau a ragwelwyd yn rhy hwyr. Roedd angen i'r Gweinidog hefyd egluro'n well y rheswm pam nad oedd y rheoliadau'n debygol o fod ar waith yn ôl ei ddymuniad.

Mae hyn yn atgyfnerthu'r ffaith bod angen craffu ar set ddrafft o reoliadau gydag esboniad o'r materion a oedd yn weddill. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddilyn yr arfer hwnnw yn y dyfodol, os byth y bydd achos tebyg yn codi eto. Fel y cyfryw, rydym yn argymhell yn gryf, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n gymhleth ac yn hirfaith ei natur, neu pan fydd yn wynebu cyfyngiadau amser, y dylai geisio ymgysylltu â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac unrhyw bwyllgor pwnc perthnasol cyn gynted â phosibl. Gall hyn, er enghraifft, olygu rhoi copiâu o'r rheoliadau drafft ymlaen llaw i'r pwyllgor ac esboniad clir o'r rhesymau pam mae hyn yn cael ei wneud.

I cannot over-emphasise how important this recommendation is. It seeks to enable the committee to undertake, in good time, the technical scrutiny for which it is responsible. We want to work effectively with the Welsh Government to ensure that legislative scrutiny improves the quality of legislation and, ultimately, benefits people across Wales.

In closing, I repeat the views expressed in our letter of 9 November 2012 to the Minister and subsequently in Plenary on 19 December 2012: the Constitutional and Legislative Affairs Committee will always endeavour to work flexibly to assist the Welsh Government, and, as such, to consider statutory instruments in a shorter period than the 20 days set under Standing Orders—particularly where the instruments in question are short or have already been considered in draft. However, we must—and we will—balance this approach against our obligations to scrutinise legislation effectively and in an open and transparent manner. The 20-day notice period is the norm, and it must be respected by the Welsh Government. There will only be occasional instances where it is reasonable and in the public interest to shorten this notice period.

Llywydd, in conclusion, we were grateful to the Minister for assisting us fully with this inquiry. He was indeed candid and open in the evidence sessions, and that certainly enabled us to make this report.

15:58

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Much has been made here today, perhaps rightly, of the systems and processes that were gone through to pass this legislation. I think that we would all do well to remember that the systems and processes that transferred the funding to the devolved administration went through by a simple announcement, without any prior engagement with the Welsh Government. Further to that, there was a 10% cut in that budget. We would also do well to remember that, despite numerous attempts to find out the finite figure that would be relied on to come up with a formula that would allow some scrutiny of this legislation, it was not forthcoming. I suppose that what I am saying here is that it is not just a single, one-way debate that is going on. However, I have seen the report, and I accept that there are lessons that need to be learned, and I am sure that the Minister equally accepts that. Indeed, maybe a sunset clause would allow that. However, we also need to remember that what we achieved in bringing this legislation forward was that those people who were in desperate need at that time gained from the delivery of a council tax benefit that the Assembly agreed on, and which would fund the shortfall. People would have been severely disadvantaged—people who are struggling and are already severely disadvantaged would have been further disadvantaged if we had done nothing. At least what we did—and I am proud that we did what we did—protected those people from a serious cut to their finances at a significant time for them.

Ni allaf orbwysleisio pa mor bwysig yw'r argymhelliad hwn. Mae'n ceisio galluogi'r pwyllgor i ymgymryd, mewn da bryd, â'r gwaith craffu technegol y mae'n gyfrifol amdano. Rydym yn awyddus i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod craffu deddfwriaethol yn gwella ansawdd y ddeddfwriaeth ac, yn y pen draw, ei fod o fudd i bobl ledled Cymru.

Wrth gloi, ailadroddaf y farn a fynegwyd yn ein llythyr dyddiedig 9 Tachwedd 2012 at y Gweinidog ac wedi hynny yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Rhagfyr 2012: bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bob amser yn ymdrechu i weithio'n hyblyg i gynorthwyo Llywodraeth Cymru, ac, fel y cyfryw, i ystyried offerynnau statudol mewn cyfnod byrrach na'r 20 diwrnod a bennwyd o dan y Rheolau Sefydlog—yn enwedig pan fo'r offerynnau dan sylw yn fyr neu eisoes wedi cael eu hystyried ar ffurf ddrafft. Fodd bynnag, rhaid inni gydbwysu'r dull gweithredu hwn â'n rhwymedigaethau i graffu ar ddeddfwriaeth yn effeithiol ac mewn ffordd agored a thryloyw—ac fe wnawn hynny. Y cyfnod rhybudd o 20 diwrnod yw'r cyfnod arferol, a rhaid iddo gael ei barchu gan Lywodraeth Cymru. Dim ond ar adegau achlysurol lle mae'n rhesymol ac er budd y cyhoedd y bydd yn briodol byrhau'r cyfnod rhybudd hwn.

Lywydd, i gloi, roeddem yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ein cynorthwyo yn llawn â'r ymchwiliad hwn. Roedd yn wir yn onest ac yn agored yn y sesiynau tystiolaeth, ac mae hynny'n sicr wedi ein galluogi i lunio'r adroddiad hwn.

Mae llawer o bwys wedi ei roi heddiw ar y systemau a'r prosesau a ddilynwyd er mwyn pasio'r ddeddfwriaeth hon, a hynny'n briodol efallai. Credaf y byddai'n dda i bob un ohonom gofio mai drwy gyhoeddiad syml y rhoddwyd gwybod am y systemau a'r prosesau a drosglwyddodd yr arian i'r weinyddiaeth datganoledig, heb unrhyw ymwneud ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, cafwyd gostyngiad o 10% yn y gyllideb honno. Byddai'n dda hefyd inni gofio, er gwaethaf yr ymdrechion lu i gael y ffigur terfynol y dibynnid arno i lunio fformiwla a fyddai'n golygu y gellid craffu rhywfaint ar y ddeddfwriaeth hon, ni ddaeth i law. Hynny yw, yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw nad un ddatl unffordd yn unig sy'n cael ei chynnal. Fodd bynnag, rwyf wedi gweld yr adroddiad, a derbynaf fod gwersi y mae angen eu dysgu, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn yr un modd yn derbyn hynny. Yn wir, efallai y byddai cymal machlud yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae angen inni gofio hefyd mai'r hyn a gyflawnwyd gennym wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn gynt oedd bod y bobl hynny a oedd ag angen dybryd ar yr adeg honno ar eu hennill o ganlyniad i fudd-dal y dreth gyngor yr oedd y Cynulliad wedi cytuno arno, ac a fyddai'n ariannu'r diffyg. Byddai pobl wedi bod o dan anfantais ddirifol—byddai pobl sy'n ei chael hi'n anodd ac sydd eisoes o dan anfantais ddirifol o dan anfantais bellach pe na baem wedi gwneud rhywbeth. O leiaf gwnaeth yr hyn a wnaethom—ac rwy'n falch o'r hyn a wnaethom—ddiogelu'r bobl hynny rhag gweld gostyngiad mawr yn eu harian ar adeg bwysig iddynt hwy.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, moving forward, I think that we have to realise that financial realities will mean that the Welsh Government will be hugely and impossibly challenged to meet those costs again. The change is, essentially, a change at all levels of government. We must work together with other levels of government to ensure a funding package that meets the needs of those council tax benefit recipients. Moving forward, we need to look at a shared scheme, with shared ownership by the Assembly and local authorities. Local authorities must help to come up with the solutions and share the costs.

I also believe that vulnerable people must continue to be a priority. They must continue to be supported at a 100% level. I know that there are people here who have taken issue with the process—quite rightly in some cases, I would argue. However, I will also defend my decision, and that of the Government, to vote this through for the most vulnerable of people. Now that we have the time, I hope that we will come up with a scheme that everybody feels that they can support.

16:02 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar i Gadeirydd y pwyllgor yr wyf yn gwasanaethu arno am osod allan mor glir y gwersi sydd i'w dysgu o'r profiad hwn. Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedodd; ni wnaf ond rhoi fy argraff i o'r broses a'r hyn y gallwn ddysgu ohoni wrth fynd ymlaen.

Gan ddechrau ar yr ochr positif, mae angen i ni dderbyn, beth bynnag oedd yr helynt a'r drafferth a gawsom wrth bennu'r rheoliadau hyn, yn y pen draw, cafwyd rheoliadau a oedd yn well achos ein bod wedi cael mwy o amser i'w hystyried a bod cymal machlud wedi cael ei ddodi ynddynt. Hefyd, cafwyd canlyniad gwell ar gyfer y bobl hynny a oedd yn mynd i gael eu heffeithio gan benderfyniad yn San Steffan. Roedd cyfnod pan oedd y Llywodraeth yn gallu canfod arian ychwanegol—tua £20 miliwn—ar gyfer y flwyddyn hon, beth bynnag. Mae angen dweud bod y system, yn y pen draw, wedi gweithio ac wedi llwyddo cyrraedd canlyniad a oedd yn well na'r hyn a oedd yn bodoli ar y dechrau.

Rwyf hefyd am ddweud ein bod yn gweld hwn fel rhan o broses o dyndra naturiol sy'n digwydd rhwng Llywodraeth sydd eisiau deddfu a gweithredu mor gyflym â phosibl a'r gweddill ohonom, sydd eisiau craffu ar y Llywodraeth a gwneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth cystal â phosibl, a cheisio gwneud yn siŵr bod dim byd mewn deddfwriaeth sy'n mynd i gael ei gamddefnyddio gan Lywodraeth o liw gwahanol neu Weinidog o fath gwahanol yn y dyfodol. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn gweld hon fel proses o aeddfedu'r sefydliad hwn, o ran y ffordd yr ydym yn deddfu ac yn delio â chynlluniau gan y Llywodraeth.

Fodd bynnag, yn y dyfodol, credaf fod yn rhaid inni sylweddoli y bydd y realiti ariannol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu her enfawr ac amhosibl i dalu'r costau hynny eto. Mae'r newid, yn y bôn, yn newid ar bob lefel o lywodraeth. Rhaid inni gydweithio â lefelau eraill o lywodraeth er mwyn sicrhau pecyn ariannu sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n cael budd-dal y dreth gyngor. Yn y dyfodol, mae angen inni edrych ar gynllun a rennir, gyda chyd-berchnogaeth gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol helpu i feddwl am atebion a rhannu'r costau.

Credaf hefyd fod yn rhaid i bobl sy'n agored i niwed barhau i fod yn flaenoriaeth. Rhaid iddynt barhau i gael eu cefnogi'n llwyr. Gwn fod pobl yma sy'n anghytuno â'r broses—a hynny'n briodol mewn rhai achosion, byddwn yn dadlau. Fodd bynnag, amddiffynaf fy mhenderfyniad hefyd, a phenderfyniad y Llywodraeth, i sicrhau'r bleidlais er mwyn y bobl fwyaf agored i niwed. Gan fod amser gennym erbyn hyn, gobeithio y byddwn yn meddwl am gynllun y bydd pawb yn teimlo y gallant ei gefnogi.

I am grateful to the Chair of the committee on which I serve for setting out so clearly the lessons to be learnt from this experience. I will not repeat what he said; I will just give my impression of the process and what we can learn from it as we move forward.

Starting on the positive side of things, we need to accept that, whatever the troubles that we encountered in making these regulations, at the end of the day, regulations were created that were better because more time was given to consider them and a sunset clause was also included. Also, it was a better result for those people who will be affected by the decision in Westminster. There was a period whereby the Government was able to find additional money—around £20 million—for this year, anyway. I must say that, in the end, the system worked and succeeded in achieving a result that was better than what would have been the case in the first place.

I should also say that we see this as part of a process of natural tension between a Government that wants to legislate and act as quickly as possible and the rest of us who want to scrutinise the Government and ensure that the legislation is as good as it possibly can be, and try to ensure that there is nothing in legislation that could be misused by a future Government of a different colour or a Minister of a different kind. It is important, therefore, that we view this as part of the process of the maturing of this institution, in terms of how we legislate and deal with plans put forward by the Government.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wedi dweud hynny, mae un wers i'w dysgu, sef bod angen digon o amser i ni weithio gyda'n gilydd. Efallai bod un o argymhellion y pwyllgor wedi cael ei lled anwybyddu eisoes, oherwydd dim ond yn y munudau diwethaf yr ydym wedi gweld ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor. Nid wyf wedi cael cyfle i ddarllen ymateb y Llywodraeth yn fanwl, ond rwy'n gweld un peth sy'n galonogol ynddo, sef ei bod wedi cytuno bod gwerth mewn trafod rheoliadau drafft—hyd yn oed rhai sydd heb eu cwblhau—er mwyn inni weld beth yw'r egwyddor heb fod rhaid i bob ffigur gael ei ddodi yn y rheoliadau. Rwy'n croesawu hynny, ac rwy'n meddwl y bydd yn helpu'r broses. Rwy'n meddwl bod gwersi yn hynny o beth ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r lle hwn ar fater brys.

Wythnos nesaf, rydym yn mynd i edrych ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Mae hynny'n mynd i arwain at lawer o ddeddfwriaeth, is-ddeddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â sefydlu panel, er enghraifft. Mae hynny, hefyd, yn gofyn yr un fath o gwestiwn i ni fel Cynulliad, a bydd angen digon o amser arnom yn y pwyllgorau i graffu ac edrych ar oblygiadau hynny.

Yn y pen draw, felly, roedd proses ddeddfwriaethol ar waith yn ogystal â phroses wleidyddol ehangach. Roedd fy nghyfaill Rhodri Glyn Thomas yn amlwg iawn yn y broses wleidyddol ehangach, yn dod â'r mater hwn i sylw'r Cynulliad yn y lle cyntaf ac yn annog y Llywodraeth, o'r cychwyn cyntaf, i wneud rhywbeth, o leiaf eleni, i helpu i leddfu'r penderfyniad hwn gan San Steffan. Nid wyf yma i amddiffyn yr hyn a wnaed gan San Steffan, ond nid ydym yma chwaith i graffu ar benderfyniadau San Steffan. Nid ydym ond yn gallu craffu ar benderfyniadau ein Gweinidogion ni yma yng Nghymru.

Wrth edrych at y dyfodol, rwy'n gobeithio y cawn ragor o amser i ystyried hyn, wrth i'r cymal machlud ddod yn weithredol, ac wrth i'r Llywodraeth weithio gyda phwyllgorau ar ei chynlluniau ar gyfer dyfodol y budd-daliadau yma. Mae'n siŵr bod y diffyg cyfathrebu a welwyd yn yr adroddiad rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru yn achos o ddiffyg cyfathrebu ar y ddwy ochr. Rwy'n derbyn hynny, ond mae angen cyfathrebu eang ac agored yn awr gyda llywodraeth leol, achos bydd unrhyw ateb i'r broblem hon yn yr hirdymor yn gorwedd, am wn i, mewn cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, ac yn ein dwylo ni yn awr y mae gweithredu'r system hon wrth iddi fynd yn ei blaen.

Felly, fel y dywedais, rwy'n meddwl bod hyn yn rhan o'r broses o'r corff hwn yn aeddfedu a sut rydym yn datblygu. Mae twtsh o wleidyddiaeth wastad ynghlwm wrth hyn, ond y prif beth yn yr adroddiad hwn yr wyf eisiau gafael ynddo, a chofio amdano wrth i ni fynd ymlaen ac edrych ar unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n dod ger ein bron, yw bod gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth fel Llywodraeth sy'n gweithredu—rwy'n derbyn hynny—a ninnau yn y lle hwn, ond mae'n rhaid parchu hawl y lle hwn i graffu cymaint ag y bo modd a bod yn rhydd o'r ystyriaethau gwleidyddol sydd rhwng y Llywodraeth hon ac unrhyw Lywodraeth arall.

Having said that, one lesson to be learnt is that we need enough time to work together. Perhaps one of the recommendations of the committee has been somewhat ignored, because it is only in the last few minutes that we have seen the Government's response to the committee report. I have not had an opportunity to read the Government's response thoroughly, but I see one thing that is encouraging in it, that it has agreed that there is value in discussing draft regulations—even those that have not been completed—so that we can consider the principle without having to have every figure in the regulations. I welcome that, and I think that it will help the process. I think that there are lessons to be learnt from that for any legislation that progresses through this place as a matter of urgency.

Next week, we will be looking at the Agricultural Sector (Wales) Bill. That will lead to a lot of legislation, subordinate legislation and regulations in terms of establishing a panel, for example. That also poses the same sort of question of us as an Assembly, and we will need plenty of time in committee to scrutinise and to look at the implications of that legislation.

Ultimately, therefore, there was a legislative process as well as a broader political process. My colleague Rhodri Glyn Thomas was very visible in the wider political process as he brought this matter to the Assembly's attention in the first place and encouraged the Government, from the start, to do something, at least this year, to help to mitigate this decision by Westminster. I am not here to defend what was done in Westminster, but we are also not here to scrutinise decisions made in Westminster. We are only here to scrutinise decisions made by our Ministers here in Wales.

Looking to the future, I hope that we have more time to consider this, as the sunset clause is enacted, and as the Government works with committees on its future plans for these benefits. The lack of communication mentioned in the report between the Westminster Government and the Welsh Government was probably on both sides. I accept that, but broad and open communication is now needed with local government, because any solution to this problem in the long term will rest, I suppose, in an agreement between the Welsh Government and local government, and implementing that system as it proceeds is now in our hands.

So, as I said, I believe that this is part of the process of how this institution matures and develops. There is always a touch of politics involved, but the main thing that I want to grasp and bear in mind as we move forward and look at other legislation that comes before us is that there is a difference between the Government in terms of its actions—I accept that—and us in this place, but the right of this place to carry out as much scrutiny as possible and to be free of the political considerations between this Government and any other Government must be respected.

I thank you for the opportunity to take part in this debate today. When looking at issues like this, much of the detail has been discussed, but I want to take a step back and view it from the point of view of what our position is in the grand scheme of things. Why are we here as individual Assembly Members, not as part of a Government? What do our actions look like to our constituents? As a new legislature, what precedent are we setting today that will be followed in future?

The policy issue at stake here is one that affects daily life for thousands of people across Wales. Each of us has constituents who could have been affected. It is not minor or technical; in fact, I would say that it is both extremely important and complex. For each of us as backbench Members, our basic duty is to scrutinise the Welsh Government's proposals and represent the needs of our constituents. However, by tabling the regulations so very late, the Welsh Government asked us, essentially, to rubber stamp its plans without us having had the opportunity to fulfil our fundamental duty as Assembly Members. This Chamber is a legislature. It is a young one, but one that takes its powers and its duties seriously. It should not be circumvented for any Government, either with, or without, a majority. This is not just about building a consensus with the opposition parties. That can be useful in getting a vote past in a hung Chamber, but it is much more fundamental than that; it is also about protecting the role of your own backbench Assembly Members and making sure that they have a fair chance to fulfil their duties to their constituents too. You have to give the legislature the chance to do its job, so I welcome the Welsh Government's agreement to look at things such as sharing draft regulations, so that we have an opportunity to enter into that discussion and debate with it.

Joyce mentioned that we are ruled by Standing Orders and procedures. What would be the consequence then if we just let situations like this pass? Why do we set so much store, in some of the opposition parties, by the Standing Orders and procedures? You could argue that, as a modern legislature, should we not seek a more flexible, consensual style of politics than some of the other places from where we are governed? I would say, 'a flexible and consensual politics, yes', but, 'a flexible and consensual legislature, no'. Although the Assembly is now 14 years old, we have only been a legislature for two years. Every action that we take right now sets a precedent for future Assemblies that will sit in this place—Assemblies with perhaps more powers than we have now. We have an even greater duty than they will have, because we are the foundation on which their democracy will be built. If we forget that, and if we undermine the role and purpose of each individual Assembly Member as a representative of their communities, we not only disenfranchise backbench Members and the voices of their constituents, but leave behind us a precedent that I believe is damaging for future generations and shows us in the worst possible light.

Diolch ichi am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Wrth edrych ar faterion fel hyn, mae llawer o'r manylion wedi cael ei drafod, ond rwyf am gymryd cam yn ôl ac ystyried hyn o safbwynt llawer mwy cyffredinol. Pam rydym yma fel Aelodau Cynulliad unigol, ac nid fel rhan o'r Llywodraeth? Beth yw barn ein hetholwyr am ein gweithredoedd? Fel deddfwrfa newydd, pa gynsail yr ydym yn ei osod heddiw a gaiff ei ddilyn yn y dyfodol?

Y mater polisi sydd yn y fantol yma yw un sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol miloedd o bobl ledled Cymru. Mae gan bob un ohonom etholwyr y gallai hyn fod wedi effeithio arnynt. Nid yw'n rhywbeth bach na thechnegol; mewn gwirionedd, byddwn yn dweud ei fod yn eithriadol o bwysig a chymhleth. I bob un ohonom fel Aelodau meinciau cefn, ein dyletswydd sylfaenol yw craffu ar gynigion Llywodraeth Cymru a chynrychioli anghenion ein hetholwyr. Fodd bynnag, drwy gyflwyno'r rheoliadau mor hwyr, gofynnodd Llywodraeth Cymru inni roi sêl bendith, yn y bôn, ar ei chynlluniau heb roi'r cyfle inni gyflawni ein dyletswydd sylfaenol fel Aelodau Cynulliad. Deddfwrfa yw'r Siambr hon. Mae'n un ifanc, ond yn un sy'n cymryd ei phwerau a'i dyletswyddau o ddifrif. Ni ddylid ei hosgoi ar gyfer unrhyw Lywodraeth, naill ai gyda neu heb fwyafrif. Nid oes a wnelo hyn â chreu consensws â'r gwrthbleidiau yn unig. Gall hynny fod yn ddefnyddiol i sicrhau pleidlais mewn Siambr grog, ond mae'n llawer mwy sylfaenol na hynny; mae a wnelo hefyd â diogelu rôl eich Aelodau meinciau cefn eich hun o'r Cynulliad a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfle teg i gyflawni eu dyletswyddau i'w hetholwyr hefyd. Rhaid ichi roi cyfle i'r ddeddfwrfa wneud ei gwaith, felly croesawaf gytundeb Llywodraeth Cymru i edrych ar bethau fel rhannu rheoliadau drafft, fel y cawn gyfle i drin a thrafod hynny.

Crybwyllodd Joyce ein bod yn cael ein rheoli gan Reolau Sefydlog a gweithdrefnau. Beth fyddai'r canlyniad pe baem yn anwybyddu sefyllfaoedd o'r fath? Pam mae'r Rheolau Sefydlog a'r gweithdrefnau mor bwysig i rai o'r gwrthbleidiau? Gallech ddadlau y dylem, fel deddfwrfa fodern, geisio dull mwy hyblyg a chydsyniol o wleidyddiaeth fodern, geisio dull mwy hyblyg a chydsyniol o wleidyddiaethu? Byddwn yn dweud, 'gwleidyddiaeth hyblyg a chydsyniol, ie', ond, 'deddfwrfa hyblyg a chydsyniol, na'. Er bod y Cynulliad wedi bodoli ers 14 mlynedd bellach, dim ond ers dwy flynedd yr ydym wedi bod yn ddeddfwrfa. Mae pob cam a gymerwn ar hyn o bryd yn gosod cynsail i Gynullidau'r dyfodol a fydd yn eistedd yn y lle hwn—Cynullidau â mwy o bwerau o bosibl nag sydd gennym ar hyn o bryd. Mae arnom ddyletswydd hyd yn oed yn fwy na'r un a fydd arnynt hwy, oherwydd ni yw'r sail yr adeiledir eu democratiaeth arni. Os anghofiw hynny, ac os tanseliwn rôl a diben pob Aelod Cynulliad unigol fel cynrychiolydd eu cymunedau, rydym nid yn unig yn difreinio Aelodau'r meinciau cefn a lleisiau eu hetholwyr, ond yn gadael cynsail ar ein hôl sydd yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol yn fy marn i ac sy'n creu'r argraff waethaf bosibl ohonom.

I hope that lessons will be learnt and that we manage to find a more appropriate balance in the future between the needs of the Welsh Government to act quickly in difficult circumstances, which we all recognise, but also the need for backbench Members to apply effective scrutiny in future and to be allowed to do our duties to the very best of our ability with the information we need to succeed.

Gobeithio y caiff gwersi eu dysgu a'n bod yn llwyddo i ddod o hyd i gydbwysedd mwy priodol yn y dyfodol rhwng anghenion Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym mewn amgylchiadau anodd, y mae pob un ohonom yn eu cydnabod, a'r angen hefyd i Aelodau meinciau cefn graffu'n effeithiol yn y dyfodol a chael cyfle i gyflawni ein dyletswyddau hyd eithaf ein gallu gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i lwyddo.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:10 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I would like to thank the Constitutional and Legislative Affairs Committee and David Melding, its Chair, for producing this report. I also thank him and other Members for their comments today. As everyone is aware, the UK Government abolished this scheme and the Welsh Government was left to pick up the pieces. As Joyce Watson stated, there was no engagement between the Governments.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a David Melding, ei Gadeirydd, am lunio'r adroddiad hwn. Hoffwn ddiolch iddo ef ac Aelodau eraill hefyd am eu sylwadau heddiw. Fel y gŵyr pawb, diddymodd Llywodraeth y DU y cynllun hwn a gadawyd Llywodraeth Cymru i glirio'r llanastr. Fel y nododd Joyce Watson, nid oedd unrhyw ymwneud rhwng y Llywodraethau.

The Welsh Government then faced huge challenges in developing a replacement for a non-devolved benefits system that had been in operation for 20 years, particularly within very constrained timescales and with significantly reduced funding. Therefore, it is an achievement that financial support was provided to over 300,000 households from 1 April this year, most of which were transferred seamlessly into the new system. I am sure that that was at the forefront of my predecessor's mind.

Yna wynebai Llywodraeth Cymru her enfawr o ran datblygu system yn lle'r system budd-daliadau annatganoledig a fu ar waith ers 20 mlynedd, o fewn amserlen dynn iawn a chyda chryn dipyn yn llai o arian. Felly, mae'n gamp bod cymorth ariannol wedi ei ddarparu i dros 300,000 o gartrefi o 1 Ebrill eleni, y trosglwyddwyd y rhan fwyaf ohonynt yn ddidrafferth i'r system newydd. Rwy'n siŵr bod hynny ar flaen meddwl fy rhagflaenydd.

While difficulties were encountered during the legislative processes, I want to assure all colleagues that we have learned from this experience. At least seven further sets of regulations were successfully made after the main council tax reduction scheme regulations referred to in the report. Many of these were also technically complex or dependent on information from and action by UK Government departments. Since I took up the portfolio in March, I have made next year's scheme an absolute priority and I have asked my officials to begin work immediately to ensure that sufficient time would be available for scrutiny. I have also spoken to opposition spokespeople—as Simon Thomas said, it is very important that we work together—and I have been able to inform them of my thoughts on next year's scheme, and my officials are always available to answer questions.

Er i anawsterau godi yn ystod y prosesau deddfwriaethol, hoffwn sicrhau pob cyd-Aelod ein bod wedi dysgu gwersi o'r profiad hwn. Llwyddwyd i wneud o leiaf saith set arall o reoliadau ar ôl rheoliadau'r prif gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Roedd llawer o'r rhain yn dechnegol gymhleth neu'n ddibynnol ar wybodaeth gan adrannau Llywodraeth y DU a chamau gweithredu a gyflawnwyd ganddynt. Rwyf wedi sicrhau bod cynllun y flwyddyn nesaf yn flaenoriaeth lwyr ac wedi gofyn i'm swyddogion ddechrau gwaith arno ar unwaith er mwyn sicrhau y byddai digon o amser ar gael ar gyfer craffu. Rwyf hefyd wedi siarad â llefarwyr yr wrthblaid—fel y dywedodd Simon Thomas, mae'n bwysig iawn ein bod yn cydweithio—ac rwyf wedi sôn wrthynt am fy syniadau ynglŷn â chynllun y flwyddyn nesaf, ac mae fy swyddogion bob amser ar gael i ateb cwestiynau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Given the ongoing shortfall that we expect to increase year on year, along with pressure on budgets and the impact of the UK Government's welfare reform, I have also asked for a review of the options for a longer term solution to provide an equitable and sustainable scheme within the available funding, which we can then implement from 2015-16. The review will examine the options and their impact on public finances and local services and, crucially, on those who currently receive council tax support, as well as other council tax payers. We will analyse the schemes currently operating in England and the implications of welfare reform, identify viable options and then model their likely impact. A task and finish group of officials, local government representatives and Citizens Advice is overseeing this work for me. The ultimate aim is a sustainable scheme that is equitable for recipients within the financial, legislative and other constraints that we face, but we should be under no illusions about how challenging this will be to deliver. However, I intend to keep Members updated on this work as it progresses.

As you are all aware, the sunset clause in this year's regulations commits us to reviewing the regulations and bringing forward a new set by 1 January 2014. As was the case last year, there are two main sets of council tax reduction scheme regulations that will need to be made: the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations. These will be made bilingually. It will also be necessary to make minor amendments to update some of the technical regulations made for the effective operation of the scheme, for example, those relating to fraud. I have stated previously that I intend to lay these regulations in November. However, I would like to provide Members with advance notice that we may need to make a separate updating set of regulations after the main sets of regulations have been made. This is necessary to keep claimants' entitlement to support in line with the cost of living increases. Without this, claimants would be worse off. It is just a routine process that is done on an annual basis for a number of other sets of regulations.

The main regulations are already being drafted to incorporate the amendments required for some welfare reform changes, to make further simplifications to improve the process for claimants, and, where possible, to reduce the cost of administration and to consider any practical adjustments needed based on our experience of the first few months of the scheme's operation. As was the case with the regulations made last year, the new regulations will be drafted in close collaboration with local government. I will also be issuing the draft regulations for technical consultation during the summer recess. Immediately they are published, I intend to bring them to the attention of the relevant committees to facilitate effective scrutiny when we come back.

O ystyried y diffyg parhaus yr ydym yn disgwyl iddo gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ynghyd â phwysau ar gyllidebau ac effaith diwygio lles Llywodraeth y DU, rwyf hefyd wedi gofyn am adolygiad o'r opsiynau ar gyfer ateb tymor hwy i ddarparu cynllun teg a chynaliadwy o fewn y cyllid sydd ar gael, a gallwn wedyn ei weithredu o 2015-16. Bydd yr adolygiad yn edrych ar yr opsiynau a'u heffaith ar gyllid cyhoeddus a gwasanaethau lleol ac, yn hollbwysig, ar y rhai sy'n cael cymorth y dreth gyngor ar hyn o bryd, yn ogystal â thalwyr eraill y dreth gyngor. Byddwn yn dadansoddi'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr a goblygiadau diwygio lles, yn nodi opsiynau dichonadwy ac yna'n modelu eu heffaith debygol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen o swyddogion, cynrychiolwyr llywodraeth leol a Chyngor ar Bopeth yn goruchwyllo'r gwaith hwn i mi. Y nod yn y pen draw yw cael cynllun cynaliadwy sy'n deg i dderbynwyr o fewn y cyfyngiadau ariannol a deddfwriaethol a chyfyngiadau eraill a wynebwn, ond ni ddylem dwyllo ein hunain ynghylch pa mor anodd fydd cyflawni hyn. Fodd bynnag, bwriadaf sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Fel y gwyr pob un ohonoch, mae'r cymal machlud yn rheoliadau eleni yn ein rhwymo i adolygo'r rheoliadau a chyflwyno set newydd erbyn 1 Ionawr 2014. Fel y digwyddodd y llynedd, bydd angen gwneud dwy brif set o reoliadau ar gyfer cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru). Caiff y rhain eu gwneud yn ddwyieithog. Bydd angen gwneud mân newidiadau hefyd er mwyn diweddarau rhai o'r rheoliadau technegol a wnaed er mwyn i'r cynllun weithredu'n effeithiol, er enghraifft, y rhai yn ymwneud â thwyll. Rwyf wedi nodi o'r blaen fy mod yn bwriadu gosod y rheoliadau hyn ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, hoffwn roi rhybudd ymlaen llaw i Aelodau y bydd angen inni efallai uwchraddio set o reoliadau ar wahân ar ôl i'r prif setiau o reoliadau gael eu gwneud. Bydd angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod hawl hawlwr i gymorth yn unol â chostau byw cynyddol. Heb hyn, byddai hawlwr yn waeth eu byd. Proses reolaidd ydyw a wneir bob blwyddyn ar gyfer nifer o setiau eraill o reoliadau.

Mae'r prif reoliadau eisoes yn cael eu drafftio i gynnwys y newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer rhai newidiadau diwygio lles, i symleiddio pethau ymhellach er mwyn gwella'r broses ar gyfer hawlwr, a, lle y bo modd, i leihau costau gweinyddu ac ystyried unrhyw addasiadau ymarferol sydd eu hangen yn seiliedig ar ein profiad o ychydig fisoedd cyntaf gweithredu'r cynllun. Fel yn achos y rheoliadau a wnaed y llynedd, bydd y rheoliadau newydd yn cael eu drafftio mewn cydweithrediad agos â llywodraeth leol. Byddaf hefyd yn cyhoeddi rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghoriad technegol yn ystod toriad yr haf. Yn union ar ôl eu cyhoeddi, bwriadaf eu dwyn i sylw'r pwyllgorau perthnasol i hwyluso proses graffu effeithiol pan ddychwelwn.

There are no easy ways to manage the shortfall in funding transferred from the UK Government. However, I am currently in discussions with local government about the arrangements for 2014-15. I have offered to share the costs in order to ease the financial pressure in what will be a difficult budget settlement for us all. I have set up a finance sub-group with local government. We met for the first time on Monday this week. There were representatives from the Welsh Local Government Association and leaders of local authorities from right across Wales from different parties at the meeting where we discussed this difficult issue.

My Cabinet colleagues and I are committed to retaining a national framework scheme and to protecting entitlements for eligible claimants at their current levels. I hope to be able to make a further announcement on the scheme for 2014-15 shortly. As Simon Thomas referred to, I will ensure that Members are kept updated on progress with drafting the regulations. However, to make sure that everyone is clear, I will publish a timetable before the summer recess by way of a written statement.

Nid oes unrhyw ffordd hawdd o reoli'r diffyg mewn cyllid a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rwyf wrthi'n cynnal trafodaethau â llywodraeth leol am y trefniadau ar gyfer 2014-15. Rwyf wedi cynnig rhannu costau er mwyn lleddfu'r pwysau ariannol yn yr hyn a fydd yn setliad cyllideb anodd inni i gyd. Rwyf wedi sefydlu is-grŵp cyllid â llywodraeth leol. Cyfarfûm am y tro cyntaf ddydd Llun yr wythnos hon. Roedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr awdurdodau lleol o bob cwr o Gymru o wahanol bleidiau yn y cyfarfod lle buom yn trafod y mater anodd hwn.

Mae fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet a minnau yn ymrwymedig i gadw cynllun fframwaith cenedlaethol a chynnal hawliau i hawlwrwyr cymwys ar eu lefelau presennol. Gobeithio y gallaf wneud cyhoeddiad pellach ar y cynllun ar gyfer 2014-15 yn fuan. Fel y soniodd Simon Thomas, byddaf yn sicrhau bod Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd o ran drafftio'r rheoliadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall hyn, byddaf yn cyhoeddi amserlen cyn toriad yr haf drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig.

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the committee to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:16 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Members for taking part in this debate and I will reply briefly to some of the matters that have been raised, starting with those raised by Joyce Watson. I think Joyce sought to put this question in a wider political context, which is not something I chose to do, as my job is a more technical one as chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, although this did occur in a wider political context, so I do not think your remarks were in any way inappropriate, Joyce, and you set out the Government's case in a political context very well. Indeed, this was an issue that involved two Governments and those relations were not conducted at an optimum level, I think it is fair to say.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan yn y ddatl hon, a gwnaf ymateb yn fyr i rai o'r materion a godwyd, gan ddechrau gyda'r rhai a godwyd gan Joyce Watson. Credaf i Joyce geisio gosod y cwestiwn hwn mewn cyd-destun gwleidyddol ehangach, sef rhywbeth na ddewisais innau ei wneud, gan fod fy swydd fel cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn un fwy technegol, er i hyn ddigwydd mewn cyd-destun gwleidyddol ehangach, felly ni chredaf fod eich sylwadau yn amhriodol mewn unrhyw ffordd, Joyce, a gwnaethoch amlinellu achos y Llywodraeth mewn cyd-destun gwleidyddol yn dda iawn. Yn wir, roedd hyn yn fater a oedd yn cynnwys y ddwy Lywodraeth a chredaf ei bod deg dweud na chafodd y cysylltiadau hynny eu cynnal ar y lefel orau bosibl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will not pass judgment on the political issues involved. My main response here is that our procedures are flexible enough to cope with the effect that has on scrutiny, especially on technical issues such as the fitness of regulations. We could still have coped with that political context and done our job in terms of our technical and legislative scrutiny responsibilities. The Government could have published as much as possible in draft, and it could have published without final figures. There were practical ways to do this and to manage it. I think I can infer from what the Minister said that the Government has taken that on board.

Ni chynigiau farn ar y materion gwleidyddol dan sylw. Fy mhrif ymateb yma yw bod ein gweithdrefnau yn ddigon hyblyg i ymdopi â'r effaith a gaiff hynny ar y broses graffu, yn enwedig ar faterion technegol megis addasrwydd y rheoliadau. Gallem fod wedi ymdopi o hyd â'r cyd-destun gwleidyddol hwnnw a gwneud ein gwaith o ran ein cyfrifoldebau craffu technegol a deddfwriaethol. Gallai'r Llywodraeth fod wedi cyhoeddi cymaint â phosibl ar ffurf ddrafft, a gallai fod wedi cyhoeddi heb ffigurau terfynol. Roedd ffyrdd ymarferol o wneud hyn a llwyddo i'w wneud. Credaf y gallaf gasglu o'r hyn a ddywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi derbyn hynny.

Simon Thomas, I suppose also made a similar expansive comment in saying that the final outcome was improved and there was a reasonable solution, particularly when the Government accepted a sunset clause. Again that possibly goes beyond what is appropriate for me to comment on, but I do hear what he said: that the system did work in the end in terms of how the Government has to negotiate with other parties and listen to the views of Assembly Members. However, I think it could have been saved a lot of that had it engaged more effectively with the Constitutional and Legislative Affairs Committee in the first place. Simon made the point that scrutiny is of paramount importance. It is what the legislative process is all about—I was going to say especially for those of us who are in parties that are not in Government, but it is also, actually, an important function for Labour backbenchers and one that they execute with considerable alacrity most of the time.

Eluned Parrott said that Standing Orders are there so that we have a full and proper legislative process, which discusses things in a timely and effective manner. Standing Orders have to be taken seriously. They are the very rules that make our work really rigorous. I think that is something that the Government has to take on board. It usually does, because Standing Orders help Government as much as anything else, because it has the right to present its programme to us, and to have decisions taken in an appropriate and timely manner itself. However, Standing Orders are not be suspended unless there are the most extraordinary circumstances to justify that.

Eluned also pointed out the importance of the Government taking on board the lessons that are in our report, and, again, the absolute importance of the scrutiny role.

In conclusion, the Minister's response was, I think, broadly encouraging. I do not think that to say that the Government has learned from experience reduces the Government. I think that it is appropriate sometimes to say, 'Look, we didn't get all this right. There are reasons for it; they weren't malign reasons'. I am quite prepared to believe that, given the pressure of events and the wider context and, perhaps, the Government's own priorities in keeping an eye on things. It is not easy to do all that complex work to the highest standard all the time.

We have sought to be very practical in the suggestions that we have made to make sure that these mishaps do not occur in the future. I was very pleased to hear the Minister say that the scheme that will have to be in place because of the sunset clause, the succeeding scheme, is a priority, and that you fully accept that, when that scheme is brought forward, the scrutiny process is absolutely essential and needs to be conducted thoroughly. I am sure that the Government can restore a lot of its reputation for good practice in this area by the way in which the successor scheme is dealt with.

- 17:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 122. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 122.
- 17:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move amendment 122 in my name. Cynigiaf welliant 122 yn fy enw i.
- 17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 122 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, so amendment 122 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 122. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 122 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.
Derbyniwyd gwelliant 122. *Amendment 122 agreed.*
- 17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister to move amendment 123. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 123.
- 17:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynigiaf welliant 123 yn fy enw i. I move amendment 123 in my name.
- 17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 123 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, so amendment 123 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 123. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir gwelliant 123 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.
Derbyniwyd gwelliant 123. *Amendment 123 agreed.*
- 17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Mobile Homes (Wales) Bill. I declare that all sections and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings. Rydym wedi gorffen ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Cartrefi Symudol (Cymru). Rwy'n datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Bil wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.
- Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 26.45 ynghylch y Bil Cartrefi Symudol (Cymru)**
Cynnig

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.45, yn ystyried gwelliannau i'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru) mewn Cyfnod Adrodd.

Motion under Standing Order No. 26.45 in relation to the Mobile Homes (Wales) Bill
Motion

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.45, considers amendments to the Mobile Homes (Wales) Bill at Report Stage.
- 17:48 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move the motion. Cynigiaf y cynnig.
- 17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, so the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
As the motion is agreed, the next item, which was the Stage 4 motion to approve the Bill, will be deferred until after the Report Stage.

There is no voting time. I am sure that Members are relieved to hear that.

Nid oes cyfnod pleidleisio. Rwy'n siŵr bod yr Aelodau yn falch o glywed hynny.

Daeth Angela Burns i'r gadair am 5.49 p.m.

Angela Burns took the chair at 5.49 p.m.

17:50 **Dadl Fer: Buddsoddi yn ein Dyfodol**

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My short debate is on the important role of credit unions in creating sustainable communities. Mark Isherwood has given notice that he wishes—[Interruption.]

Short Debate: Investing in our Future

Testun fy nadl fer yw rôl bwysig undebau credyd yn y gwaith o greu cymunedau cynaliadwy. Mae Mark Isherwood wedi fy hysbysu ei fod am—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:50 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. May I interrupt, Peter? I ask Members to be silent for the short debate, please. Thank you.

Trefn. A gaf dorri ar draws, Peter? A fyddai'r Aelodau cystal â bod yn dawel ar gyfer y ddadl fer, os gwelwch yn dda. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:50 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mark Isherwood has given notice that he wishes to have a minute after I have finished my speech.

Mae Mark Isherwood wedi fy hysbysu ei fod am gael munud ar ôl imi orffen fy araith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If the view of credit unions as the poor man's bank were ever true, it certainly is not now. Credit unions in Wales—indeed, throughout the United Kingdom—are among the most innovative organisations working in our communities, with an underlying ethos that makes them, and the service that they provide, relevant to the lives of all sections of society and not simply those who are financially excluded.

Pe bai'r farn mai banc y tlodion yw'r undebau credyd erioed yn wir, yn sicr, nid yw'n wir mwyach. Mae undebau credyd yng Nghymru—yn wir, ledled y Deyrnas Unedig—ymhlith y sefydliadau mwyaf arloesol sy'n gweithio yn ein cymunedau, gydag ethos sylfaenol sy'n golygu eu bod hwy, a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt, yn berthnasol i fywydau pob rhan o'r gymdeithas ac nid dim ond y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol.

From the smallest community-based credit union, staffed entirely by volunteers, to the largest employee-based credit union, one of which is growing at over £1 million a month, the ethos remains the same. They are membership-based financial co-operatives with volunteer boards, seeking to provide services, encourage ethical savings and loans in the communities that they serve and to return any profits to those self-same members in the form of a dividend. They consist of people coming together to help one another make their community more resilient.

O'r undeb credyd cymunedol lleiaf, lle mae pob aelod o staff yn wirfoddolwr, i'r undeb credyd mwyaf â chyflogion, y mae un ohonynt yn tyfu ar gyfradd o dros £1 filiwn y mis, erys yr un ethos. Maent yn sefydliadau ariannol cydweithredol yn seiliedig ar system aelodaeth â byrddau o wirfoddolwyr, sy'n ceisio darparu gwasanaethau, annog dulliau cynilo a benthyciadau moesegol yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt a dychwelyd unrhyw elw i'r un aelodau hynny ar ffurf difidend. Maent yn annog pobl i ddod at ei gilydd i helpu ei gilydd i sicrhau bod eu cymuned yn fwy gwydn.

At a time when mainstream banks and financial institutions have abandoned many of our communities, preferring the building of shareholder value over the serving of customers, the void created has all too often been filled by doorstep lenders, money shops, payroll lenders and illegal loan sharks, who charge eye-watering levels of interest. The latest figures from the Campaign for Community Banking Services have identified 50 communities in Wales—38 of them rural—where there is only one bank branch left. Many of these lenders have a business model that is geared to plunging customers deeper and deeper into debt so that they can charge more and more interest.

Credit unions act as an antidote to such a spiral, offering the chance to save and borrow at reasonable rates of interest, thus relieving the financial and psychological burden of debt that weighs down so many individuals and communities today.

However, credit unions are not charities but businesses. This means that, important though working to combat financial exclusion might be, it cannot be the principal focus of the credit union movement in Wales. Welsh credit unions must become self-sustaining, trading successfully with their members and attracting new members across the Welsh demographic. Successive Welsh and UK Governments have recognised this. In Wales, we have seen the credit union action plan being extended to April of next year, with the Minister offering a further £1.25 million to Welsh credit unions for a business plan that will deliver Welsh Government objectives after that date.

The UK Government has made £38 million of money from the Department for Work and Pensions available to fund the credit union expansion programme to April 2015. Five Welsh credit unions, of which Loans and Savings Abertawe in Swansea is one, are part of the 31 UK credit unions in phase 1 of that scheme. Other Welsh credit unions will enter in subsequent phases.

What is clear, and has been attested to by both the previous Minister for Communities and Tackling Poverty and the First Minister, is that these two schemes must work together. It has always been stressed that Welsh Government funding should not duplicate but enhance the objectives of the credit union expansion project programme in Wales. At the Welsh Government's credit union summit on 13 June, I am told that the Minister spoke clearly about the need to promote resilient communities, defined as communities that are well informed, well organised and well supported. The Minister said that credit unions have a clear role to play in all three areas, in close co-operation with appropriate persons.

Ar adeg pan fo banciau a sefydliadau ariannol prif ffrwd wedi gadael llawer o'n cymunedau heb ddarpariaeth, gan fod yn well ganddynt gynyddu gwerth i gyfranddalwyr na gwasanaethu cwsmeriaid, mae'r gwagle a grëwyd yn rhy aml wedi cael ei lenwi gan fenthycwyr carreg drws, siopau arian, benthycwyr cyflogres a benthycwyr arian didrwydded anghyfreithlon, sy'n codi lefelau anhygoel o log. Mae'r ffigurau diweddaraf gan yr Ymgyrch dros Wasanaethau Bancio Cymunedol wedi nodi 50 o gymunedau yng Nghymru—38 ohonynt yn rhai gwledig—lle mae un gangen banc yn unig sy'n weddill. Mae gan lawer o'r benthycwyr hyn fodel busnes wedi'i anelu at beri i gwsmeriaid fynd yn ddyfnach ac yn ddyfnach i ddyled er mwyn iddynt allu codi mwy a mwy o log.

Mae undebau credyd yn gweithredu i wrthsefyll patrwm o'r fath, gan gynnig y cyfle i gynilo a benthycwyr a gyfraddau llog rhesymol, gan felly ysgafnhau baich ariannol a seicolegol dyled sy'n pwysu ar gymaint o unigolion a chymunedau heddiw.

Fodd bynnag, nid elusennau yw undebau credyd ond busnesau. O ganlyniad, er bod trechu allgáu ariannol yn bwysig, ni all fod yn brif ffocws i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Rhaid i undebau credyd yng Nghymru ddod yn hunangynhaliol, gan fasnachu'n llwyddiannus gyda'u haelodau a denu aelodau newydd ledled demograffeg Cymru. Mae Llywodraethau olynol Cymru a'r DU wedi cydnabod hyn. Yng Nghymru, estynnwyd y cynllun gweithredu ar gyfer undebau credyd tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf, gyda'r Gweinidog yn cynnig £1.25 miliwn arall i undebau credyd yng Nghymru tuag at gynllun busnes a fydd yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth y DU wedi rhyddhau £38 miliwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ariannu'r rhaglen ehangu undebau credyd hyd at fis Ebrill 2015. Mae pum undeb credyd yng Nghymru, y mae Loans and Savings Abertawe yn un ohonynt, yn rhan o'r 31 o undebau credyd yn y DU sydd wedi'u cynnwys yng ngham 1 o'r cynllun hwnnw. Caiff undebau credyd eraill yng Nghymru eu cynnwys fel rhan o gamau dilynol.

Yr hyn sy'n amlwg, ac a nodwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol a'r Prif Weinidog, yw bod yn rhaid i'r ddau gynllun hyn weithio gyda'i gilydd. Pwysleisiwyd o'r cychwyn cyntaf na ddylai arian Llywodraeth Cymru ddyblygu amcanion rhaglen y prosiect i ehangu undebau credyd yng Nghymru, ond yn hytrach y dylai ychwanegu atynt. Yn uwchgynhadledd undebau credyd Llywodraeth Cymru ar 13 Mehefin, yn ôl pob sôn, siaradodd y Gweinidog yn eglur am yr angen i hyrwyddo cymunedau gwydn, a ddiffiniwyd fel cymunedau gwybodus, wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u cefnogi'n dda. Dywedodd y Gweinidog fod gan undebau credyd ran amlwg i'w chwarae yn y tri maes, gan gydweithredu'n agos â phobl briodol.

However, how is this to be delivered in practical terms? There will need to be a single business plan, designed and agreed by Welsh credit unions, that works with the grain of the credit union expansion project programme, hence with the Association of British Credit Unions Limited in Wales. Such a plan will need to deliver improvement in the areas of operations, marketing and central services, with improved information technology as a cross-cutting theme. It will, however, need to do so through the medium of specific projects designed to address looming problems in our communities, such as the impact of pay-day loans, potential rent shortfalls, the need for closer co-operation with advice agencies and sharia-compliant savings and loan products, among others.

Fortunately, a start has already been made, with ABCUL credit unions coming together in a single Wales-wide body and agreeing to establish a group to which trade bodies will contribute to begin formulating a business plan. Time is not on the credit unions' side. The Minister set a deadline of four months from 13 June for a draft plan to be produced. I understand that officials have attempted to halve this deadline, and this needs to be clarified urgently. Conversations need to be had with ABCUL, the DWPs successful tenderer for the credit union expansion project, and with the DWP itself to establish how the two projects can achieve synergy.

A decision needs to be made as to whether the disbursement of £1.25 million is to be subject to a tender process and how that process and, indeed, the terms of any tender are to be structured. Sensible outcomes and a time frame need to be negotiated with Welsh credit unions by the Welsh Government and outputs and way stations that will produce these outcomes need to be identified and agreed. A lot of work needs to be done.

The strength of credit unions is the way that they are able to innovate within the boundaries of an ethical framework. In Swansea, LASA has led the way with an initiative that has seen it work with Swansea prison, to offer credit union accounts to prisoners. I was privileged to work with it in helping it to set up negotiations with the Ministry of Justice in London to keep the project on schedule. Enabling former prisoners to reintegrate swiftly into the community upon release is vital and helps to prevent reoffending. Prisoners can join the credit union and save money from their earnings while they are still completing their sentences. This means that they will have a lump sum saved upon release that they will be able to use for housing costs and other expenses to tide them over until they are able to access a source of regular income. Prisoners will be able to use their credit union accounts to continue to play a significant part in the lives of their families, by being able to pay for household expenses, birthday presents and the like.

The Swansea credit union is also working with the Islamic Bank of Britain and the Muslim community to put in place sharia, or ethical, loans and saving accounts. I understand that this product will be ready to be launched in a few months' time. That product will help the credit union to attract members from communities where there is a significant level of financial exclusion. I understand that considerable interest has been shown in this by other ethnic communities throughout Swansea as well.

Fodd bynnag, sut y gellir cyflawni hyn yn ymarferol? Bydd angen un cynllun busnes, a gaiff ei gynllunio ac y cytunir arno gan undebau credyd yng Nghymru, sy'n gweithio ar y cyd â rhaglen y prosiect i ehangu undebau credyd, felly gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig yng Nghymru. Bydd angen i gynllun o'r fath sicrhau gwelliannau ym maes gweithrediadau, marchnata a gwasanaethau canolog, gyda gwell technoleg gwybodaeth yn thema drawsbynciol. Fodd bynnag, bydd angen iddo wneud hynny drwy gyfrwng prosiectau penodol wedi'u cynllunio i ymdrin â phroblemau sydd ar y gorwel yn ein cymunedau, megis effaith benthyciadau diwrnod cyflog, diffygion rhent posibl, yr angen am gydweithredu agosach gydag asiantaethau cyngor a chynhyrchion cynilo a benthycy sy'n cydymffurfio â sharia, ymhlith eraill.

Yn ffodus, dechreuwyd arni eisoes, gydag undebau credyd ABCUL yn dod at ei gilydd i greu un corff i Gymru gyfan ac yn cytuno i sefydlu grŵp y bydd cyrff masnach yn cyfrannu ato er mwyn dechrau llunio cynllun busnes. Nid oes gan yr undebau credyd lawer o amser. Pennodd y Gweinidog derfyn amser o bedwar mis o 13 Mehefin ar gyfer llunio cynllun drafft. Rwyf ar ddeall bod swyddogion wedi ceisio haneru'r terfyn amser hwn, ac mae angen cadarnhau'r sefyllfa ar fyrder. Mae angen cynnal sgysiaau gydag ABCUL, tendrwr llwyddiannus DWP ar gyfer y prosiect ehangu undebau credyd, a chyda DWP ei hun er mwyn canfod sut y gall y ddau brosiect sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd.

Mae angen gwneud penderfyniad o ran pa un a ddylai'r taliad o £1.25 miliwn fod yn destun proses dendro a sut y dylid strwythuro'r broses honno ac, yn wir, delerau unrhyw dendr. Mae angen i Lywodraeth Cymru negodi deilliannau ac amserlen synhwyrol gydag undebau credyd Cymru ac mae angen nodi allbynnau a cherrig milltir a fydd yn arwain at y deilliannau hyn a chytuno arnynt. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith.

Cryfder undebau credyd yw'r ffordd y gallant arloesi o fewn ffiniau fframwaith moesegol. Yn Abertawe, mae LASA wedi arwain y ffordd gyda menter lle y bu'n gweithio gyda charchar Abertawe, i gynnig cyfrifon undeb credyd i garcharorion. Cefais y ffrind o weithio gydag LASA i'w helpu i drefnu cyd-drafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni ar amser. Mae galluogi gyn-garcharorion i ailintegreiddio'n gyflym i'r gymuned adeg eu rhyddhau yn hanfodol ac mae'n helpu i'w hatal rhag aildroseddu. Gall carcharorion ymuno â'r undeb credyd a chynilo arian o'u henillion tra y byddant yn bwrw eu dedfryd. Felly byddant wedi cynilo cyfandaliad erbyn adeg eu rhyddhau y gallant ei ddefnyddio tuag at gostau tai a threuliau eraill i'w cadw ar ben y ffordd hyd nes y gallant ddod o hyd i ffynhonnell incwm reolaidd. Bydd carcharorion yn gallu defnyddio eu cyfrifon undeb credyd i barhau i chwarae rhan sylweddol ym mywydau eu teuluoedd, drwy allu talu am dreuliau'r cartref, anrhegion pen-blwydd ac ati.

Mae undeb credyd Abertawe hefyd yn gweithio gyda Banc Islamaidd Prydain a'r gymuned Fwslimaidd i gynnig benthyciadau a chyfrifon cynilo sharia, neu foesegol. Deallaf y bydd y cynnyrch hwn yn barod i'w lansio ymhen ychydig fisoedd. Bydd y cynnyrch hwnnw yn helpu'r undeb credyd i ddenu aelodau o gymunedau lle ceir lefel sylweddol o allgáu ariannol. Deallaf fod cymunedau ethnig eraill ledled Abertawe wedi dangos cryn ddiddordeb yn hyn hefyd.

Credit unions are now also working with housing providers to help those tenants who have to pay rent for the first time, as a result of changes in housing benefits, to manage their finances. I understand that work is also ongoing to enable, and to provide, finance for microbusinesses. This is particularly important when linked up with ethical loans, as it is not just individuals who can benefit from this product, but businesses, too.

Like many others, I am concerned about the growth of companies offering these loans, often at extraordinary levels of interest—companies such as Wonga with its typical APR of 4,214%, or The Money Shop's Payday Express, with its typical APR of 2,671%. Earlier this year, the UK Government published a report of a year-long investigation into the activities of pay-day lenders. Among the actions to be taken by the Office of Fair Trading is forcing pay-day lenders to make their advertising clearer, stopping them from rolling loans over and ceasing strong-arm debt recovery practices. Pay-day lenders will be forced to clean up their act with regard to marketing, told to make sure that people can afford to take a loan, stop continuously taking money from customers' accounts, thus plunging them deeper and deeper into debt, and be required to act decently towards people in debt. That is an important step forward, but I hope that the Government can be persuaded to go further. There should be a cap on the total cost of credit to halt this financial abuse once and for all. When the financial conduct authority takes over regulation in 2014, it should introduce one as quickly as possible.

How credit unions can help to counter the insidious influence of these companies is a key question that the Welsh and the UK Governments need to face up to. Can credit unions, for example, buy out these loans and encourage victims to save and borrow with them? Will they need Government assistance to do that? We need to push at the boundaries of what credit unions can do to promote social justice, while maintaining a sound business. The key to this is long-term and sustainable Government support, so as to achieve specific objectives. I hope that the new Minister can give an undertaking to continue that work, and, in finishing this speech, I welcome Jeff Cuthbert to that job. I do not envy him the task of taking forward the challenge that I have just laid down for him.

Mae undebau credyd bellach yn gweithio gyda darparwyr tai hefyd i helpu'r tenantiaid hynny sy'n gorfod talu rhent am y tro cyntaf, o ganlyniad i newidiadau mewn budd-daliadau tai, i reoli eu harian. Deallaf fod gwaith yn mynd rhagddo hefyd i alluogi microfusnesau ac i ddarparu arian ar eu cyfer. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gaiff ei gysylltu gyda benthyciadau moesegol, ac nid dim ond unigolion y mae'r cynnyrch hwn o fudd iddynt, ond busnesau hefyd.

Fel llawer o bobl eraill, rwy'n pryderu am y twf yn nifer y cwmnïau sy'n cynnig y benthyciadau hyn, yn aml ar lefelau llog aruthrol—cwmnïau fel Wonga gyda'i APR nodweddiadol o 4,214%, neu Payday Express The Money Shop, gyda'i APR nodweddiadol o 2,671%. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adroddiad ar ymchwiliad blwyddyn o hyd i weithgareddau benthycwyr diwrnod cyflog. Ymhlith y camau i'w cymryd gan y Swyddfa Masnachu Teg mae gorfodi benthycwyr diwrnod cyflog i wneud eu hysbysebu'n gliriach, eu hatal rhag cario benthyciadau drosodd a rhoi'r gorau i arferion adennill dyledion bygythiol. Bydd benthycwyr diwrnod cyflog yn cael eu gorfodi i ddefnyddio dulliau marchnata mwy gonest, dywedir wrthynt am sicrhau y gall pobl fforddio'r benthyciad, i roi'r gorau i godi arian yn rheolaidd o gyfrifon cwsmeriaid, gan beri iddynt fynd yn ddyfnach ac yn ddyfnach i ddyled, ac fe'i gwneir yn ofynnol iddynt ymddwyn mewn ffordd weddus tuag at bobl sydd mewn dyled. Mae hwnnw'n gam pwysig ymlaen, ond gobeithio y gellir darbwyllo'r Llywodraeth i wneud mwy. Dylid rhoi cap ar gyfanswm cost credyd er mwyn rhoi terfyn ar y camymddwyn ariannol hwn unwaith ac am byth. Pan ddaw'r awdurdod ymddygiad ariannol yn gyfrifol am reoleiddio yn 2014, dylai gyflwyno un cyn gynted â phosibl.

Mair ffordd y gall undebau credyd helpu i drechu dylanwad llechwraidd y cwmnïau hyn yn gwestiwn allweddol y mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ei wynebu. Er nghrafft, a all undebau credyd brynu'r benthyciadau hyn ac annog dioddefwyr i gynilo a benthggyd gyda hwy? A fydd angen cymorth y Llywodraeth arnynt er mwyn gwneud hynny? Mae angen inni estyn ffiniau'r hyn y gall undebau credyd ei wneud i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tra'n cynnal busnes cadarn. Mae cefnogaeth hirdymor a chynaliadwy gan y Llywodraeth yn allweddol yn hyn o beth, er mwyn cyflawni amcanion penodol. Gobeithio y gall y Gweinidog newydd ymrwymo i barhau â'r gwaith hwnnw, ac, wrth ddod â'r araith hon i ben, croesawaf Jeff Cuthbert i'r swydd honno. Nid wyf yn eiddigeddus o'r dasg sy'n ei hwynebu wrth ymateb i'r her a gyflwynais iddo.

17:59

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

In January last year, changes to the Credit Unions Act 1979 came into place that were described by the chief executive of the Association of British Credit Unions as a major breakthrough in delivery of credit union services to communities around Britain. On that occasion, I called on the Welsh Government to maximise the freedoms delivered by this UK legislation. In May, I tabled a statement of opinion, welcoming the success of ABCUL's bid to deliver the UK Government's credit union expansion project, noting that several credit unions in Wales had already signed up.

Ym mis Ionawr y llynedd, rhoddwyd newidiadau i Ddeddf Undebau Credyd 1979 ar waith a ddisgrifiwyd gan brif weithredwr Cymdeithas Undebau Credyd Prydain fel datblygiad sylweddol o ran darparu gwasanaethau undebau credyd i gymunedau ledled Prydain. Ar yr achlysur hwnnw, galwais ar Lywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y rhyddid sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon yn y DU. Ym mis Mai, cyflwynais ddatganiad barn, yn croesawu llwyddiant cais ABCUL i roi prosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU ar waith, gan nodi bod sawl undeb credyd yng Nghymru eisoes wedi ymuno â'r prosiect hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also noted more recently that both the Scottish Parliament—with positive comments from members of all four parties—had debated the UK Government's credit union expansion project. In the House of Lords, similarly, there were positive comments across the parties in a debate sponsored by a Labour Lord. The project has been welcomed. However, when the Welsh Government chose to announce its recent funding for credit unions, it did so outside the Chamber and without any reference to the UK Government's credit union expansion programme.

I also note the work that credit unions have been doing with housing providers and on the development of budgeting account solutions to assist people to manage their finances when affected by direct payments under housing benefit changes. This is, once again, supported by UK Government money. However, when I have asked questions on all of these matters, the Welsh Government has avoided reference to any of the UK schemes. Therefore, I call on the Welsh Government to engage with the UK Government on these schemes and to publicly share progress with us so that we know that this is helping with the efficient and effective development of credit union services and the people who can most benefit from them in Wales.

Nodais hefyd yn fwy diweddar fod Senedd yr Alban—gyda sylwadau cadarnhaol gan aelodau pob un o'r pedair plaid—wedi trafod prosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU. Yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn yr un modd, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan bob plaid mewn dadl a gyflwynwyd gan Arglwydd Llafur. Croesawyd y prosiect. Fodd bynnag, pan ddevisodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllid diweddar ar gyfer undebau credyd, gwnaeth hynny y tu allan i'r Siambr ac heb unrhyw gyfeiriad at raglen ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU.

Nodaf hefyd y gwaith y mae undebau credyd wedi bod yn ei wneud gyda darparwyr tai ac ar ddatblygu atebion cyfrifon cyllidebu i helpu pobl i reoli eu harian pan fydd taliadau uniongyrchol yn effeithio arnynt oherwydd newidiadau i fudd-daliadau tai. Caiff hyn, unwaith eto, ei gefnogi gan arian Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, pan ofynnais gwestiynau ar bob un o'r materion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi osgoi cyfeirio at unrhyw un o gynlluniau'r DU. Felly, galwaf ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cynlluniau hyn ac i rannu cynnydd yn gyhoeddus gyda ni er mwyn inni wybod fod y broses yn helpu i ddatblygu gwasanaethau undebau credyd mewn ffordd effeithlon ac effeithiol ac yn helpu'r bobl y byddant o'r budd mwyaf iddynt yng Nghymru.

18:01 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r dadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:01 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I thank Peter for proposing the debate on this important issue today. I thank Mark Isherwood for his contribution, and I also thank Peter for welcoming me to my new position. I do not doubt for one second the hard tasks that I face.

Diolch i Peter am gynnig y ddadl ar y mater pwysig hwn heddiw. Diolch i Mark Isherwood am ei gyfraniad, a diolch hefyd i Peter am fy nghroesawu i'm swydd newydd. Nid oes unrhyw amheuaeth gennyf fod tasgau anodd o'm blaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to start by saying that today provides an excellent first opportunity for me to say a few words about my thoughts and ambitions for the credit union movement in Wales as Minister for Communities and Tackling Poverty. This debate is also timely, following the announcement on 13 June by my predecessor of additional funding of almost £2 million for this financial year. This funding will do two things. First, it will extend the current credit union project for a further six months to March 2013. Secondly, it will stimulate membership growth in this financial year. I will talk about this in more detail later.

Hoffwn ddechrau drwy ddweud bod heddiw yn rhoi cyfle cyntaf gwych imi sôn rhywfaint am fy syniadau a'm huchelgeisiau ar gyfer y mudiad undebau credyd yng Nghymru fel y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae'r dadl hon hefyd yn amserol, yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed ar 13 Mehefin gan fy rhagflaenydd bod arian ychwanegol o bron i £2 filiwn ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Bydd yr arian hwn yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, bydd yn ymestyn y prosiect undebau credyd presennol am chwe mis arall hyd at fis Mawrth 2013. Yn ail, bydd yn ysgogi twf yn nifer yr aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Soniaf yn fanylach am hyn yn ddiweddarach.

Credit unions are key to our efforts to tackle poverty and play an important role in supporting work under our tackling poverty action plan, which I launched with the First Minister and the Deputy Minister for Tackling Poverty last week. I see credit unions as a key part of the local network of support that should exist in all communities. As a Government, we support many organisations to work with communities. These organisations need to come together to help to build sustainable communities across Wales. That is, communities where people can easily access the services they need and find the support that is on offer. Access to affordable financial services has always been important, but, as Peter Black has pointed out, in these days of pay-day loan companies and loan sharks, it is essential to ensure that communities are well informed and aware of the facts to enable them to make informed decisions about their lives. Credit unions and, of course, advice services are central to enabling this.

We must also ensure that our community resources are well organised, with service providers working together to make the best use of available funding by eliminating gaps in service, removing duplication and working together to deliver consistent messages and approaches. For example, as a Government, we provide funding to advice services and credit unions. It is not unreasonable to ask for the services that we fund to work in much closer collaboration in Wales.

With the support of the Welsh Government and European regional development fund, more than £4 million has been invested over the last three years in credit unions in Wales. As a result of this support, significant progress has been made in growing the membership of credit unions. As of March 2013, this project has helped just under 15,000 adults to access affordable credit and services. Together with the funding announcement made by my predecessor last month, the investment into credit unions over three years will be £6 million. As a result of this financial support, credit unions in Wales are on target to achieve 143,000 members by 2020. However, I would like to see that grow even more.

Credit unions are at the heart of our efforts to tackle poverty. While it is difficult to quantify, the reality is that loans provided by credit unions are saving many consumers millions of pounds in interest, especially when compared, as Peter Black illustrated, to the extortionate rate of interest charged by the pay-day loan companies that are increasingly blighting our communities. For this reason, I am committed to continuing support for credit unions.

Mae undebau credyd yn allweddol i'n hymdrechion i drechu tlodi ac yn chwarae rhan bwysig i gefnogi gwaith sy'n rhan o'n cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, a lansiwyd gennyf gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yr wythnos diwethaf. Mae undebau credyd, yn fy marn i, yn rhan allweddol o'r rhwydwaith cymorth lleol a ddylai fodoli ymhob cymuned. Fel Llywodraeth, rydym yn helpu llawer o sefydliadau i weithio gyda chymunedau. Mae angen i'r sefydliadau hyn ddod at ei gilydd er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau cynaliadwy ledled Cymru. Hynny yw, cymunedau lle y gall pobl gael gafael yn hawdd ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a dod o hyd i'r cymorth sydd ar gael. Bu mynediad i wasanaethau ariannol fforddiadwy bob amser yn bwysig, ond, fel y nododd Peter Black, yn yr oes sydd ohoni gyda'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog a benthycwyr arian didrwydded, mae'n hanfodol sicrhau bod cymunedau yn wybodus ac yn ymwybodol o'r ffeithiau er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau hyddysg am eu bywydau. Mae undebau credyd ac, wrth gwrs, wasanaethau cynghori yn greiddiol yn hyn o beth.

Rhaid inni hefyd sicrhau y caiff ein hadnoddau cymunedol eu trefnu'n dda, gyda darparwyr gwasanaethau yn cydweithio i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael drwy gael gwared ar fylchau mewn gwasanaethau, dileu achosion o ddyblygu a chydweithio i gyfleu negeseuon ac ymagweddau cyson. Er enghraifft, fel Llywodraeth, rydym yn rhoi arian i wasanaethau cyngor ac undebau credyd. Nid yw'n afresymol gofyn i'r gwasanaethau a ariennir gennym gydweithio'n llawer agosach yng Nghymru.

Gyda chymorth Llywodraeth Cymru a chronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, buddsoddwyd mwy na £4 miliwn mewn undebau credyd yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. O ganlyniad i'r cymorth hwn, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cynyddu aelodaeth undebau credyd. Ym mis Mawrth 2013, mae'r prosiect hwn wedi helpu bron i 15,000 o oedolion i gael gafael ar gredyd a gwasanaethau fforddiadwy. Ynghyd â'r cyhoeddiad ar gyllid a wnaed gan fy rhagflaenydd fis diwethaf, bydd £6 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn undebau credyd dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad i'r cymorth ariannol hwn, mae undebau credyd yng Nghymru ar y trywydd cywir i gyrraedd 143,000 o aelodau erbyn 2020. Fodd bynnag, hoffwn weld cynnydd mwy byth.

Mae undebau credyd wrth wraidd ein hymdrechion i drechu tlodi. Er ei bod yn anodd ei fesur, y realiti yw bod benthyciadau a ddarperir gan undebau credyd yn arbed miliynau o bunnoedd mewn llog i lawer o ddefnyddwyr, yn enwedig o gymharu â'r gyfradd llog aruthrol, fel y disgrifiwyd gan Peter Black, a godir gan y cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog sy'n bla cynyddol ar ein cymunedau. Am y rheswm hwn, rwy'n ymrwymedig i barhau i gefnogi undebau credyd.

Part of the funding awarded this year to credit unions will extend the support for them from September until March of next year to continue to deliver services to those who are financially excluded. Of course, consideration needs to be given to support beyond that time period, and that is a matter that I will address. A further £1.25 million has been made available for this financial year to look at what can be done to accelerate credit union development and increase growth. This additional funding was announced last month and discussed with credit unions at a summit on 13 June. At this summit, credit unions were tasked with a challenge as to how the Welsh Government should support them in this financial year in order to help achieve a sustainable credit union movement that can still help those on low incomes access affordable finance.

I know that this will not be easy. There are difficulties that exist between targeting those who are financially excluded while also achieving sustainability, but I am sure this can be done. I want credit unions to respond to these challenges together and collectively. This collaboration will be important if continued growth and sustainability of Welsh credit unions over the next three years is to be achieved. I look forward to working with the movement in meeting this challenge and particularly as this work progresses over the coming weeks and months.

I know that some good work has already been done and this can be considered as we move forward. There are several ideas and products already on the table, such as home budgeting accounts and different loan products. All this work is good, but I know that, by working together, credit unions, with the support of Welsh Government, can do much more for the people of Wales, who deserve efficient, affordable and transparent financial services on which they can depend. Credit unions are ideally placed to deliver that. With the additional funding that has been made available this financial year, it is crucial that credit unions identify what is right for them in order to achieve sustainability, and what they need in terms of Welsh Government support. It is also clear that credit unions will need to work together in a co-ordinated way to meet this challenge. I hope that this can be achieved by working with Social Investment Business, which is ideally placed to facilitate this work.

Therefore, to conclude, I want to restate my admiration for the way in which credit unions have delivered in recent years. Thanks to their efforts, many low-income households have been able to benefit from access to more affordable finance. Moving forward, I want to encourage credit unions in Wales to work collaboratively to meet the challenge of working with the financially excluded in our communities while at the same time accelerating growth.

Bydd rhan o'r cyllid a ddyfernir i undebau credyd eleni yn ymestyn y cymorth iddynt o fis Medi hyd at fis Mawrth y flwyddyn nesaf er mwyn iddynt barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Wrth gwrs, mae angen ystyried rhoi cymorth y tu hwnt i'r cyfnod amser hwnnw, a byddaf yn ymdrin â'r mater hwnnw. Rhyddhawyd £1.25 miliwn pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol hon er mwyn ystyried beth y gellir ei wneud i gyflymu'r broses o ddatblygu undebau credyd a chynyddu twf. Cyhoeddwyd yr arian ychwanegol hwn fis diwethaf ac fe'i trafodwyd gyda'r undebau credyd mewn uwchgynhadledd ar 13 Mehefin. Yn yr uwchgynhadledd hon, gofynnwyd i'r undebau credyd sut y dylai Llywodraeth Cymru eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn helpu i sicrhau mudiad undebau credyd cynaliadwy a all barhau i helpu'r rhai ar incwm isel i gael gafael ar gyllid fforddiadwy.

Gwn na fydd hyn yn hawdd. Mae anawsterau rhwng targedu'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ond gan sicrhau cynaliadwyedd ar yr un pryd, ond rwy'n siŵr y gellir gwneud hyn. Rwyf am i undebau credyd ymateb i'r heriau hyn gyda'i gilydd mewn ffordd gyfunol. Bydd y cydweithredu hwn yn bwysig er mwyn sicrhau twf a chynaliadwyedd parhaus undebau credyd yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r mudiad i ymateb i'r her hon ac yn arbennig wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gwn fod rhywfaint o waith da eisoes wedi'i wneud a gellir ystyried hyn wrth inni symud ymlaen. Mae llawer o syniadau a chynhyrchion eisoes wedi'u cynnig, megis cyfrifon cyllidebu cartref a gwahanol fenthyciadau. Mae'r holl waith hwn yn gadarnhaol, ond gwn, drwy gydweithio, y gall undebau credyd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wneud llawer mwy i bobl Cymru, sy'n haeddu gwasanaethau ariannol effeithlon, fforddiadwy a thryloyw y gallant ddibynnu arnynt. Mae undebau credyd mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu hynny. Gyda'r arian ychwanegol a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'n hanfodol bod undebau credyd yn nodi beth sy'n briodol ar eu cyfer er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, a'r hyn sydd ei angen arnynt o ran cymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn amlwg y bydd angen i undebau credyd gydweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig er mwyn ymateb i'r her hon. Gobeithio y gellir cyflawni hyn drwy weithio gyda Social Investment Business, sydd mewn sefyllfa ddelfrydol i hwyluso'r gwaith hwn.

Felly, i gloi, hoffwn ailddatgan fy edmygedd tuag at gyflawniadau undebau credyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Diolch i'w hymdrechion, mae llawer o aelwydydd incwm isel wedi gallu cael gafael ar gyllid mwy fforddiadwy. Gan symud ymlaen, hoffwn annog undebau credyd yng Nghymru i gydweithio i ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol yn ein cymunedau tra'n cyflymu twf ar yr un pryd.

18:08

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.08 p.m.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

The meeting ended at 6.08 p.m.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)